# Adroddiad Llesiant Blynyddol

## 2022/23



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

This document is available in English.
Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Rhagair yr Arweinydd

Ym mis Mehefin y llynedd nodwyd uchelgais gennym i wneud Caerdydd yn brifddinas gryfach, decach a gwyrddach.

Dinas gryfach, lle mae gan bawb fynediad at addysg dda, swydd dda, cartref da a gwasanaethau cyhoeddus gwych.

Dinas decach, lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd i fyw yng Nghaerdydd, waeth beth fo'u cefndir, lle bo'r rhai sy'n dioddef effeithiau tlodi yn cael eu cefnogi a lle bo pob dinesydd yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi.

A dinas wyrddach sydd, drwy ein rhaglen Caerdydd Un Blaned, yn arwain yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn hyrwyddo bioamrywiaeth ac yn cynnig opsiynau trafnidiaeth cyfleus, hygyrch, diogel a chynaliadwy.

Mae'r Adroddiad Llesiant Blynyddol yn rhoi asesiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y ddinas a'r heriau a'r risgiau o'n blaenau. Lluniwyd yr adroddiad yn dilyn proses hunanasesu drwyadl a oedd yn cynnwys ystyriaeth eang o berfformiad y Cyngor. Roedd hefyd yn cynnwys adolygiad manwl o'r systemau a'r prosesau sydd gennym ar waith i reoli'r Cyngor a monitro cyflawniad.

Rydym at ei gilydd yn gwneud cynnydd da, ac rwy'n falch o'r hyn y mae'r Cyngor hwn wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Darparwyd addysg dda gennym i blant yng Nghaerdydd - cydnabuwyd hyn yn glir yn Estyn yn ei adroddiad diweddaraf - a buddsoddwyd symiau sylweddol gennym i adeiladu ysgolion newydd a gwella ystâd yr ysgolion.

Gwnaethom gyflawni'r rhaglen datblygu tai fwyaf yng Nghymru, ac rydym yn bwriadu adeiladu hyd yn oed mwy o dai Cyngor yn y blynyddoedd nesaf.

Rydym yn gwneud cynnydd o ran newid y cydbwysedd o ran gofal, a thrwy waith arloesol rydym yn helpu i ail-lunio'r farchnad ofal.

Gwnaed camau breision i ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy strategaeth Un Blaned Caerdydd, ac rydym yn parhau i ddatblygu cyflenwad o waith adfywio graddfa fawr.

Mae gwaith rhagorol wedi'i wneud i sicrhau bod y Cyngor yn cefnogi'r staff ac yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Bellach, ni yw'r awdurdod lleol yn y safle uchaf ym mynegai cyflogwyr LHDTC+ Stonewall, ac rydym wedi derbyn yr holl argymhellion a wnaed gan y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r heriau a'r risgiau o'n blaen, a'r meysydd y mae angen eu gwella.

Mae maint y galw yn cynyddu a'r achosion yn troi'n fwyfwy cymhleth, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei brofi ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, ond yn fwyaf nodedig yn y Gwasanaethau Plant, y Gwasanaethau Oedolion, Tai ac Addysg. Ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau am gryn amser. Nid yw'r pwysau ar ein gwasanaeth wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid eto, ac nid os unrhyw ddisgwyl iddynt wneud hynny'n fuan o gwbl.


Ar yr un pryd, dros y flwyddyn ddiwethaf bu'n rhaid i'r Cyngor ymateb i sawl risg a mater nas rhagwelwyd ond a oedd yn sylweddol, gan gynnwys yr argyfwng costau byw ac ynni, ac arwain ymateb y ddinas gyfan i groesawu a chefnogi ffoaduriaid o'r rhyfel yn Wcráin. Bydd angen inni fod yn barod i ragweld ac ymateb, ar fyrder ac mewn partneriaeth, i risgiau a materion newydd wrth iddynt godi dros y flwyddyn nesaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi amlygu'r pwysau ar y gweithlu mewn gwasanaethau allweddol fel gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol neu yrwyr HGV. Er bod yr heriau hyn yn parhau, mae'r pwysau ar y gweithlu bellach yn cael eu teimlo ar draws bron pob cyfarwyddiaeth a gwasanaeth.

Ac er inni dderbyn setliad gwell na'r disgwyl, mae'r sefyllfa ariannol yn dal i fod yn heriol yn y tymor canolig, sy'n cael ei gyrru gan alw cynyddol am ein gwasanaethau, chwyddiant a chynnydd yn y gost o ddarparu gwasanaethau ac o gyflawni'r rhaglen gyfalaf, ac adfer ein sefyllfa o ran incwm mewn rhai gwasanaethau ar ôl Covid.

I grynhoi, yr hyn sy'n nodweddu system berfformiad dda yw un sy'n ein galluogi i adnabod cynnydd ac adnabod meysydd lle mae angen ymyrryd i fynd i'r afael â heriau. Dyna'n union y mae'r adroddiad yn ei wneud.

Fel bob tro, hoffwn ddiolch i holl staff y cyngor a'i bartneriaid, i gyd-aelodau etholedig ac i sefydliadau cymunedol a phartneriaid y ddinas am eu cyfraniadau yn ystod y llynedd. Edrychaf ymlaen i weithio gyda phob un ohonoch dros y flwyddyn sydd i ddod.



**Cyng. Huw Thomas**
Arweinydd Cyngor Caerdydd

# Cynnwys


2 Rhagair yr Arweinydd

5 Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

10 Asesiad Cyffredinol

14 Amcan Llesiant 1 – Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

22 Amcan Llesiant 2 – Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

28 Amcan Llesiant 3 – Helpu pobl allan o dlodi

36 Amcan Llesiant 4 – Cymunedau diogel, hyderus sydd wedi'u grymuso

46 Amcan Llesiant 5 – Prifddinas sy'n gweithio dros Gymrus

52 Amcan Llesiant 6 – Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn

60 Amcan Llesiant 7 – Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

# Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

## Beth yw'r Adroddiad Llesiant Blynyddol?

Pwrpas yr Adroddiad Llesiant Blynyddol yw hunanasesu perfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant ar gyfer 2022/23.

Mae'r Amcanion Llesiant hyn, gan gynnwys y camau a gymerir gan y Cyngor i'w cyflawni, a'r modd y caiff perfformiad ei fesur, wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2022-25 y Cyngor:

- Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
- Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- Helpu pobl allan o dlodi
- Cymunedau diogel, hyderus sydd wedi'u grymuso
- Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn
- Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Ffrwyth proses hunanasesu gynhwysfawr (a nodir isod) yw'r Adroddiad Llesiant Blynyddol hwn, ac mae'n trafod gwybodaeth am berfformiad, llywodraethu a risg, adnoddau, a gwybodaeth o ffynonellau eraill ar gyfer pob Amcan Llesiant. Mae pob pennod o'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad strategol yn ôl Amcan Llesiant, ynghyd â chrynodeb o'r llwyddiannau, yr heriau a'r blaenoriaethau i'r dyfodol.

Wrth greu a chyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Gofynion Statudol

Mae'r Adroddiad Llesiant Blynyddol yn bodloni gofynion statudol y Cyngor o ran y canlynol:

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny a chyhoeddi datganiad am Amcanion Llesiant. Cyflawnir y dyletswyddau hyn drwy broses Cynllunio Corfforaethol y Cyngor. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol, a wneir drwy'r Adroddiad Llesiant Blynyddol. Elfen greiddiol o'r Ddeddf yw'r **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** a'r **Pum Ffordd o Weithio**. Dyma nhw: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r graddau y caiff yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio eu cymhwyso wrth gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor.

- Sefydlodd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru gynnal adolygiad parhaus, drwy hunanasesiad, o'r graddau y mae'n bodloni ei "ofynion perfformiad" a chyhoeddi adroddiad yn esbonio casgliadau ei hunanasesiadau unwaith ym mhob blwyddyn ariannol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei allu i wneud defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau.

Mae'r Adroddiad Llesiant Blynyddol hwn, a luniwyd drwy'r broses hunanasesu a amlinellir isod, yn nodi casgliadau'r Cyngor ynghylch i ba raddau y mae wedi bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Bodloni Ein Gofynion Statudol

Ceir crynodeb isod o'r gofynion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflawni.

| Deddf | Gofyniad Cynllunio a Pherfformiad | Trefniant i Gydymffurfio |
|---|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Local Government & Elections Act | Gosod a chyhoeddi Amcanion Llesiant | Cwblhawyd drwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny | Cwblhawyd drwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cyhoeddi datganiad ynghylch yr Amcanion Llesiant | Cwblhawyd drwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol | Cwblhawyd drwy gyhoeddi'r Adroddiad Llesiant Blynyddol 2022/23 |
| | Cyhoeddi ei ymateb i unrhyw argymhelliad a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Heb dderbyn unrhyw argymhellion hyd yma. |
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau | Parhau i adolygu perfformiad: i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol; yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol; ac y mae ei drefniadau llywodraethu'n effeithiol i sicrhau'r uchod. | Cwblhawyd drwy gyhoeddi'r Adroddiad Llesiant Blynyddol 2022/23 |
| | Ymgynghori ar berfformiad: â phobl leol, staff, undebau llafur a phartneriaid | Cwblhawyd, gyda chyfeiriad at y prif ganfyddiadau wedi'u cynnwys yn Adroddiad Llesiant Blynyddol 2022/23 |
| | Adroddiad ar berfformiad: llunio adroddiad hunanasesu bob blwyddyn, yn cynnwys asesiad o berfformiad (gwasanaeth, cyllid, llywodraethu) a nodi camau gwella | Cwblhawyd drwy gyhoeddi'r Adroddiad Llesiant Blynyddol 2022/23 |
| | Trefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb i adroddiad asesu perfformiad y panel | I'w gwblhau yn ystod cylch llywodraeth leol 2022-27 |

Drwy gyhoeddi ei Ddatganiad Llesiant, mae'r Cyngor o'r farn **ei fod wedi bodloni'r dyletswyddau statudol perthnasol a restrir uchod.**

## Sut yr eir ati i lunio'r Adroddiad Llesiant Blynyddol?

Llunnir yr asesiad o berfformiad a geir yn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol drwy broses hunanasesu drwyadl sy'n cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gan gasglu gwybodaeth am berfformiad o ystod eang o ffynonellau.

**Ffynonellau Gwybodaeth am Berfformiad**

Mae ffynonellau gwybodaeth perfformiad sy'n cyfrannu at yr asesiad perfformiad a geir yn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol yn cynnwys:

- **Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor –** Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r Amcanion Llesiant. Lle bo'n berthnasol, gosodir targedau yn erbyn y dangosyddion perfformiad hyn i ddangos lefel y cyflawniad a ddymunir. Pennir statws CAG i'r dangosyddion: **Gwyrdd** lle bo'r dangosydd ar y targed neu uwchben, **Ambr** lle bo'r canlyniad o fewn 10% o'r targed, a **Choch** lle bo'r canlyniad dros 10% oddi wrth y targed.

- **Cynnydd yn erbyn y camau ym mhob Amcan Llesiant** – Cynnydd yn erbyn y camau ym mhob Amcan Llesiant – Mae pob Amcan Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys cyfres o gamau neu weithredoedd. Drwy fonitro cynnydd y camau hyn gellir deall yr hyn a gyflawnwyd a lle bo angen gwaith pellach. Ceir hyd i'r Perfformiad Diwedd Blwyddyn yn erbyn dangosyddion a chamau'r Cynllun Corfforaethol ar Ddangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol y Cyngor.

- **Ymgynghori ac Ymgysylltu –** Mae gan y Cyngor nifer o fecanweithiau ymgynghori ac ymgysylltu sefydledig, fel Arolwg Dinasyddion blynyddol Holi Caerdydd, yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb, a'r Arolwg o Ddinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant yn ogystal ag arolygon ac ymarferion ymgynghori eraill a gynhelir dros gyfnod o flwyddyn sy'n rhoi cyfle i drigolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill y ddinas rannu eu barn ar ystod eang o wasanaethau'r Cyngor. Ar y cyd â phartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd, aeth y Cyngor ati i lunio Adroddiad Trosolwg Ymgynghori, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023.

  Yn ogystal â hyn, mae Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion Blynyddol y Cyngor yn rhoi cipolwg gwerthfawr o farn dinasyddion Caerdydd ynghylch yr hyn y mae angen i'r Cyngor ei wella. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 'ansoddol' sy'n trafod bodlonrwydd dinasyddion â gwasanaethau, ac mae canfyddiadau'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan bwysig o broses y Cyngor i hunanasesu, datblygu polisi a phennu cyllidebau.

- **Monitro Cyllid** – Mae Adroddiad Alldro 2022/23 y Cyngor yn rhannu gwybodaeth am sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ac mae ei ganfyddiadau'n cyfrannu at yr asesiad a geir yn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol.

- **Llywodraethu Da** – Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys y cyfundrefnau y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod a'r gweithgareddau a gyflawnir ganddo er mwyn rhoi cyfrif amdano'i hun i'r gymuned, i ymgysylltu â'r gymuned, ac i arwain y gymuned. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn cynnwys asesiad o fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

- **Risg** – Er mwyn cyflawni amcanion mae angen rheoli risgiau'n aml ar lefelau gweithredol a strategol, yn enwedig yn yr amgylchedd allanol deinamig y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo. Mae Adroddiad Risg Diwedd Blwyddyn y Cyngor, a'i Gofrestrau Risg Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth, y rhoi trosolwg o'r risgiau cyfredol a'r camau sydd wedi'u sefydlu i'w lliniaru.

- **Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** – Mae'r Cyngor yn ymateb i'r materion a godir a'r argymhellion a wneir gan y Pwyllgorau, sydd o gymorth i gyfrannu at ddatblygiad polisi a gwelliant mewn perfformiad.

- **Adroddiadau Arolygu** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o arolygiadau gan gyrff rheoleiddio, gan gynnwysArchwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd lle ceir perfformiad cryf, yn ogystal â nodi agweddau y mae angen eu gwella.

**<u>Proses Hunanasesu</u>**

Llunnir yr Adroddiad Llesiant Blynyddol drwy ymgysylltu â chyfarwyddwyr a chymryd rhan mewn proses hunanwerthuso, sicrwydd a herio. Mae'r broses yn cynnwys rolau uwch i Bwyllgorau Craffu ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r broses hon yn cynnwys:

- Hunanwerthusiad gan gyfarwyddiaethau o berfformiad gwasanaethau, adnoddau a heriau a blaenoriaethau llywodraethu, gan ateb y cwestiynau canlynol:
  - Beth sy'n mynd yn dda?
  - Beth yw'r prif risgiau a'r heriau o flaen eich gwasanaethau?
  - Beth yw'r camau nesaf?

- Sesiynau sicrwydd a herio'r gyllideb a gynhelir gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 gyda phob Cyfarwyddwr, yn ystyried canfyddiadau hunanasesiad eu cyfarwyddiaeth.

- Sesiwn cynnydd a pherfformiad â'r Cabinet ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, lle bo'r Prif Weithredwr yn darparu asesiad strategol o berfformiad y sefydliad.

- Ystyriaeth o ddrafft yr Adroddiad Llesiant Blynyddol gan:
  - Y Panel Perfformiad, a gynullir gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, ac yn cynnwys Cadeiryddion holl Bwyllgorau Craffu'r Cyngor (Mae'r llythyr oddi wrth Gadeirydd y Panel Perfformiad sy'n cynnwys argymhellion y Panel ac ymateb y Cabinet wedi'u cynnwys yn Atodiad 3a a 3b yr adroddiad.)
  - Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Mae'r llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r ymateb wedi'u cynnwys yn Atodiadau 4a a 4b).
  - Y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad (Mae'r llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad a'r ymateb wedi'u cynnwys yn Atodiadau 5a a 5b).
  - Y Cabinet, ar ôl derbyn ac ymateb i argymhellion pob Pwyllgor.
  - Y Cyngor.

Nid rhywbeth sy'n digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unig yw gwella a gwerthuso perfformiad. Ystyrir adroddiad hunanwerthuso canol blwyddyn gan y Cabinet, gan ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad ym mis 6, a bydd perfformiad yn cael ei fonitro bob chwarter drwy ddiweddaru'r camau a'r dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Corfforaethol, a rhoddir ystyriaeth gyfannol i'r meysydd risg, y gyllideb, archwiliadau, ymgynghori a pherfformiad drwy gydol y flwyddyn er mwyn ysgogi gwelliant.

# Asesiad Cyffredinol

Mae'r Adroddiad Llesiant Blynyddol hwn yn cynnwys asesiad y Cyngor o berfformiad yn erbyn y saith Amcan Llesiant a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-25.

At ei gilydd, mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi gwneud cynnydd da ar draws yr holl Amcanion Llesiant, ac mae patrwm cyffredinol o berfformiad da ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol, y defnydd effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau, a'r defnydd o'i seilwaith llywodraethu i sicrhau gwelliant yn tystio i hynny.  Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi heriau a risgiau o ran perfformiad ym mhob Amcan Llesiant, lle bydd angen camau gwella dros y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys nifer fach o heriau strategol trawsbynciol sy'n effeithio ar bob gwasanaeth, ac a amlinellir isod.

Mae'r dadansoddiad sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol (a'r Asesiad Perfformiad Canol Blwyddyn) yn rhan ganolog o'r gwaith o bennu blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Cyngor ar gyfer gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod, a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2023-26 y Cyngor.

### Meysydd Cynnydd

Mae'r meysydd cynnydd a nodir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Mae deilliannau addysg yn gadarnhaol, gyda chyrhaeddiad yn uwch na chyfartaledd Cymru, a chanlyniadau arolygon ysgol yn gadarnhaol ar y cyfan.
- Mae strategaeth y Cyngor i 'newid y cydbwysedd gofal' yn cael effaith amlwg ar y Gwasanaethau Plant.
- O fewn y Gwasanaeth Cymdeithasol Oedolion, mae'r farchnad ofal wedi'i sefydlogi a llwybrau allan o'r ysbyty wedi gwella yn sgil cydweithio mwy effeithiol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Mae nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi'u cadw'n isel, gyda chymorth cofleidiol aml-asiantaeth yn arwain at ganlyniadau gwell, a chynnydd parhaus yn rhaglen adeiladu tai'r Cyngor.
- Cynnydd parhaus yn natblygiad y ddinas a phrosiectau mawr er gwaethaf amgylchiadau mwy heriol y farchnad.
- Datblygu cyfres helaeth o brosiectau Caerdydd Un Blaned – gan gynnwys y Rhwydwaith Gwres Ardal a sicrhau £100m i gyflawni cam cyntaf Cledrau Croesi Caerdydd.
- Ymateb yn effeithiol i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys yr argyfwng costau byw ac argyfwng ffoaduriaid Wcrain.
- Gweithio tuag at fod yn Gyngor sy'n adlewyrchu ac yn ymateb i amrywiaeth y ddinas, gan gynnwys derbyn holl argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a derbyn cydnabyddiaeth fel yr Awdurdod Lleol sydd â'r safle uchaf ym Mynegai Stonewall y DU.
- Parhau i weithredu'n llwyddiannus drwy waith hybrid, gan ddefnyddio'r ffordd newydd o weithio i oleuo datblygiad strategaeth greiddiol newydd ar gyfer swyddfeydd a'r gweithlu, gan ddatgloi arbedion effeithlonrwydd a chynnig mwy o hyblygrwydd i'r staff.

- Mwy o allu i ddinasyddion gyrchu gwasanaethau'r Cyngor drwy blatfformau ar-lein a gwelliannau i'w dull o ymgysylltu â dinasyddion, gan oleuo'r Strategaeth Cyfranogiad sydd ar ddod.

## Heriau Strategol

Mae'r Adroddiad Llesiant Blynyddol 2022/23 yn amlygu ystod o heriau o ran perfformiad, ac mae angen cadw ffocws corfforaethol ar yr heriau hynny dros y flwyddyn sydd i ddod:

- **Rheoli cynnydd parhaus yng nghymhlethdod a maint y galw ar draws gwasanaethau'r Cyngor:** Rheoli cynnydd parhaus yng nghymhlethdod a maint y galw ar draws gwasanaethau'r Cyngor: Mae'n debyg y bydd y newidiadau sylfaenol yng nghymhlethdod a maint y galw am wasanaethau yn dilyn Covid yn para am amser hir, ac yn cael eu teimlo ar draws amryw o wasanaethau. Gellir priodoli hyn i effeithiau parhaol y pandemig, yn ogystal â'r argyfwng costau byw, sydd wedi rhoi pwysau ar aelwydydd ledled y ddinas – yn enwedig unigolion a theuluoedd bregus – gyda niferoedd cynyddol o unigolion yn dibynnu ar wasanaethau'r Cyngor.

  Mae heriau'n gysylltiedig â'r galw i'w gweld yn amlwg mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gyda'r Gwasanaethau Plant yn wynebu achosion cynyddol a mwyfwy cymhleth. Yn ogystal â hyn, mae'r heriau o ran cyflenwad y gweithlu a'r prinder lle mewn llety wedi creu pwysau difrifol ar wasanaethau a'r gyllideb. Yn y system Addysg mae presenoldeb ysbeidiol a diffyg presenoldeb cyson yn achosi cryn bryder yn sawl rhan o'r ddinas, a bydd angen i'r Cyngor ac arweinwyr ysgol gyd-ganolbwyntio ar hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.

  Yn yr un modd, mae'r sector gofal cymdeithasol oedolion yn parhau i fod o dan bwysau parhaus yn sgil cynnydd yn y galw a gofynion gwasanaeth mwyfwy cymhleth. Er bod y cyflenwad o ofal yng Nghaerdydd wedi gwella'n sylweddol, yn wahanol i lawer o ardaloedd awdurdod lleol eraill, mae natur fregus y farchnad ofal yn dal i fod yn destun pryder yn sgil prinder parhaus o weithwyr gofal. Ac ystyried y pwysau parhaus ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor a'i bartneriaid yn 2023/24.

  Mae nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref a'r galw am lety brys a thros dro wedi cynyddu'n sylweddol, gyda rhestrau aros hir ar draws yr holl byrth i'r digartref. Mae tua 8,000 o bobl bellach ar y rhestr aros am eiddo Cyngor neu Gymdeithas Dai, ac mae'r cyfraddau rhentu yn y sector rhentu preifat ar lefelau digynsail. Mae'r prinder tai ar draws pob daliadaeth yn creu pwysau ar draws llawer o wasanaethau Cyngor, ac mae'r angen i fynd ati'n gyflym i ehangu'r mynediad i dai, drwy adeiladu a sicrhau tai fforddiadwy ychwanegol, yn flaenoriaeth gorfforaethol.


- **Ymateb i risgiau a phroblemau newydd:** Yn ogystal â'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau, mae'r Cyngor, ochr yn ochr â'i bartneriaid, wedi ymateb i nifer o risgiau a materion a oedd yn annisgwyl, ond eto'n sylweddol, yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys yr ymateb i'r argyfwng costau byw, sydd wedi effeithio'n anghymesur ar rai o'r bobl a'r cymunedau mwyaf agored i niwed yn y ddinas, yn ogystal â'r economi ehangach. Daeth dyfodiad yr argyfwng ynni â phwysau enfawr ar gostau a gafodd

effaith ddifrifol ar y gost o gynnal lleoliadau'r Cyngor, ac a greodd oblygiadau i raglen gyfalaf y Cyngor. Yn sgil argyfwng ffoaduriaid Wcrain, bu'n rhaid hefyd mynd ati'n gyflym i drefnu ymateb ar draws meysydd gwasanaeth. Ym mhob achos, cynullodd y Cyngor ymateb effeithiol, a oedd yn aml yn cynnwys gweithio ar draws meysydd gwasanaeth a chydweithio â phartneriaid o wasanaethau cyhoeddus, o'r sector preifat ac o'r trydydd sector. Wrth edrych i'r dyfodol, rhaid i'r Cyngor barhau i ragweld, ar frys ac mewn partneriaeth, risgiau a materion newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac ymateb i'r risgiau a'r materion hynny.

- **Mae pwysau ar y gweithlu bellach yn effeithio ar holl wasanaethau'r Cyngor:** Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi nodi heriau'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff yn y gwasanaethau cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol oedolion. Er bod yr heriau hyn yn bodoli o hyd, mae'r Cyngor bellach yn wynebu heriau o ran y gweithlu sy'n effeithio ar bob cyfarwyddiaeth. Y prif bryderon yw'r gallu i recriwtio a chadw unigolion â sgiliau priodol, gyda'r Cyngor yn wynebu cystadleuaeth gan sectorau eraill wrth ddenu gweithwyr proffesiynol, gan ei gwneud hi'n anodd llenwi swyddi allweddol. Fel sy'n wir yn genedlaethol, mae heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu yn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflenwi gwasanaethau, a hefyd i gyflawni prosiectau allweddol. Mewn ymateb i hyn, mae Strategaeth y Gweithlu 2023-27 newydd y Cyngor yn pennu ymagwedd well er mwyn cynllunio'r gweithlu mewn modd rhagweithiol, sy'n cynnwys gwneud rhagor o waith i ddatblygu amgylchedd gwaith cefnogol, meithrin ymgysylltiad cyflogeion a pharhau i ddatblygu dulliau newydd wedi'u teilwra o recriwtio a chadw pobl mewn meysydd lle ceir bylchau o ran sgiliau a chapasiti.

- **Sicrhau cydnerthedd ariannol parhaus:** Er bod y setliad ariannol ar gyfer 2023/24 yn well na'r disgwyl, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran y gyllideb yn y presennol a'r tymor canolig. Roedd adroddiad Diweddaru'r Gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi bwlch dangosol i'r gyllideb refeniw o £36.8 miliwn ar gyfer 2024/25 a £119.2 miliwn ar draws cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r pwysau hyn yn deillio o gyfuniad o natur fwy cymhleth y gwasanaethau a maint y galw amdanynt (yn enwedig y Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Digartrefedd), pwysau chwyddiant a ysgogir gan gostau'n gysylltiedig â chyflogeion, costau nwyddau a chyfleustodau a brynir gan y Cyngor (fel ynni, bwyd a thanwydd), a chost adeiladu, deunyddiau a gwasanaethau a gomisiynir. Mae pwysau parhaus wrth geisio adennill incwm mewn rhai gwasanaethau yn dilyn y pandemig yn dal i fod yn broblem hefyd. Er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol y Cyngor i'r dyfodol, byddwn yn parhau i arfer dull rhagweithiol o ganfod a gweithredu arbedion. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o gyllidebau'r holl gyfarwyddiaethau a nodi chanfod arbedion effeithlonrwydd sylfaenol ar draws yr holl wasanaethau. Ac ystyried yr amgylchedd economaidd ehangach a nodweddir gan chwyddiant uchel, cyfraddau llog cynyddol a heriau o ran llafur a'r gadwyn gyflenwi, bydd angen ffocws manwl hefyd ar sefyllfa cyfalaf y Cyngor a datblygiad ei raglen tymor canolig a thymor hwy.





# Amcan Llesiant 1:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

### Ein blaenoriaethau yn 2022/23 oedd:

- Cefnogi adferiad sy'n gyfeillgar i blant
- Parhau i wireddu gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu
- Diogelu llesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

## Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr Amcan Llesiant hwn, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd addysg, cyrhaeddiad cyffredinol a gwella ansawdd gofal i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ceir nifer o heriau sy'n bodoli ers tro a heriau newydd sy'n dod i'r amlwg a fydd yn effeithio ar bobl ifanc, ac er mwyn ymateb i'r rhain bydd angen cydymdrech ar ran y Cyngor, cyfundrefn addysg y ddinas a phartneriaid o'r gwasanaethau cyhoeddus.

Bu gwelliant parhaus yn ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau addysg Caerdydd. Mae canlyniadau arolygon yr ysgolion yn gadarnhaol ar y cyfan, ac roedd canlyniadau TGAU ar gyfer 2022 yn uwch na 2019 - y tro diwethaf y cafwyd canlyniadau y gellid cymharu â nhw - gyda'r canlyniadau yng Nghaerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd ar gyfer monitro cynnydd ysgolion wedi'u gwella ac mae'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion yn ymateb i argymhelliad arolygwyr i sicrhau trosolwg strategol o ddatblygiad addysg cyfrwng Cymraeg. Mae rhaglen fuddsoddi'r Cyngor mewn ysgolion yn parhau i gael ei chyflwyno i sicrhau bod dysgwyr yng Nghaerdydd yn elwa ar amgylchedd dysgu o ansawdd uchel a bod ysgolion wedi derbyn cefnogaeth effeithiol drwy roi agenda trawsnewid digidol gynhwysfawr ar waith yn gyflym.

Ceir heriau o hyd, serch hynny. Er bod canlyniadau arolygon yn gadarnhaol ar y cyfan, mae pedair ysgol yn y categori arolygiad dilynol, gydag un ysgol yn y categori gwelliant sylweddol statudol. Mae'n rhaid gwneud mwy i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc o'r newydd mewn addysg yn dilyn pandemig Covid-19, gyda phresenoldeb ysbeidiol a diffyg presenoldeb parhaus yn is na'r targed, ac yn destun pryder sylweddol yn sawl rhan o'r ddinas. Bydd angen i'r Cyngor ac arweinwyr ysgol gydymdrechu i fynd i'r afael â hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.

O fewn yr ysgolion, mae pwysau ar y gyllideb yn parhau, er i gyllid ar gyfer cyllidebau ysgol dirprwyedig gael blaenoriaeth, ac er bod mwy o arian nag erioed wedi'i fuddsoddi yn yr ystâd o ysgolion, mae angen lefelau sylweddol o gyllid cyfalaf o hyd i gynnal amgylcheddau dysgu diogel. Mae'r gostyngiad a ragwelir yn nifer y disgyblion yn destun pryder gwirioneddol ac ystyried bod lleoedd gwag yn creu pwysau sylweddol ar gyllidebau. Mae cost gynyddol trafnidiaeth ysgol yn destun pryder parhaus, tra bo'r twf mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn creu pwysau o ran galw a chostau. Gyda'i gilydd, bydd y pwysau hyn yn creu her sylweddol i wytnwch ariannol cyfundrefn addysg y ddinas, felly bydd hyn yn ffocws corfforaethol ar gyfer 2023/24.

O fewn y Gwasanaethau Plant, gwnaed cynnydd ardderchog wrth gyflawni Strategaeth Llety'r gwasanaethau Plant, gyda sawl eiddo wedi'i brynu, nifer sylweddol o staff wedi'u cyflogi, ac achrediad wedi'i sicrhau gan yr awdurdod rheoleiddio. Mae'r rhain yn ddatblygiadau pwysig o ran sicrhau bod digon o leoliadau ar gael, a chefnogi cyfarwyddeb polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o'r sector gofal. Fodd bynnag, mae cryn her yn bodoli o hyd o ran hyn.

Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i wynebu galw uchel ac achosion mwyfwy cymhleth. Gwelir y pwysau hyn ar y galw drwy gydol taith y plentyn, gan gynnwys gwasanaethau i ymdrin â iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant. Ar yr un pryd, bydd lleoliadau annigonol mewn marchnad llety a chymorth a berchnogir gan ddarparwyr yn bennaf yn parhau i gyfrif am y pwysau mawr o ran costau ac, mewn amgylchiadau eithriadol, am yr angen cynyddol i ddefnyddio lleoliadau anghofrestredig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn wynebu heriau o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol. Er bod gwaith helaeth wedi'i gyflawni i leihau'r pwysau o ran costau yn ystod y flwyddyn, mae hyn wedi golygu gorwariant mawr yn y gyllideb. Gan hynny, bydd cyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Plant, atal galw drwy newid y cydbwysedd gofal, yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol o hyn allan.

Mae meysydd eraill lle bu gwelliant yn cynnwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac er bod angen gwaith pellach, cafodd y cynnydd a wnaed ei gydnabod yn adroddiad arolygu dilynol Awst 2022 gan Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi.

## Dinas sy'n Gyfeillgar i Blant

Rydym gam yn nes i wireddu uchelgais Caerdydd i gael ei chydnabod fel dinas lle mae gan bob plentyn ac unigolyn ifanc gyfle cyfartal i ffynnu a chyflawni ei botensial gam yn nes, ar ôl cwblhau'r cais i ennill statws Dinas Cyfeillgar i Blant UNICEF ym mis Medi 2022. Os bydd y cais yn llwyddiannus, Caerdydd fydd y ddinas gyntaf yn y DU i ennill statws achrededig UNICEF. Dechreuodd cam olaf asesiad UNICEF ym mis Ebrill 2023, a bydd y canlyniad yn cael ei benderfynu erbyn haf 2023.

Mae gwaith wedi parhau drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo hawliau plant drwy ddatblygu'r gweithlu. Yn rhan o'r Ymagwedd Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, mae 70% o ysgolion bellach wedi'u hachredu, sy'n gynnydd o'r 63% a oedd wedi'u hachredu ddiwedd 2021/22. Er bod hyn yn welliant cadarnhaol, nid yw'n cyrraedd y targed o 75% o ysgolion ar gyfer 2022/23. O'r rhai a achredwyd, mae 44 o ysgolion wedi ennill statws Efydd, 31 wedi ennill Arian, ac 14 wedi ennill Aur.

Mae'r Modiwl Ar-lein ar Hawliau Plant wedi cael ei lansio ar gyfer staff y Cyngor, gyda chyfradd gwblhau darged o 85% - yn unol â modiwlau gorfodol eraill. Fodd bynnag, dim ond 63% a oedd wedi cydymffurfio â'r Modiwl Ar-lein ar Hawliau Plant ar ddiwedd 2022/23. I fynd i'r afael â hyn, mae cwblhau hyfforddiant Hawliau Plant wedi cael ei gysylltu ag adolygiad personol pob aelod o staff. Mae'r data a ddarperir i reolwyr hefyd wedi gwella er mwyn targedu cydymffurfiaeth o fewn eu gwasanaethau.

Cyhoeddwyd Arolwg Dinas Cyfeillgar i Blant y Cyngor yn nhymor y gwanwyn 2022, gyda 7,660 o ymatebion (cynnydd o 6,500 yn yr arolwg blaenorol). Mae'r arolwg wedi rhoi cipolwg gwerthfawr o brofiadau plant yng Nghaerdydd, gan draws-ddadansoddi yn ôl nodwedd, gan gynnwys oedran, rhywedd, grŵp lleiafrifol ethnig, rhai sy'n byw yn rhan ddeheuol y ddinas, gofalwyr ifanc, a rhai ag anabledd. Dangosai'r arolwg fod 90% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu 'gwneud eu gorau i ddysgu a gwneud cynnydd yn yr ysgol', a dywedodd 86% o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'u hawliau.



## Cyflawni gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu

Er gwaethaf aflonyddwch y pandemig, mae'r Cyngor wedi dangos cynnydd da wrth gyflawni ei weledigaeth addysg ar gyfer 2030.

Ym mis Mai 2023, cafwyd cydnabyddiaeth gan Estyn o'r arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref mewn addysg yng Nghaerdydd, gan amlygu bod sicrwydd ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau addysg wedi gwella, a nodi bod y trefniadau llywodraethu wrth fonitro ysgolion sy'n destun pryder wedi'u cryfhau. Yn ei asesiad, tynnodd Estyn sylw at sawl cryfder, gan gynnwys y gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol i lefelau is na'r lefelau cyn y pandemig, gwelliant parhaus cyffredinol yn ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, a llwyddiant yr agenda trawsnewid digidol. Yn Adroddiad 2022 Estyn, cydnabu Estyn y lefel uchel o gymorth a ddarparwyd gan y Cyngor i geiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gynnwys y grwpiau mawr o blant a gyrhaeddodd o Affganistan, a gafodd lety a chefnogaeth yng Nghaerdydd cyn cael eu hadleoli i rannau eraill o Gymru.

Cyflwynwyd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2022 ac mae bellach wedi'i gyflwyno i bob ysgol gynradd, gydag ysgolion uwchradd i ddechrau ei gyflwyno o fis Medi 2023 yn raddol fesul cam, hyd at Flwyddyn 11 yn 2026. O ran cyrhaeddiad, gwelodd ysgolion yng Nghaerdydd ddeilliannau da i ddisgyblion ar draws y ddinas. Yn 2022, safodd disgyblion arholiadau TGAU am y tro cyntaf ers 2019. Roedd canlyniadau 2022 yn uwch na 2019, ac roedd canlyniadau Caerdydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, gyda 31.9% o ddisgyblion yn ennill gradd A* neu A.

Yn unol â'r duedd dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y plant sy'n sicrhau lle yn eu dewis cyntaf o ysgol wedi cyrraedd ei tharged ar gyfer derbyniadau ysgol gynradd, sef 99.6%, ac ysgol uwchradd, sef 93.8%.

Ceir strategaeth trawsnewid digidol gynhwysfawr ac uchelgeisiol sy'n uchel ei pharch ymhlith arweinwyr ysgol, ac mae'n symud ymlaen yn gyflym, fel y cydnabuwyd yng ngwaith sicrwydd Estyn. Drwy gydol y flwyddyn, cafwyd gwared â'r holl ddyfeisiau a chyflwyno rhai newydd yn eu lle mewn 35 o ysgolion, gan gyrraedd cymhareb disgybl-i-ddyfais o 1:0.7 ar draws yr holl ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn. Mae prosesau wedi'u sefydlu hefyd i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i fand eang gartref, gyda stoc ganolog o lwybryddion yn barod i gael eu defnyddio lle bo angen.

Mae'r model 'Pasbort i'r Ddinas', sy'n anelu i gynnig cyfleoedd allgwricwlaidd i blant a phobl ifanc ar draws Caerdydd, wedi parhau i wneud cynnydd, gyda 32 o ysgolion a grwpiau ieuenctid wedi ymuno â'r rhaglen yn Chwarter 4, sy'n gynnydd o gymharu â'r 10 ysgol yn Chwarter 2, gyda chyfanswm o 6,300 o gofrestriadau hyd yma.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2019. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021/22, roedd presenoldeb cyffredinol ysgolion cynradd yn 89%, ac ysgolion uwchradd yn 86%, o gymharu â 95% a 94% yn yr un drefn cyn pandemig Covid-19. Gwelwyd hefyd dueddiadau'n dod i'r amlwg o ran absenoldeb parhaus (lle bo presenoldeb yn gostwng yn is na

throthwy o 50%) yn dilyn y pandemig, gydag ysgolion bellach yn monitro'r patrymau hyn yn agos, ac absenoldeb parhaus yn cael ei gyflwyno fel Dangosydd Perfformiad Allweddol corfforaethol o 2021/22. Effeithiodd absenoldeb cyson ar tua 1-4% o ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2021/22, gyda'r duedd yn fwy amlwg mewn ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd.

Gwelwyd bod gwaharddiadau parhaol yn tueddu i gynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf, ers i ysgolion ddechrau gweithredu'n arferol yn dilyn pandemig Covid-19. I raddau helaeth, un o sgil-effeithiau'r pandemig yw hyn, ac effaith cyfnodau clo olynol a arweiniodd at broblemau cymdeithasol, emosiynol a chymunedol gyda phlant a theuluoedd, sydd wedi effeithio ar eu hymddygiad yn yr ysgol. Mae'n destun pryder mai'r achos mwyaf cyffredin wrth wraidd gwaharddiad fu ymosodiad ar ddisgyblion eraill. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 15% mewn gwaharddiadau parhaol yn y flwyddyn academaidd gyfredol hyd yma o gymharu â'r llynedd, ynghyd â gostyngiad o 40% ar gyfer tymor y gwanwyn 2023 o gymharu â thymor y gwanwyn 2022. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol hefyd yn dechrau arafu wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi, sy'n awgrymu bod gwaharddiadau, ar y cyfan, ar y trywydd iawn i ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Roedd gwaharddiadau cyfnod penodol yn destun pryder neilltuol mewn ysgolion uwchradd ym mlwyddyn academaidd 2021/22, lle'r oedd y gyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol bron ddwywaith mor uchel â'r un ffigur cyn y pandemig. Yn debyg i waharddiad parhaol, yr achos mwyaf cyffredin wrth wraidd gwahardd am gyfnod penodol oedd ymosodiad ac ymddygiad treisgar, wedi'i gyfeirio at ddisgyblion a'r staff. Mae gwaith yn parhau yn rhan o'r 'Ymagwedd Ysgol Gyfan at Lesiant Emosiynol a Meddyliol' i gefnogi dysgwyr drwy roi cefnogaeth a chwnsela, a fydd yn cyfrannu at wella cyfraddau gwahardd yn ogystal â phresenoldeb.

Gan alinio â'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, mae'r gyfarwyddiaeth Addysg yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) i sicrhau y bydd y ddarpariaeth ofynnol yn ei lle, tra bod gwaith ar y gweill i drosglwyddo o'r system flaenorol o 'ddatganiadau' i'r Cynlluniau Datblygu unigol newydd. Y nod yw cwblhau'r cyfnod pontio hwn erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyfredol, yn unol â'r amserlenni a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ceir nifer o heriau'n gysylltiedig â bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau i blant ag ADY – yn benodol, y gallu i ragweld a chynllunio am y galw yn ardaloedd cywir y ddinas. Yn 2022/23, gosododd y Cyngor darged o sicrhau 290 o leoedd ADY, er iddo ond llwyddo i ddarparu 250. Mae sgil-effeithiau capasiti annigonol yn cynnwys cynnydd mewn costau darpariaeth allsirol, a chynnydd mewn costau trafnidiaeth ysgol. Wrth symud ymlaen, y flaenoriaeth gyntaf yw sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu yn y mannau cywir, gan ymestyn darpariaeth i ddechrau ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion a chanolfannau adnodd arbenigol eraill o amgylch y ddinas.

Mae recriwtio, cadw ac absenoldeb staff yn parhau i achosi heriau i ysgolion, yn enwedig wrth recriwtio staff arlwyo, athrawon Cymraeg eu hiaith a rolau o fewn addysg arbenigol. Mae ysgolion wedi cael cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg i ôl-lenwi swyddi gwag addysgu a swyddi gwag eraill. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi galluogi'r Cyngor i recriwtio Swyddogion Lles Addysg a Swyddogion Presenoldeb Ysgol dros dro a fydd yn dechrau ar eu gwaith yn haf 2023, gan gynyddu'r capasiti i

gynnal ymgyrch ‘Nôl ar y Trywydd Iawn’ y Cyngor ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol.

Er y bu rhywfaint o oedi wrth gyflwyno rhaglen ysgolion Band B drwy’r pandemig, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo, gyda nifer o brosiectau wedi’u datblygu’n dda ac/neu ar-safle ac eraill wedi’u cynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bwriedir ymgynghori ar y Strategaeth Cynllunio a Buddsoddi Trefniadaeth Ysgolion newydd yn haf 2023. Yn rhan o’r ymgynghoriad uchod, bydd y Cyngor yn gofyn am farn ynghylch ystod o feysydd allweddol, gan gynnwys Ysgolion Bro. Mae’r gwaith o ddarparu ysgolion y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyntaf hefyd wedi dechrau, gyda dwy ysgol gynradd i ddechrau gweithredu yn eu hadeiladau newydd o fis Medi 2023. Mae gwaith hefyd yn cael ei gyflawni ar gynlluniau a rhagolygon hirdymor hyd at 2026 mewn ymateb i’r pwysau a geir yn sgil chwyddiant ar y rhaglen gyfalaf addysg. Oherwydd yr effaith bosibl, caiff y broblem hon ei chofnodi a’i monitro drwy Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor. Her sy’n dod i’r amlwg, ac a amlygwyd yng Nghyfrifiad Cenedlaethol 2021, yw’r gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau geni yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn creu goblygiadau o ran cynllunio a chyllid ysgolion.

Mae swm sylweddol o waith wedi’i gyflawni drwy gydol y flwyddyn i gynnal a gwella’r ystâd ysgolion, gan gynnwys rhaglen gwerth £25 miliwn ar waith i wella cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd yr ystâd. Mae gwelliannau pellach ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys yr Uned Blynyddoedd Cynnar yn Ysgol Gynradd Moorlands, opsiynau i ddatblygu ysgolion cynradd yn Cathays, a chreu lleoedd uwchradd ychwanegol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Ysgol Gyfun Radur, Ysgol Teilo Sant, Ysgol Sant Illtyd, Corpus Christi a Mair Ddihalog. Gan symud i mewn i 2023/24, budd maint y gwariant i adnewyddu asedau mewn ysgolion yn parhau i gael ei fonitro’n gorfforaethol fel Dangosydd Perfformiad Allweddol, gyda tharged o £22 miliwn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, sy’n uwch na tharged eleni o £20 miliwn. Y prif her o ran hyn yw rheoli’r cydbwysedd rhwng buddsoddi cyfalaf mewn adeiladau newydd ac atgyweirio adeiladau presennol - ar rai safleoedd mae’r seilwaith yn heneiddio ac mae angen gwario cyllid ar atgyweiriadau hanfodol a brys

Mae ysgolion hefyd ar ganol addasu i fodloni gofynion capasiti’r Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb ar gyfer plant ysgol gynradd. Yn unol â’r graddfeydd amser targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb yn cael ei ehangu i gynnwys disgyblion Blwyddyn 2 o fis Mehefin 2023 ymlaen, ac i gynnwys disgyblion Blwyddyn 3 a 4 o fis Medi 2023 ymlaen. Mae rhaglen sylweddol o waith a ariennir drwy gyfalaf yn cael ei chyflawni i gefnogi’r newid hwn, gan gynnwys addasu ysgolion i gynyddu’r capasiti ar gyfer bwyd a ddarperir yn yr ysgol. Fel y soniwyd uchod, mae recriwtio staff arlwyo er mwyn helpu i ehangu’r cynllun hwn yn parhau i fod yn her.

Er gwaethaf y gwelliant yn sefyllfa ariannol Addysg, ceir pwysau o hyd mewn rhai meysydd, gan gynnwys costau dyfarniadau cyflog, trafnidiaeth o’r cartref i’r ysgol, arlwyo a lleoliadau allsirol. O ran trafnidiaeth o’r cartref i’r ysgol, y prif ffactorau sy’n cyfrannu at y pwysau yw costau cynyddol tanwydd a’r cyflenwad o yrwyr, ynghyd â’r cynnydd yn nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd angen trafnidiaeth. Ceir cryn bwysau hefyd o ran lleoliadau allsirol a gwasanaethau arlwyo ysgolion, gyda’r cynnydd ym mhris bwyd a chludiant yn effeithio ar yr olaf, ynghyd â’r gostyngiad mewn incwm o brydau ysgol y telir amdanynt.

## Diogelu llesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed

Mae'r Gwasanaethau Plant yn symud i mewn i 2023/24 gyda chyfres o strategaethau diwygiedig a chyflenwol, pob un yn gyson â Strategaeth Anelu at Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Plant 2023-26. Mae'r strategaethau a'r fframweithiau ategol yn trafod meysydd sy'n cynnwys y gweithlu, llety, comisiynu, perfformiad, rhianta corfforaethol, trawma, anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyfiawnder ieuenctid. Y tri phrif faes ffocws sy'n sail i'r strategaethau hyn yw: lle, sicrhau bod cefnogaeth ar gael yn y gymuned; pobl, datblygu'r gweithlu parhaol; ac arfer, sefydlu polisïau a gweithdrefnau allweddol i hyrwyddo dysgu a gwelliant parhaus.

Mae'r meysydd llwyddo ar gyfer y Gwasanaethau Plant yn cynnwys datblygiad a gweithrediad parhaus nifer o strategaethau, gan gynnwys y Strategaeth Llety, y Strategaeth Rhianta Corfforaethol, a'r Strategaeth Recriwtio a Chadw. Dros y flwyddyn nodweddwyd datblygiadau o fewn y gwasanaeth gan gynllunio strategol ar traws-wasanaeth, aml-ddisgyblaeth a hirdymor.

Roedd model 'Y Lle Cywir' ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sydd ar ffiniau gofal yn ffocws yn ystod y flwyddyn. Er mwyn cyflawni'r model, mae nifer o safleoedd wedi'u nodi ar draws Caerdydd, gan gynnwys prif hyb, safle ar gyfer darpariaeth frys, a safle i ddatblygu sgiliau er mwyn rhoi cefnogaeth i bobl ifanc fyw'n annibynnol. Er y bu rhywfaint o oedi wrth weithredu, mae'r gwaith yn parhau i bennu'r opsiynau gorau o ran adnoddau a'r mathau o rolau sydd eu hangen i gefnogi'r model. Mae gwaith adolygu helaeth hefyd wedi'i gyflawni gan yr Hyb Adolygu, sydd wedi adolygu dros 850 o blant. Cafodd dros 200 o blant eu gostwng i lefel is o ymyrraeth, tra bo'r Tîm Ailuno yn gweithio i asesu ac ailuno plant sy'n derbyn gofal â'u teuluoedd lle bo hynny'n ddiogel I gefnogi'r ymagwedd hon, bu'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn gweithio i hyrwyddo a gwella safonau ymarfer ar draws Gwasanaethau Plant.

Mae ymagwedd integredig at gymorth emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc wedi cael ei datblygu ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mewn partneriaeth â BIP Caerdydd a'r Fro. Mae'r cynnydd a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys darparu hyfforddiant arbenigol ar ofid emosiynol i staff y bartneriaeth, a datblygu manyleb ar gyfer llety i gynnig lleoliadau addas i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth emosiynol ac iechyd meddwl. Mae ymgyrchoedd recriwtio hefyd wedi'u cynnal i benodi seicolegwyr arbenigol i gefnogi plant a theuluoedd drwy wasanaethau Cymorth Cynnar. O dan arweiniad Cymorth Cynnar, mae gwaith hefyd wedi parhau i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod drwy ddatblygu hyfforddiant a fideo arweiniol Sgyrsiau Meddwl Gyda'n Gilydd i ymarferwyr, a gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector i sicrhau bod llwybrau cyfeirio clir i ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol.

Yr her fwyaf a brofwyd yn ystod y flwyddyn oedd prinder lleoedd i blant sy'n derbyn gofal, gan arwain at orwariant o £6.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae prinder y cyflenwad lleol wedi arwain at leoedd drytach ymhellach i ffwrdd, a lleoedd anghofrestredig. Yn Chwarter 4, canran y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoedd rheoledig yng Nghaerdydd oedd 56%, ychydig yn is na'r targed o 60%, a'r nifer mewn lleoedd rheoledig o fewn radiws 20 milltir i Gaerdydd oedd 76%, ychydig yn is na'r targed o 80%. Nid oes gan leoedd anghofrestredig drefniadau goruchwylio cryfach, ac maent yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016. Er hynny, mae'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn gweithio'n agos

gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i gefnogi'r broses o gofrestru'r cartrefi hyn. Mae'r pwysau ar ddarpariaeth lleoliadau wedi cael ei ysgogi gan newidiadau yn y farchnad a'i waethygu gan gymhlethdod yn llwyth achosion y Gwasanaethau Plant, sydd wedi golygu mwy o leoliadau cost uchel. Ffactor arall sy'n cyfrannu at yr her o ran lleoliadau yw agenda Llywodraeth Cymru i ddileu elw o'r sector gofal. Mae hyn wedi achosi i rai darparwyr dynnu'n ôl o'r farchnad, gan grebachu'r cyflenwad, a chynyddu costau. Yng Nghaerdydd hefyd y mae'r nifer fwyaf o Asiantaethau Maethu Annibynnol Cymru, sy'n golygu ei bod hi'n fwy anodd denu gofalwyr maeth yr awdurdod lleol - er bod gwelliannau wedi'u sicrhau yn y maes hwn. Er bod hyn yn dal i fod yn is na'r targed, yn Chwarter 4 roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth awdurdod lleol yn dal yn uchel ar 129 (yn erbyn targed o 150), a nifer y plant sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth allanol wedi gostwng i 308. Mae'n bwysig nodi y bydd yr angen am y ddau fath o ddarpariaeth yn parhau, ond mae hyn yn dangos newid oddi wrth y ddibyniaeth fu yn y gorffennol ar ofalwyr maeth allanol. Fodd bynnag, os bydd y duedd hon yn parhau, gallai'r gostyngiad mewn gofalwyr maeth allanol fod yn arwydd o'r cynnydd yn y ddibyniaeth ar leoliadau preswyl. Er ei bod hi'n her canfod digon o leoliadau o hyd yn 2023/24, mae'r Strategaeth Llety a Model y Lle Cywir yn gydrannau pwysig yn ymagwedd y Gwasanaethau Plant i addasu i'r pwysau ar leoliadau o hyn allan.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi wynebu heriau parhaus o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. Mae hyn yn broblem genedlaethol sy'n effeithio ar awdurdodau lleol ar draws y wlad. Yn Chwarter 4, roedd 27% o swyddi gwaith cymdeithasol parhaol wedi'u llenwi gan staff asiantaeth yn y Gwasanaethau Plant, gan fethu'r targed o 18% ac yn cynrychioli cynnydd o 3% o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol (24%). Mewn ymateb i hyn, rydym wedi cytuno ar Strategaeth Recriwtio a Chadw a Chynllun Gweithredu'r Gweithlu. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynlluniau i ddenu mwy o weithwyr cymdeithasol i Gaerdydd drwy allgymorth ac ymgysylltu, proses sefydlu glir ar gyfer dechreuwyr newydd, a hyrwyddo'r cynnig am hyfforddiant, mentora a chefnogaeth gan arweinwyr ymarfer. Nod y Cyngor yw dod â myfyrwyr gwaith cymdeithasol i mewn ar leoliadau, a chefnogi unigolion i gwblhau eu graddau gwaith cymdeithasol, gan ffurfio cytundebau ar yr un pryd ag asiantaethau recriwtio, i gymell staff asiantaeth i ymuno â'r gweithlu'n barhaol.

Pan gynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi (APEF) arolygiad o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) Caerdydd yn 2020 , canfu fod y gwasanaeth yn 'Annigonol', gan roi'r sgôr arolygu isaf posibl i'r gwasanaeth (0 o 36). Dros y ddwy flynedd yn dilyn hynny mae'r gwasanaeth wedi arwain rhaglen ddiwygio a gwella helaeth, gyda chefnogaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd. Mae canlyniad y gwaith gwella i'w weld yn glir yn nangosyddion perfformiad y maes gwasanaeth, gan gynnwys gostyngiad yn y gyfradd aildroseddu (ar hyn o bryd yn 13% yn erbyn targed o 40%) a'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael eu derbyn am y tro cyntaf i'r System Cyfiawnder Troseddol (11 yn erbyn targed o 18). Hefyd, roedd adroddiad arolygu APEF o fis Awst 2022 yn canmol y gwelliannau a gafwyd a'r cynnydd yr oedd y gwasanaeth wedi'i wneud ers arolygiad 2020. Er y nodwyd meysydd pellach i'w gwella yn argymhellion yr adroddiad, rhoddwyd sgôr 'Da' ar gyfer rhai meysydd gwaith penodol, gan gynnwys cynllunio, gweithredu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys, a'r polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu.

---

[1] Adroddiad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid APEF 2020:

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghaerdydd (justiceinspectorates.gov.uk)


[2] Adroddiad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid APEF 2022:

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghaerdydd (justiceinspectorates.gov.uk)

# Amcan Llesiant 2:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

### Ein blaenoriaethau yn 2022/23 oedd:

- Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas oed-gyfeillgar
- Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel
- Cefnogi gofalwyr anffurfiol a gwerthfawrogi eu rôl
- Sicrhau bod ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y rhai mwyaf agored i niwed
- Mynd ati'n rhagweithiol i foderneiddio ein gwasanaethau



## Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr Amcan Llesiant hwn yng nghyd-destun darlun cenedlaethol lle mae'r sector gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau difrifol a pharhaus oherwydd galw cynyddol, gofynion mwyfwy cymhleth o ran gwasanaethau a phrinder staff medrus.

Mae'r cyflenwad o ofal yng Nghaerdydd wedi gwella'n sylweddol, yn wahanol i lawer o ardaloedd awdurdod lleol eraill. Fodd bynnag, mae natur fregus y farchnad ofal yn dal i fod yn destun pryder yn sgil prinder parhaus o weithwyr gofal.  Er bod cynnydd da wedi'i wneud i gynyddu cydnerthedd o fewn y gwasanaeth, drwy fentrau arloesol fel Academi Gofalwyr Caerdydd, mae'r gallu i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn dal i fod yn broblem sylweddol, yn ogystal â'r lefelau uchel o salwch ymhlith y staff sydd wedi achosi i asesiadau ôl-gronni. Mae angen ffocws o'r newydd yn y farchnad ofal ar ddarparu gwasanaethau i rai â lefelau uwch o anghenion gofal, ac i fynd i'r afael â natur fwyfwy cymhleth anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Gyda'i gilydd, mae'r problemau hyn yn dal i roi pwysau difrifol ar system gofal cymdeithasol sydd eisoes wedi'i hymestyn.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi parhau i weithio mewn partneriaeth agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r sector gofal i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref gyhyd ag y bo modd, ac i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty cyn gynted ag y bo hynny'n ddiogel.  Ac ystyried y pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor a'i bartneriaid drwy gydol 2023/24 a thu hwnt.

## Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas oed-gyfeillgar

Mae unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant pobl hŷn, a dyna pam bod galluogi pobl hŷn i gysylltu'n ddigidol ac i barhau i fod yn weithgar yn y gymuned yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Ym mis Mehefin 2022, derbyniwyd Caerdydd i Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar. Mewn ymgynghoriad ag aelodau hŷn y gymuned, mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu - gyda'r uchelgais cyffredinol o wneud Caerdydd yn Ddinas Oed-gyfeillgar - sy'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau i bobl hŷn ar faterion fel tai, trafnidiaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau a werthfawrogir.

Mae'r Rhaglen Gwirfoddolwyr Cyfeillgar i Ddementia, a lansiwyd ar Ddiwrnod Alzheimer y Byd, yn recriwtio ac yn hyfforddi Llysgenhadon Cyfeillgar i Ddementia er mwyn helpu siopau, busnesau a sefydliadau lleol i weithio tuag at fod yn Gyfeillgar i Ddementia. Er gwaethaf y dechreuad araf i'r flwyddyn, gwelwyd cynnydd yn Chwarter 4, gyda 64 o fusnesau'n llofnodi'r Addewid Cyfeillgar i Ddementia, yn erbyn targed o 40. Yn ogystal â hyn, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael, cynhaliwyd 2,616 o ddigwyddiadau Dinas Cyfeillgar i Ddementia drwy gydol y flwyddyn, yn erbyn targed o 600. Mae canran y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant Cyfeillgar i Ddementia yn parhau i fod yn isel, gydag ond 54% o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant, yn erbyn targed o 85%. Wrth symud ymlaen, bydd cwblhau'r hyfforddiant yn dod yn orfodol ac yn gysylltiedig ag adolygiadau perfformiad staff.

Mae agweddau eraill lle gwelwyd cynnydd yn cynnwys ehangu rhaglen weithgareddau Hyb Gofal y ddinas (y Ganolfan Ddydd), yn ogystal ag ehangu darpariaeth gweithgareddau i oedrannau penodol o fewn Hybiau Cymunedol. Mae Hyb Rhiwbeina wedi cael ei lansio'n swyddogol fel cyfleuster cymunedol sy'n addas i'r diben, yn ogystal â Hyb Llesiant ym Maelfa. Yn ystod y flwyddyn, mae prosiectau i bontio'r cenedlaethau hefyd wedi parhau i gael eu cynnal ar draws Cartrefi Gofal gyda phobl ifanc - sy'n ymgysylltu â'r Cyngor drwy'r gwasanaethau I Mewn i Waith - yn rhoi hyfforddiant digidol un wrth un i bobl hŷn.

## Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref yn gwella eu hymdeimlad o lesiant a hefyd yn lleihau pwysau ar y pwrs cyhoeddus. Mae gwasanaethau ataliol y Cyngor yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw gartref yn hirach, ac yn 2022/23, adroddodd 96% o gleientiaid Gwasanaeth Byw'n Annibynnol y Cyngor eu bod yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi ar ôl derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth hwnnw. Yn ogystal â hynny, cafodd Ask Sara, cyfleuster hunangymorth ar-lein i ddinasyddion, gofalwyr a darparwyr, ei lansio'n llwyddiannus ym mis Mai 2022, er mwyn helpu i ganfod atebion angenrheidiol i gefnogi annibyniaeth.

Mae'r tîm Therapi Galwedigaethol Cymunedol yn cynnig cymorth ymarferol er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag y bo modd drwy becynnau cymorth "o'r maint cywir". Mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio ar ddatblygu model Asesydd Dibynadwy, cydweithrediad rhwng Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol, fel bo modd i Therapyddion Galwedigaethol gwblhau cynlluniau gofal. Yn dilyn anawsterau wrth recriwtio Therapyddion Galwedigaethol, bu newid tuag at recriwtio staff

heb gymhwyso yn llwyddiannus, gyda'r gwasanaeth bellach yn cyflwyno cynigion i ddatblygu ei staff cymwysedig ei hun, gan gynnig llwybr gyrfa i ofalwyr a chynorthwywyr Therapi Galwedigaethol.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC), partneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd a BIP Caerdydd a'r Fro, yn ystod Chwarter 1 o 2022/23, gan roi sicrwydd bod goruchwyliaeth o'r gwasanaeth wedi'i rheoli'n dda, ac o gydymffurfio â gofynion rheoleiddio. Oherwydd heriau wrth recriwtio ac absenoldeb salwch, roedd nifer y bobl a fanteisiodd ar gymorth gan y tîm adnoddau cymunedol (1,493 yn erbyn targed o 2,000) a chyfanswm yr oriau o gymorth a ddarparwyd gan y TAC (35,147 o oriau yn erbyn targed o 50,000) yn is na'r targedau. Mae hyn hefyd yn deillio'n rhannol o'r llwybrau gofal newydd sy'n cael eu cyflwyno a nifer yr atgyfeiriadau i ward sy'n cael eu derbyn drwy'r Hyb Rhyddhau Integredig.

Ceir tystiolaeth o waith da hefyd yn gysylltiedig â darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Ni chynhelir y prawf modd ar gyfer addasiadau cymwys mwyach, gan ostwng yn sylweddol yr amser cyfartalog y mae'n rhaid i ymgeiswyr ddisgwyl i gael cymeradwyaeth. Yr amser aros cyfartalog ym mis Mawrth 2023 oedd 12 wythnos, o gymharu ag 19 o wythnosau ym mis Mawrth 2020.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu ac uwchsgilio'r tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC); fodd bynnag, mae galw uchel, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf, wedi amharu ar gynnydd. Mae canran yr achosion newydd yr ymdriniwyd â nhw'n uniongyrchol yn y PCC heb gyfeirio ymlaen i'r Gwasanaethau Oedolion hefyd yn is na'r blynyddoedd cynt, ac yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn (63% yn erbyn targed o 75%). Fodd bynnag, mae dull y tîm Cyswllt Cymunedol PCC a'r tîm Gwaith Cymdeithasol PCC o reoli'r broses asesu wedi newid, ac oherwydd hynny ni ellir cymharu'n uniongyrchol â ffigurau'r llynedd. Caiff y dangosydd perfformiad a'r targed eu diwygio ar gyfer 2023/24.

### Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

Ym mis Awst 2022, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau gofal cartref y Cyngor. Amlygai'r adroddiad fod pobl yn ymddangos fel pe baent y fodlon â'r gwasanaeth a dderbynnir, a bod eu hanghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol wedi'u cydnabod a'u cefnogi. Canfu'r arolygiad fod gwasanaethau'n dangos ymrwymiad i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'w defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd yr Arolygydd hefyd fod y rhyngweithio rhwng pobl a staff yn gynnes a chadarnhaol, gan gydnabod bod y staff yn gyfarwydd ag anghenion a hoffterau'r unigolion y maent yn eu cefnogi.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu Timau Amlddisgyblaeth lleol sy'n atal derbyniadau i'r ysbyty ac yn hwyluso'r broses o ryddhau o'r ysbyty. Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol bellach yn rhan o'r Timau Amlddisgyblaeth sy'n gwasanaethu De Orllewin, Gogledd, De Ddwyrain a Dwyrain Caerdydd. Mae swyddog ymweld yn mynd i'r holl Dimau Amlddisgyblaeth hyn ac yn cefnogi anghenion anfeddygol cleifion. Yn ogystal â hynny, mae ffrwd gwaith gofal canolraddol wedi cael ei sefydlu o dan y rhaglen @home i ehangu a darparu Timau Amlddisgyblaeth clwstwr ychwanegol. Er y cynnydd da a gafwyd ar ddechrau'r flwyddyn, mae cynigion i ddatblygu hyb ardal Tîm Amlddisgyblaeth yng Ngogledd Orllewin Caerdydd ar stop ar hyn o

bryd, yn dilyn difrod llifogydd sylweddol yn y lleoliad a gynlluniwyd yn ystod Chwarter 3. Mae'r galw cynyddol a achoswyd gan bwysau'r gaeaf, a'r angen i ganolbwyntio ar ryddhau o'r ysbyty, hefyd wedi amharu ar gyflawniad, gan olygu y bydd angen bwrw ymlaen â'r peilot yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Mae'r Hyb Rhyddhau Integredig (HRhI) newydd, gyda Thîm Amlddisgyblaeth yn yr ysbyty, bellach yn weithredol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac yn canolbwyntio ar alluogi rhyddhau dinasyddion yn ddiogel ac amserol i leoliadau yn y gymuned. Rhoddwyd llwybr 'Rhyddhau i Ailasesu' newydd ar waith ym mis Tachwedd 2022 sydd wedi helpu 51 o gleifion i adael yr ysbyty gyda gofal cartref, gan bennu pecyn gofal o'r maint cywir i 38. Yr amser cyfartalog o frysbennu i RhiA yw 72 awr, ac mae hyn wedi sicrhau gostyngiad o 13 diwrnod o leiaf i hyd arosiadau. Mae dau adolygiad partneriaeth wedi cael eu cynnal o broses frysbennu'r HRhI, ac wrth symud ymlaen, mae gwelliannau pellach wedi'u nodi er mwyn gwella canlyniadau i gleifion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pa mor gymhleth yw'r broses o ryddhau o'r ysbyty, ac mae adroddiadau ar oedi wrth drosglwyddo gofal wedi'u gohirio'n genedlaethol tra bo dangosyddion newydd yn cael eu datblygu. Gan hynny, mae'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer 2022/23 yn brin ar y cyfan. Cafwyd cynnydd da yn lleol wrth fonitro trefniadau i ryddhau o'r ysbyty yn fanwl; nid oes unrhyw oedi sylweddol gan fod pobl yn disgwyl am ofal. Ar gyfartaledd, hwylusir y broses o ryddhau rhwng 40 a 50 o bobl gyda gofal bob wythnos. Mae set o ddangosyddion perfformiad yr HRhI sy'n manylu ar y llwybr, yr amser yn brysbennu, yr amser i ryddhau a chanlyniadau yn cael eu datblygu gyda TG ac arweinwyr Gofal yn Gyntaf i fesur llwyddiant y llwybrau allan o'r ysbyty.

Mae Caerdydd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cenedlaethol ar y posibilrwydd o ddatblygu micro-fentrau ar gyfer rolau Cynorthwyydd Personol, a fyddai o gymorth i gynyddu capasiti gofal yn y ddinas. Yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o opsiynau, ffurfiodd y Cyngor bartneriaeth â Community Catalysts CIC i ddatblygu rhwydwaith o ficro-fentrau yng Nghaerdydd. Bydd y prosiect yn creu mwy o ddewis a phersonoli lefel y gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac yn cynnig amodau gwaith gwell i rai sy'n darparu gofal a chymorth.

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, daeth peilot o'r model "Partner Dibynadwy" - sy'n galluogi darparwyr a gomisiynir i addasu gofal i fodloni anghenion yr unigolyn - yn weithredol ar draws y sector gofal. Mae trefniadau cytundebol mwy soffistigedig yn cael eu rhoi ar waith sy'n caniatáu dull mwy graddedig o reoli gofal yn seiliedig ar farn darparwyr, er bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gost-effeithiolrwydd a hyblygrwydd.


Mae'r her o ran y gweithlu o fewn y sector yng Nghymru yn cael ei gwaethygu gan yr angen i bob aelod staff gofal cartref a chartref gofal gofrestru'n ffurfiol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Erys pryderon y gallai hyn effeithio ar y gallu i recriwtio a chadw gweithwyr o fewn sector sydd eisoes yn wynebu heriau difrifol o ran y gweithlu. I liniaru'r risg hon, mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa da, gan weithio gyda darparwyr i dyfu'r gweithlu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal yng Nghaerdydd. Mae Academi Gofalwyr Caerdydd yn parhau i dyfu ac esblygu, gan sefydlu mesurau ychwanegol er mwyn helpu i recriwtio gofalwyr. Bu'r cynnydd yn galonogol, gan arwain at ganlyniadau swydd da i rai a gymerodd ran yn y cynllun.

## Tai i bobl hŷn

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu tai modern, addas i'r diben i bobl hŷn sy'n eu helpu i fyw'n annibynnol. Mae datblygiad Addison House, a fydd yn darparu 44 o fflatiau parod-am-ofal yn Nhredelerch, yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir iddo agor ym mis Tachwedd 2023. Ym mis Mawrth 2023, ymrwymwyd i gontract i ddatblygu 44 o fflatiau i bobl hŷn ar Stryd Bute. Yn ogystal â hynny, mae contractwr wedi cael ei ddewis i ddatblygu 35 o fflatiau i bobl hŷn ar safle Neuadd Gymuned Treganna. Rhagwelir y bydd y gwaith hwnnw'n cychwyn yn ystod Chwarter 1 o 2023/24.

Mae'r farchnad adeiladu yn parhau achosi heriau, gyda phrinder cyflenwadau a'r cynnydd ym mhrisiau deunyddiau yn chwyddo costau ac yn achosi oedi. Er enghraifft, effeithiwyd ar gynnydd gwaith i ddatblygu 101 o fflatiau parod-am-ofal ym Maelfa a Llaneirwg wedi i'r contractwr a benodwyd fynd i'r wal. Mae opsiynau eraill o dan ystyriaeth i sicrhau bod gwaith yn ailgychwyn ar y safleoedd.





# Amcan Llesiant 3: Cefnogi pobl allan o dlodi

## Ein blaenoriaethau yn 2022/23 oedd:

- Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant
- Parhau â'n huchelgais fel Dinas Cyflog Byw
- Ymwreiddio ein dull newydd o ymdrin â digartrefedd a rhoi terfyn ar gysgu allan

## Asesiad Strategol

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o aelwydydd, wrth i bwysau chwyddiant godi prisiau llawer o nwyddau sydd eu hangen o ddydd i ddydd. Yn ystod 2022/23, cafodd 5.989 o gwsmeriaid gymorth ariannol yn gysylltiedig â Covid a Chredyd Cynhwysol, bron yn ddwbl union y nifer a ddisgwyliwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Gan ddod mor fuan ar ôl pandemig Covid-19, mae'r argyfwng wedi lluosogi'r pwysau o flaen llawer o bobl, a dyfnhau anghydraddoldeb a fodolai eisoes.

Mewn ymateb i hyn, aeth y Cyngor ati i lunio rhaglen o gamau gweithredu i gefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr argyfwng.  Roedd hyn yn cynnwys rhaglen cyngor a chymorth estynedig i ddinasyddion, ac ymgyrch gyfathrebu ac ymgysylltu i gefnogi hynny. Er y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw, mae Gwasanaethau Cynghori a Gwasanaethau I Mewn I Waith y Cyngor yn dal i gael eu darparu'n effeithiol, gan helpu dinasyddion i fanteisio ar gyllid, cyngor a llwybrau i gyflogaeth a hyfforddiant  Erys pryderon o hyd, fodd bynnag, ynghylch maint y galw a'r heriau o flaen unigolion ac aelwydydd, a'r effaith barhaus y gallai hyn ei chael dryw ddyfnhau'r anghydraddoldeb sylweddol sy'n bodoli eisoes yn y ddinas.

Mae nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd yn parhau i fod yn llawer is na'r sefyllfa cyn y pandemig, gyda'r dull ataliol aml-asiantaeth o helpu pobl oddi ar y stryd ac i mewn i gartref cynaliadwy yn parhau i gael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref a'r galw am lety brys a thros dro wedi cynyddu'n sylweddol, gyda rhestrau aros hir ar draws yr holl byrth i'r digartref. Oherwydd yr heriau o ran y galw, bu'n rhaid defnyddio gwestai i deuluoedd er mwyn darparu llety dros dro i rai mewn perygl o fod yn ddigartref; mae dros 100 o deuluoedd wedi'u cartrefu mewn gwestai ar hyn o bryd. Mae tua 8,000 o bobl bellach ar y rhestr aros am eiddo Cyngor neu Gymdeithas Dai, ac mae'r gyfradd rhentu yn y sector rhentu preifat ar lefelau digynsail. Mae'r prinder tai ar bob daliadaeth yn achosi pwysau mawr ar draws llawer o wasanaethau Cyngor, ac mae'r angen i ehangu mynediad at dai yn gyflym yn flaenoriaeth gorfforaethol (gweler Amcan 4).

## Ymateb i'r argyfwng costau byw

Ymrwymodd y Cyngor i gefnogi aelwydydd yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen estynedig o gyngor a chymorth, ac er i'r rhaglen gael ei darparu'n effeithiol, profodd yr holl wasanaethau cymorth lefelau digynsail yn y galw. Canfuwyd oddeutu £21m o fudd-dal wythnosol ychwanegol i gleientiaid y Tîm Cyngor Ariannol yn ystod y flwyddyn, a oedd yn llawer uwch na'r targed o £14.5m. Yn yr un modd, cafodd dros 1,440 o denantiaethau eu hachub drwy'r llwybr ôl-ddyledion rheng - cynllun cymorth sydd ar gael i bob tenant waeth beth fo'i denantiaeth neu natur ei incwm. Darparodd yr Hybiau a'r llyfrgelloedd fannau croeso cynnes o fis Hydref, gan helpu bron 12,000 o bobl dros fisoedd y gaeaf. Cynigiodd y Gwasanaethau Ieuenctid hefyd fan cynnes gyda bwyd a diod poeth i bobl ifanc mewn saith canolfan a phebyll dros dro dros y misoedd oerach. Drwy'r Cynllun Cymorth Dewisol Costau Byw, a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, cafodd 15,388 o bobl gymorth i dderbyn taliadau gwerth dros £2.1m.

Er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r argyfwng costau byw, sefydlwyd tasgu i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt, a chynhaliwyd ymgyrch cyhoeddusrwydd eang i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael gan osod gorsafoedd gwybodaeth costau byw dynodedig ym mhob Hyb ar draws y ddinas.

Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynlluniau cymorth ariannol newydd yn cael eu dylunio drwy broses ymgynghorol. Wrth i'r galw barhau i gynyddu, bydd Gwasanaethau Cynghori yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gefnogi'r holl drigolion sydd angen cymorth a bydd ceisiadau am gyllid allanol yn parhau i gael eu gwneud pan fydd ar gael. Bydd tenantiaid cyngor a gafodd gymorth drwy'r Cynllun Cymorth Dewisol Costau Byw yn cael cynnig cymorth pellach, os oes angen, cyn gaeaf 2023 i sicrhau nad oes perygl iddynt fynd yn ôl i ddyled. Bydd y llwybr ôl-ddyledion rhent yn parhau i gael ei hyrwyddo, gan ddefnyddio'r cymorth ariannol mwyaf priodol i atal digartrefedd.

## Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gefnogi preswylwyr i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant. Mae 4,227 o swyddi Cyngor wedi cael eu llenwi drwy leoliadau o Gaerdydd ar Waith, asiantaeth recriwtio fewnol y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig nifer o gyfleoedd i brentisiaid a hyfforddeion mewn ystod o wasanaethau - cafodd 173 o leoliadau eu cynnal yn ystod 2022/23 a chafodd 65 o leoliadau newydd eu creu. Mae nifer y lleoliadau newydd a gafodd eu creu i brentisiaid a hyfforddeion yn is na'r disgwyl oherwydd heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ar draws y Cyngor. Golygodd hyn fod angen cyfyngu ar y swyddi a oedd yn cael eu creu a'u hysbysebu.

Cafodd 77,102 o bobl gyngor i mewn i waith drwy'r Porth Cyflogaeth, sy'n uwch na'r targed o 51,000. Yn ogystal â hynny, cafodd o leiaf 1,115 o gleientiaid gymorth i mewn i gyflogaeth ar ôl derbyn cymorth wedi'i deilwra drwy'r Porth. Mae 347 o gyflogwyr wedi cael cymorth gan y tîm I Mewn i Waith sydd unwaith eto'n uwch na'r targed o 275 a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Clwb Gwaith wedi ehangu ei ddarpariaeth drwy gynnal sesiynau ychwanegol yn RISE (gwasanaeth cymorth arbenigol y Cyngor ar gyfer dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol), Canolfannau Gwaith, Pafiliwn Grange a Chanolfan Groeso Wcrain. Mae rhaglenni i mewn i waith wedi'u teilwra hefyd wedi cael eu cyflwyno i grwpiau penodol, fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a phobl ifanc sydd wedi profi gofal.

Mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, cyflwynodd y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith raglen sylweddol o ddigwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu, gan dargedu cymunedau lleiafrifol ethnig Caerdydd yn arbennig. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau fel y Digwyddiad Gwasanaethau Brys yn Grangetown a Ffair Yrfaoedd Butetown fis Gorffennaf diwethaf, a ddenodd dros 200 o bobl. Mae hyrwyddwyr cymunedol hefyd wedi cael eu penodi i rannu gwybodaeth a hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd ymhlith ceiswyr swydd o leiafrifoedd ethnig. Datblygodd y gwasanaeth hefyd adnoddau hyfforddi newydd er mwyn ymateb i anghenion cymorth cyflogadwyedd penodol rhai ceiswyr swydd o leiafrifoedd ethnig a gefnogir gan y gwasanaeth, fel newydd-ddyfodiaid i'r DU sydd angen paratoi i ymuno â marchnad lafur y DU. Mae mynediad ac amlygrwydd Caerdydd ar Waith ymhlith grwpiau lleiafrifol ethnig hefyd wedi gwella drwy gamau gweithredu fel ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys mynd i ysgolion lle ceir canran uchel o blant o gefndir lleiafrifol ethnig er mwyn ymgysylltu â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol. Mae tua 41% o'r rhai sy'n defnyddio Gwasanaethau i Mewn i Waith o gefndir lleiafrifol ethnig, gydag oddeutu 46% o gleientiaid Caerdydd ar Waith o gefndir lleiafrifol ethnig.

Dechreuodd Paratoi Caerdydd at Waith hefyd weithredu yn 2022/23. Mae'r tîm yn mentora ac yn rhoi hyfforddiant i bobl yn ein cymunedau sy'n chwilio am waith yn y Cyngor Mae hyn yn helpu'r Cyngor i gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well. Ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen, cafodd dros 130 o bobl gefnogaeth gan fentoriaid, gyda thros 50% yn sicrhau canlyniad cadarnhaol drwy gwblhau hyfforddiant yn gysylltiedig â rôl benodol, llwyddo i basio asesiad Caerdydd ar Waith a sicrhau lleoliad Caerdydd ar Waith.

Cyflwynodd y Gwasanaeth i Mewn i Waith gais llwyddiannus i'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno rhaglen cyflogaeth â chymorth leol am dair blynedd i gefnogi unigolion ag anawsterau dysgu ac awtistiaeth.

Mae'r Onsite Construction Academy yn darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith i unigolion sydd am ymuno â'r diwydiant adeiladu, a chyn gynted ag y bo'r hyfforddiant wedi'i gwblhau, bydd yn cysylltu ceiswyr swydd â chyflogwyr i gynnig cyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaeth ar draws de-ddwyrain Cymru. Yn 2022/23, mae 124 o bobl ddi-waith wedi datblygu i fod yn barod i weithio ar safle gyda chymorth yr Academi, gyda 31 o unigolion sy'n barod yn cynnal cyflogaeth neu brentisiaeth am fwy na 12 wythnos.

Yn ystod 2022,23, cafodd 5,989 o gwsmeriaid gefnogaeth a chymorth gyda'u ceisiadau am Gredyd Cynhwysol. Mae hyn yn llawer uwch na'r targed o 3,000 a osodwyd, ond yn ddealladwy ac ystyried y pwysau economaidd. Mae effaith Diwygiadau Lles yn parhau i gael ei hystyried yn risg i'r Cyngor. Mae'r broses o symud ceisiadau Budd-dal Tai cyfredol i geisiadau Credyd Cynhwysol wedi cael ei hoedi eto. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddechrau symud pobl o'r naill i'r llall hyd 2024.

## Parhau â'n huchelgais fel Dinas Cyflog Byw

Cafwyd cynnydd parhaus gyda gwaith Cyflog Byw Caerdydd, gyda statws y ddinas fel Dinas Cyflog Byw wedi'i adnewyddu am y tair blynedd nesaf. Mae deugain yn fwy o sefydliadau Caerdydd wedi dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys 100fed sector preifat y ddinas, ac erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd cyfanswm o 199 o gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol. Caiff ychydig dros 66,000 o bobl eu cyflogi gan gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yn y ddinas, a derbyniodd bron 11,000 ohonynt godiad cyflog o ganlyniad i'r achrediad. Caerdydd sydd â'r ganran isaf o swyddi sy'n talu llai na'r Cyflog Byw yng Nghymru (11.6% o'r holl swyddi; 24,000) ac mae gyda'r isaf o blith y Dinasoedd Craidd. Gan gydnabod y cynnydd hwn, enillodd menter Cyflog Byw Gwirioneddol y Cyngor wobr Cronicl Llywodraeth Leol 2022 am y Bartneriaeth Orau rhwng y Sector Cyhoeddus/Preifat Mae Prifysgol Caerdydd wedi cyfrifo bod £50m yn ychwanegol wedi'i gyfrannu i economi Caerdydd ers 2012, ar ôl i gyflogau cyflogeion godi i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Un o'r amcanion caffael allweddol a nodwyd yn y Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2022-27 newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref yw "Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu a fabwysiedir gan gyflenwyr", sy'n cynnwys talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae Grŵp Llywio Dinas Cyflog Byw Caerdydd wedi gosod targedau newydd ar gyfer 300 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, sy'n cyflogi 95,000 o staff y mae 13,900 ohonynt wedi cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r targedau hyn i'w cyflawni erbyn mis Tachwedd 2025.

## Ymwreiddio ein dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd

Prif ffocws y Cyngor o hyd yw darparu cymorth amserol yn fuan, fel bod pobl yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf. Llwyddwyd i atal digartrefedd mewn 79% o aelwydydd lle roedd dyletswydd ar y Cyngor i helpu. Mae gwasanaethau atal wedi cael eu symud i Hybiau Cymunedol ar draws y ddinas fel y gall preswylwyr gael mynediad syml at gymorth, gan gysylltu hefyd â'r cymorth ehangach sydd ar gael yn ein Hybiau gan dimau fel y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a'r Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith. Bydd gwasanaethau ataliol yn cael eu hehangu eto yn 2024 i wneud y Cyngor yn fwy hygyrch, p'un a yw pobl am ryngweithio â'r Cyngor ar-lein, dros y ffôn, mewn lleoliadau cymunedol neu drwy ymweliad â'u cartref.

Er bod lefelau atal digartrefedd yn dda, mae niferoedd cynyddol o aelwydydd yn dod yn ddigartref ac angen eu hailgartrefu mewn llety dros dro a pharhaol. Mae dros 60 o bobl sengl yn chwilio am lety brys bob nos. Ceir rhestrau aros hir ar draws yr holl byrth i'r digartref; Mae 73 o bobl yn aros i fynd i mewn i'r Porth Pobl Ifanc.

Oherwydd yr heriau sylweddol yn gysylltiedig â'r galw, bu'n rhaid defnyddio gwestai i deuluoedd er mwyn darparu llety dros dro i rai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; mae dros 100 o deuluoedd wedi'u cartrefu mewn gwestai ar hyn o bryd. Mae cynlluniau eisoes ar waith i leihau'r defnydd o westai a chynyddu capasiti llety dros dro, ee cynyddu nifer y cartrefi a brynir gan y Cyngor.

Yn ystod hydref a gaeaf 2022, cafodd tua 190 o gartrefi modiwlar datgysylltadwy eu gosod ar hen safle'r Gwaith Nwy yn Grangetown, wrth i'r datblygwr sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor, Wates, fynd ati'n gyflym i ddarparu llety diogel a chynnes yn y tymor byr i deuluoedd digartref. Mae cynlluniau ar waith i ehangu safle'r Gwaith Nwy ymhellach drwy ychwanegu 154 o unedau yn ystod 2023. Cyn gynted ag y bo cynllun datblygu hirdymor y safle wedi bod drwy'r broses ddylunio a chynllunio, gellir adleoli'r cartrefi i safleoedd mewn ardaloedd eraill, gan olygu y gall y Cyngor wneud defnydd o safle a fyddai fel arall yn wag.

Mae'r Ganolfan Asesu Sengl yn cefnogi pobl sengl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan. Darperir gwasanaethau aml-asiantaeth ar y safle, gan gynnwys gwasanaethau cynhwysiant iechyd, ynghyd â llety hunangynhaliol o ansawdd da. Mae'r Canolfan yn rhoi cyfnod o sefydlogrwydd i'r unigolyn digartref, a'r cymorth proffesiynol cywir i gael dealltwriaeth lawn o'u hanghenion cymorth parhaus.
Yn 2022/23, cafwyd 779 o achosion eu cyflwyno i'r Ganolfan Asesu, gyda 246 o unigolion yn cwblhau Asesiad Llesiant.

Mae adolygiad wedi cael ei gynnal o effeithiolrwydd y Ganolfan Asesu Sengl wrth ymdrin â'r cylch digartrefedd. Bu'r gwasanaeth yn llwyddiant ar y cyfan, gyda llawer o gleientiaid yn gwneud cynnydd tuag at dorri'r cylch digartrefedd. Mae'n wasanaeth sefydledig bellach gyda gwasanaethau cynhwysiant iechyd y gwneir defnydd eang ohonynt. Fodd bynnag, bu heriau'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau a phroblemau'n gysylltiedig â phrinder cyfleoedd i symud ymlaen, ac mae angen gwneud gwaith pellach yn gysylltiedig â hynny. Ceir potensial i ehangu'r gwasanaethau ar-safle ymhellach, a allai olygu bod angen chwilio am adeilad mwy yn y blynyddoedd nesaf.

Oherwydd yr heriau cynyddol wrth geisio canfod llety symud ymlaen i bobl sengl ddigartref, mae dau gynllun o 'flociau wedi'u rheoli' wedi cael eu datblygu gan greu cyfanswm o 111 o fflatiau. Fflatiau cwbl hunangynhaliol yw'r rhain sy'n galluogi pobl i symud ymlaen o lety i'r digartref, gyda staff cymorth ar-safle. Bwriedir codi rhagor o flociau yn y dyfodol er mwyn bodloni'r galw. Er y bu rhywfaint o gynnydd wrth gyflwyno darpariaeth menywod yn unig o fewn cynlluniau presennol, ac ehangu'r model tai craidd a chlwstwr i bobl ag anableddau dysgu, mae angen gwneud mwy. Mae gwaith felly wedi dechrau i gwmpasu a datblygu datrysiadau tai a chymorth wedi'u teilwra'n arbennig, gan gynnwys nodi safleoedd addas ar gyfer cynllun i fenywod yn unig a datblygu strategaeth adeiladu cyfalaf yn seiliedig ar y galw am dai arbenigol yn y presennol a'r dyfodol. Mae gwaith wedi'i gynllunio hefyd i ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned LHDTC+ er mwyn deall yn well sut y gallwn ddatblygu ymateb tai sy'n fwy ymatebol a chynhwysol.

Mae treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro yn ansefydlogi teuluoedd, a gall amharu ar addysg plant, felly mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ailgartrefu'n gyflym. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i leihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro, gan helpu unigolion a theuluoedd i gael llety parhaol cyn gynted ag sy'n bosibl. Caiff cyfran fawr o dai cymdeithasol eu dyrannu i gleientiaid digartref; ers mis Ebrill 2022, roedd 74% o'r dyraniadau ar gyfer eiddo 'anghenion cyffredinol' (ac eithrio gosodiadau rheoli/gosodiadau blaenoriaeth uniongyrchol) yn ddyraniadau i gleientiaid digartref, a bu hyn o gymorth i liniaru peth o'r pwysau ar lety dros dro. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r weledigaeth ailgartrefu cyflym yn wirioneddol, bydd angen i'r ddinas gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i raddau sylweddol. Er bod gan y Cyngor gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu o'r newydd, mae angen darparu llawer mwy o gartrefi fforddiadwy nag sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd er mwyn cyrraedd y nod hwn.

## Rhoi terfyn ar gysgu allan

Mae cysgu allan yn dal i fod ar lefel is nag a welwyd yn y gorffennol yng Nghaerdydd, yn llawer is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Roedd y niferoedd cyfartalog yn amrywio rhwng 11 ac 16 yn nhri Chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, cyn i gynnydd sydyn yn Chwarter 5 godi'r cyfartaledd i 26. Mae timau'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phawb sy'n cysgu allan, ac maen nhw ar gael i roi cymorth a chefnogaeth pryd bynnag y bydd yr unigolyn yn barod i'w dderbyn.

Gan mai niferoedd cymharol isel sy'n cysgu allan yng Nghaerdydd, roedd nifer y cysgwyr allan a gafodd gefnogaeth i gael llety yn is na'r targed yn 2022/23, gyda ffigur diwedd blwyddyn o 92 yn erbyn targed o 160. Gall cefnogi cysgwyr allan yn aml fod yn her gan fod anghenion llawer o'r rhai sy'n chwilio am lety'n gymhleth, ac mae'r niferoedd a gefnogir i gael llety yn cynrychioli gwaith aml-asiantaeth ardderchog. I gefnogi cleientiaid â lefel uwch o anghenion i mewn i dai parhaol cyn gynted ag sy'n bosibl, mae'r cynllun Tai yn Gyntaf wedi cael ei ehangu. Mae'r cynllun yn cynnig lleoli pobl uniongyrchol mewn tenantiaethau Cyngor, Cymdeithas Dai a'r sector rhentu preifat, gyda chefnogaeth gofleidiol ddwys. Mae'n rhoi cartref sefydlog i bobl sydd wedi profi digartrefedd sydd hefyd ag anghenion cymhleth, er mwyn iddynt allu ailadeiladu eu bywydau. Ceir tri chynllun Tai yn Gyntaf yng Nghaerdydd ar hyn o bryd - dau a weithredir gan y Cyngor, un ar gyfer cysgwyr allan ac un i rai sy'n gadael y carchar. Gweithredir cynllun arall gan Fyddin yr Iachawdwriaeth. Mae Tai yn Gyntaf yn llwyddiannus iawn, gyda 94% o gleientiaid sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth wedi torri'r cylch digartrefedd.


Cwblhawyd y gwaith i drawsnewid Adams Court yn Adamsdown yn uned llety â chymorth newydd ym mis Ionawr 2023. Cwblhawyd y llety mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Unedig Cymru, ac mae'r llety bellach yn gallu cynnig 103 o fflatiau un ystafell wely hunangynhaliol i bobl sengl ddigartref ag anghenion cymhleth. Yn ogystal â'r fflatiau, mae gwaith wedi'i gyflawni i ddarparu cyfleusterau meddygol, mannau ar gyfer gweithgareddau dargyfeiriol, ystafelloedd amlbwrpas ac ystafell gwnsela.



# Amcan Llesiant 4:
# Cymunedau diogel, hyderus sydd wedi'u grymuso

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 oedd:**

- Adeiladu tai Cyngor newydd a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol
- Sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag risg o niwed a chamdriniaeth
- Creu cymunedau diogel a chynhwysol
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Cydweithio i gefnogi poblogaeth iachach a mwy egnïol



## Asesiad Strategol

Mae Caerdydd yn ddinas ddiogel gydag ymdeimlad cryf o berthyn a balchder o fewn cymunedau. Fodd bynnag, ceir cryn wahaniaethau ym mhrofiadau pobl o Gaerdydd, yn dibynnu ym mha ardal y maen nhw'n byw. Roedd ymatebwyr Holi Caerdydd 2022 sy'n byw yn ardaloedd lleiaf amddifadus y ddinas yn amlwg yn fwy bodlon â'u cymuned leol fel lle i fyw ynddo na rhai yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus - gyda'r garfan cyntaf ddwywaith mor debygol o ddweud eu bod yn 'fodlon iawn' na'r ail garfan (22.7% o gymharu ag 11.9%).

Yn ystod 2022/23, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei raglen buddsoddi, adfywio a thai cymunedol, gyda ffocws ar y rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas. Mae'r mentrau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yr Hyb Iechyd a Llesiant cyntaf a agorwyd yn Llanedern ym mis Gorffennaf 2022, ailwampio a chreu Hyb Llesiant Cymunedol newydd yn Rhiwbeina, cwblhau'r cynllun gwerth £5 miliwn i drawsnewid Stryd Tudor a chae chwaraeon 3G newydd yn y Sblot. Mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn cartrefi fforddiadwy newydd, gydag 843 wedi'u darparu dros y pum mlynedd diwethaf, a 362 o gartrefi newydd eraill yn cael eu hadeiladu ar safleoedd ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen ddatblygu sydd wedi'i diweddaru gan y Cyngor yn ymrwymo i adeiladu 4,000 o gartrefi newydd erbyn 2030.

Mae'r pwysau ar y farchnad dai, yn enwedig cost a phrinder tai yn y sector rhentu preifat, yn achosi cryn alw, a phwysau ar gostau o fewn y gwasanaethau tai a digartrefedd (gweler Amcan Llesiant 3), ac ar draws nifer o wasanaethau cyngor, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cynghori a chymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae rhestrau aros ar gyfer llety dros dro wedi dyblu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwestai bellach yn cael eu defnyddio fel llety dros dro i rai teuluoedd. Mae rhaglen wedi'i sefydlu o gamau i'w cymryd ar unwaith, gan gynnwys pecynnau cymorth ychwanegol i'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, ac i rai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent neu forgais. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r holl drosolion sydd ar gael iddo i sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael a'u bod yn fforddiadwy, drwy ddefnyddio cartrefi gwag o'r newydd, rheoli Cynllun Prydlesu Cymru ac adeiladu cartrefi newydd. Gyda'i gilydd mae'r mentrau hyn yn gwneud gwahaniaeth, ond ni fydd y Cyngor yn llwyddo i fodloni'r galw am ei fod mor uchel. Ac ystyried maint yr her a'r modd y mae'r broblem yn cael effaith ar draws gwasanaethau ac ar draws y ddinas, mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor dros weddill 2023 a thu hwnt.

Dros dymhorau'r gwanwyn a'r haf 2022, arweiniodd y Cyngor ymateb llwyddiannus ar raddfa'r ddinas i argyfwng ffoaduriaid Wcrain, gan sicrhau bod ffoaduriaid yn cael eu croesawu, yn cael lle i aros a bod gwasanaethau cyhoeddus ehangach y ddinas ar gael ac yn barod i'w cefnogi. Roedd nifer y bobl a gyrhaeddodd, a'r ffaith bod eu hanghenion yn aml o natur gymhleth, yn golygu bod pob rhan o'r system gwasanaethau cyhoeddus wedi profi pwysau'n gysylltiedig â'r galw. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau am nifer o flynyddoedd, felly bydd y maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a'i bartneriaid yn 2023/24

## Darparu tai fforddiadwy

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gynyddu nifer y tai fforddiadwy, ynni-effeithlon a charbon-isel yn y ddinas. Mae Cartrefi Caerdydd, rhaglen adeiladu tai'r Cyngor, wedi'i chydnabod fel rhaglen ddatblygu arloesol y mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio ati fel arfer da. Mae'r dull partneriaeth wedi lleihau'r risg yn gysylltiedig â chyflawni, ac wedi golygu y bu modd dechrau prosiectau ar-safle yn gyflymach. Mae'r rhaglen hefyd wedi sicrhau cysondeb rhwng safon cartrefi cyngor a chartrefi a adeiledir i'w gwerthu, drwy fabwysiadu dull 'dall i ddaliadaeth'. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae 843 o gartrefi Cyngor newydd wedi cael eu codi yn erbyn targed o 1,000 erbyn mis Rhagfyr 2022. Mae hyn yn arafach na'r disgwyl oherwydd yr anawsterau o flaen y diwydiant adeiladu yn ei gyfanrwydd, sydd wedi achosi oedi wrth dendro am gontractwyr a chwblhau cynlluniau. Pan fydd cynlluniau ar-safle, mae contractwyr hefyd yn profi anawsterau'n gysylltiedig â chynnydd yng nghostau deunyddiau a phrinder llafur, yn ogystal ag oedi wrth ddisgwyl am ddeunyddiau. Er gwaethaf yr heriau, dyma gynllun adeiladu cartrefi Cyngor mwyaf Cymru, ac un o'r cynlluniau mwyaf uchelgeisiol yn y DU.

Mae'r rhaglen yn parhau i gael ei chanmol am ei dull arloesol ac ecogyfeillgar, gan ennill gwobrau am ddatblygiad sero net, parod am garbon Aspen Grove yn Nhredelerch yng Ngwobrau Eiddo Preswyl RESI, ac am ddatblygiad Stryd Crofts yn Cathays, a enillodd y Wobr Dulliau Adeiladu Modern yng Ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru 2022. Mae'r rhaglen datblygu tai hefyd yn creu buddion ehangach i'r ddinas ac i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r rhaglen yn cynnwys amcangyfrif o £950 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf, ac yn darparu gwerth cymdeithasol a buddsoddiad lleol o bwys drwy gefnogi cadwynau cyflenwi a chontractwyr lleol, yn ogystal â datblygu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth dros y tymor hwy.

Ym mis Tachwedd 2022, cymeradwywyd cynnig i weithredu ail bartneriaeth tai fel bo modd cyflawni datblygiadau tai newydd ar raddfa fawr ac yn gyflym, gyda'r nod o adeiladu cyfanswm o 4,000 o gartrefi newydd o leiaf, gan gynnwys darparu tai i'w rhentu neu i'w gwerthu i weithwyr allweddol. Mae opsiwn arall dan ystyriaeth gan y Cyngor yn anelu i fynd i'r afael â gorlenwi yn stoc tai'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynnal cynllun peilot lle defnyddiwyd datrysiadau arloesol i greu ystafelloedd ychwanegol i deuluoedd, fel estyniadau ar eiddo presennol lle bo modd, trawsnewid atigau neu osod uned fodiwlar yn yr ardd. Bydd y peilot yn cael ei ehangu os yw'n llwyddiannus. Mae gwaith hefyd wedi'i gynllunio i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n dymuno symud i gartref llai er mwyn rhyddhau tai i deuluoedd ac i helpu tenantiaid i ddatrys eu hanghenion tai drwy hyrwyddo a chefnogi cyfnewid y naill â'r llall.

Mae defnyddio cartrefi gwag o'r newydd yn ffordd arall i gynyddu'r stoc tai sydd ar gael. Cafodd 91 o gartrefi eu creu, drwy ddefnyddio cartrefi o'r newydd neu greu unedau newydd yn sgil gwaith a gyflawnwyd gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn ystod 2022/23. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Gweithredu Cartrefi Gwag y Cyngor, sy'n nodi cartrefi gwag yn y ddinas i'w targedu. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i dynnu cyllid i lawr i indemnio'r gwasanaeth rhag y risg ariannol sy'n gysylltiedig â chymryd camau cyfreithiol priodol er mwyn helpu i ddefnyddio'r cartrefi hyn o'r newydd.

Yn ychwanegol at hyn, mae swm sylweddol o adnoddau'n parhau i gael ei fuddsoddi yn y Landlord Enquiry Tenant Support (LETS). Mae'r tîm yn rheoli Cynllun Prydlesu Cymru, menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu i gynyddu mynediad at lety rhent preifat yng Nghymru, a fforddiadwyedd y llety hwnnw. Mae'r cynllun yn galluogi landlordiaid i brydlesu eu heiddo i'r Cyngor am bum mlynedd, a hawlio hyd at £5,000 am waith

atgyweirio i'r eiddo. Mae'r Cyngor wedi sicrhau 22 eiddo drwy'r cynllun hwn yn ystod 2022/23. Mae gwaith hefyd yn cael ei gyflawni ar 10 eiddo arall, neu gytundeb yn yr arfaeth i'w prydlesu, a byddant yn cael eu meddiannu ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

Ar hyn o bryd mae tua 8,000 o aelwydydd ar y rhestr aros am eiddo Cyngor neu Gymdeithas Dai yn y ddinas, ac mae cyfartaledd o 400 o geisiadau newydd yn dod i law i ymuno â'r rhestr bob mis. Yn ystod 2022/23, cafodd cyfanswm o 1,528 o gartrefi eu gosod. Mae lefelau rhent yn y sector rhentu preifat ar lefel ddigynsail, gydag ond cyfran fechan o fewn cyfradd y Lwfans Tai Lleol, yr uchafswm y gellir ei hawlio drwy fudd-dal. Mae angen i denantiaid dalu am unrhyw wahaniaeth o'u hincwm, ac mae hyn yn golygu bod yr opsiwn i rentu'n breifat y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl. Mewn sampl o'r farchnad a gymerwyd yn ystod Chwarter 2, roedd 98% o gartrefi yn cael eu gosod am o leiaf £100 yn fwy na'r Lwfans Tai Lleol, a'r diffyg cyfartalog ar draws yr holl fathau o eiddo yw £318 y mis. Mae'r methiant i sicrhau tai felly'n effeithio ar ganlyniadau unigolion a theuluoedd, gan greu heriau mawr o ran darpariaeth ac effeithio ar gyllidebau ar draws gwasanaethau Cyngor. Ar sail hyn oll, mae'n glir bod gwir angen gwneud defnydd llawn o'r holl opsiynau polisi i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy, a hynny ar frys.

**Buddsoddi mewn cymunedau**

Yn ystod 2022/23 ymwelodd dros 4.5 miliwn o bobl â Hybiau a llyfrgelloedd y Cyngor, naill ai â'r adeiladau eu hunain neu'n rhithiol, a chytunodd 97% o gwsmeriaid fod yr Hyb neu'r llyfrgell wedi bodloni eu gofynion, gan ragori ar y targed a osodwyd. Croesawodd Hyb Llesiant Cymunedol Rhiwbeina gwsmeriaid yn ôl ym mis Ionawr 2023. Drwy gyllid o Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, y Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal, a'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd bu modd adnewyddu a thrawsnewid yr adeilad yn llwyr i greu cyfleuster cymunedol addas i'r diben, a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl cydleoli gwasanaethau llyfrgell â gwasanaethau cynghori, tai a gofal cymdeithasol newydd.

Agorodd Hyb Iechyd a Llesiant newydd Maelfa ym mis Gorffennaf, y cyntaf o'i fath yn y ddinas. Cyflwynwyd yr ymagwedd Hyb newydd drwy bartneriaeth rhwng BIP Caerdydd a'r Fro a Chanolfan Iechyd Llanedern. Mae'n ychwanegu at wasanaethau sydd ar gael eisoes drwy integreiddio ystod o glinigau iechyd arbenigol a chynnig 'siop un stop' er budd iechyd a llesiant ein preswylwyr. Mae cynlluniau am Ail Hyb Llesiant yn Nhreláí a Chaerau yn mynd rhagddynt, a bydd opsiynau am Hybiau newydd ar safleoedd cynllunio strategol yn cael eu harchwilio.

Mae cynlluniau am Hyb Ieuenctid yng nghanol y ddinas hefyd yn mynd rhagddynt, gyda'r nod o gytuno ar opsiwn a ffafrir yn nhymor yr hydref 2023.

Yn rhan o'r buddsoddiad yng Nghoridor Busnes De Glan yr Afon, mae Stryd Tudor wedi cael ei hadfywio i apelio fel cyrchfan siopa i breswylwyr lleol a hefyd i'r gymuned ehangach. Mae'r cynllun gwerth £5 miliwn wedi darparu gwelliannau i'r tir cyhoeddus, i'r amgylchedd busnes, i'r seilwaith trafnidiaeth ac i flaenau siop 30 eiddo busnes. Mae gwaith bellach wedi symud ymlaen i Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yng Nglan yr Afon. Cynhaliodd y Tîm Adfywio Cymdogaeth gyfres o sesiynau ymgysylltu â phreswylwyr a masnachwyr yn ystod mis Mawrth 2022, lle rhoddodd dros 130 o bobl adborth, a mynegi safbwyntiau a syniadau ynghylch gwelliannau. Cwblhawyd Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaeth ar gyfer cae 3G ym Mharc y Sblot ac ar gyfer

gwelliannau yng nghanol Pentref Llaneirwg ym mis Mawrth 2023. Mae dau gynllun i adfywio stadau yn Pennsylvania a Lincoln Court yn Llanedern hefyd wedi'u cwblhau. Mae canran y preswylwyr sy'n fodlon â phrosiectau adfywio wedi gostwng i 79% - y rheswm pennaf am hyn oedd bod un cynllun i adnewyddu cymdogaeth wedi derbyn sgôr bodlonrwydd isel. Mae gwaith wedi'i gyflawni i geisio deall y rhesymau wrth wraidd hyn a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflawni cynlluniau dilynol.

Ar ôl dinistr y tân yn Nhŵr Grenfell, bu'r Cyngor yn adolygu diogelwch tân yn ei holl flociau uchel, a phenderfynodd ailosod y cladin ar bob bloc lle'r oedd cladin wedi'i osod. Er nad oedd y cladin o'r un ansawdd ag a ddefnyddiwyd yn Grenfell a'i fod wedi bodloni'r holl ofynion diogelwch wrth ei osod, nid oedd yn bodloni'r safonau diogelwch tân llymach a geir erbyn hyn. Mae'r gwaith ailgladio ar fflatiau Lydstep, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2021, yn mynd rhagddo'n dda, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn nhymor yr hydref 2023. Mae ymgynghorwyr prosiect ar gyfer gwaith ailgladio Tŷ Nelson a Thŷ Loudoun yn Butetown i gael eu penodi ym mis Mai 2023; ar ôl hynny gellir cychwyn y broses o gaffael contractwr ar gyfer y cynllun.

## Sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag risg o niwed a chamdriniaeth

Mae'r gallu i recriwtio staff yn parhau i fod yn broblem o fewn y Gwasanaethau Oedolion. Mae gwaith wedi dechrau i adnewyddu gwefan Gweithwyr Cymdeithasol Caerdydd er mwyn gwella presenoldeb y Gwasanaethau Oedolion, ac mae ffilm recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol wedi cael ei chynhyrchu i gefnogi gweithgarwch recriwtio. Cytunwyd ar daliad atodol ar sail y farchnad i staff cymwys, ac mae hyn wedi cael ei gynyddu ar gyfer 2023/24. Mae hysbysebion swydd wedi cael eu hadolygu a gwaith wedi'i wneud i'w hailwampio a'u gwella. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rai a oedd yn bresennol mewn ffeiriau swydd ynghylch presenoldeb y Gwasanaethau Oedolion a'r deunyddiau recriwtio a ddarparwyd i ddarpar ymgeiswyr. Mae gwaith hefyd wedi'i gyflawni i ddatblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu yn 2023/24.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi arfer gorau, cafodd Polisi Diogelu Corfforaethol 2022-25 newydd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022, sy'n esbonio'r trefniadau sydd ar waith ar draws holl wasanaethau'r Cyngor i amddiffyn a diogelu plant ac oedolion. Canolbwyntiwyd ar gynyddu lefelau hyfforddi er mwyn sicrhau lefelau uchel o ymwybyddiaeth ymhlith y staff o risgiau diogelu a sut i ymateb i'r risgiau hynny, ac mae 84% o staff y Cyngor bellach wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu, sy'n gynnydd o 65% yn Chwarter 4 2021/22, ac mae 97% o aelodau etholedig hefyd wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Mae'r pwysau ar wasanaethau iechyd meddwl wedi parhau yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r pwysau parhaus ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Mae gwaith i ddatblygu gwasanaeth ymateb ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys yn mynd rhagddo gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol; bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl lefel is ac yn lleihau'r galw o fewn y system. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddeall problemau'n gysylltiedig ag argaeledd gwelyau mewn ysbytai iechyd meddwl, a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd i fynd i'r afael â hyn.

Mae anghydraddoldebau iechyd yn bresennol ar draws Caerdydd, yn enwedig wrth gymharu ardaloedd gogleddol y ddinas ag ardaloedd mwy difreintiedig, fe 'Bwa Deheuol' Caerdydd. Yn 2020/21, nododd adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Caerdydd ar anghydraddoldeb iechyd nifer fach o flaenoriaethau i'w gweithredu wrth i'r ddinas ymgodi o'r pandemig, gan gynnwys: gordewdra ymhlith plant; nifer y plant

sy'n derbyn brechlynnau, a sgriniadau iechyd (yn enwedig ar gyfer canser y coluddyn). Mewn ymateb i hyn, mae'r Grŵp Cyflawni Cynyddu Ataliaeth wedi cael ei sefydlu o dan nawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Mae'r grŵp hwn yn goruchwylio gwaith i gynllunio a darparu ymyraethau ychwanegol wedi'u targedu ar draws y blaenoriaethau a nodwyd uchod. Mae hyn wedi cynnwys:

- **Imiwneiddio Plant**: Datblygu deunyddiau newydd ac ymgyrch i gyfathrebu ynghylch imiwneiddio plant mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol. Defnyddio swyddogion olrhain cysylltiadau Profi Olrhain Diogelu i gysylltu â theuluoedd sy'n methu brechlynnau, gan gael effaith amlwg ar y niferoedd sy'n eu derbyn.
- **Canser y Coluddyn**: Mae'r prosiect sgrinio canser y coluddyn, lle cafwyd cydweithio rhwng Ymchwil Canser y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS), ac Uned Ffilm y Cyngor wedi'i gwblhau. Mae fideos gwybodaeth am sgrinio canser y coluddyn wedi cael eu cyfieithu i Wrdw, Arabeg, Somalieg a Bengaleg. Mae'r fideos wedi cael eu darparu ar sgriniau mewn meddygfeydd teulu yn Ne'r ddinas, ac mewn Hybiau Cymunedol ar sgriniau digidol newydd sy'n cael eu gosod. Mae'r fideos hefyd wedi cael eu huwchlwytho i'w dangos ar sianeli Youtube Community Health Connect. Mae deunyddiau hyrwyddo sy'n amlinellu'r prosiect yn cynnwys codau QR er mwyn helpu cwsmeriaid i gael mynediad i'w dewis iaith. Mae'r fideos hefyd ar gael i Iechyd Cyhoeddus Cymru a fydd yn eu cynnwys ar eu gwefan, ac i Ymchwil Canser y DU a fydd yn gallu cyrchu a defnyddio'r fideos.
- **Gordewdra ymhlith Plant**: Mapio safleoedd sy'n hysbysebu cynnyrch braster, siwgr a halen uchel ar draws Caerdydd, gyda ffocws ar y rhai sy'n agos at ysgolion ac ysbytai, a diwygio'r contract hysbysebu ar safleoedd bws yng Nghaerdydd i fod yn gyson ag egwyddorion hysbysebu iachach.

**Creu cymunedau diogel a chynhwysol**

Mae Caerdydd yn lle diogel i fyw. Mae troseddu wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac yng Nghaerdydd y mae'r gyfradd droseddu isaf ond un o blith dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr. Er bod cofnodion o droseddau'n parhau i ostwng, mae'r canfyddiad o droseddu a diogelwch ymhlith dinasyddion yn dal i fod yn destun pryder. Yn Arolwg Holi Caerdydd y Cyngor yn 2022, dim ond 21% o ddinasyddion a gytunai fod gwasanaethau cyhoeddus lleol yn llwyddo i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn eu hardal leol. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn teimlo'n lleiaf diogel wrth deithio neu gerdded yng nghanol y ddinas wedi iddi nosi, ac roedd y rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf amddifadus y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel na'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i ehangu ymagwedd aml-asiantaeth wedi'i thargedu i ddatrys problemau mewn ardaloedd lleol lle ceir llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol cymhleth. Mae'r ymagwedd hon yn golygu cydweithio â phartneriaid o'r sector cyhoeddus, fel Heddlu De Cymru, sefydliadau o'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, a busnesau lleol i nodi a datrys problemau lleol. Cwblhawyd gwaith prosiect llwyddiannus â phartneriaid mewn lleoliadau fel Fflatiau a Pharc Lydstep yn Gabalfa, lle arweiniodd blwyddyn o ffocws ar ddatrys problemau yn yr ardal at ostyngiad parhaol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Mae'r gostyngiad o 101 o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â phobl ifanc i gyn lleied â 22 o ddigwyddiadau o'r fath, wedi'i fesur dros ddau gyfnod o chwe mis yn 2021 a 2022 yn tystio i hyn. Mae ymyriadau hefyd ar y gweill ar Stryd Clifton yn Adamsdown, ac mae'r rheiny hyd yma wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau yn erbyn

y drefn gyhoeddus, ymddygiad gwrthgymdeithasol a lladrata. Wrth fesur dros ddau gyfnod o chwe mis yn 2021 a 2022, gwelir gostyngiad mewn adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol (20 o gymharu â 65), a digwyddiadau troseddu (55 o 158) yn yr ardal darged. Yn dilyn cais llwyddiannus am £750,000 o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel ym mis Gorffennaf 2022, mae mentrau wedi'u cynllunio â phartneriaid i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i wella diogelwch menywod, wedi cael eu cynnal yng nghanol y ddinas ac mewn rhai ardaloedd preswyl yn Cathays, lle mae wyth o gamerâu TCC wedi cael eu gosod. Gan edrych ymlaen at 2023/24, mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol raglen waith wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n cynnwys dangosyddion llwyddo wedi'u datblygu'n benodol i fesur effeithiolrwydd ymyraethau lleol.

Yn ystod y gwanwyn a'r haf, arweiniodd y Cyngor ymateb ar draws y ddinas i argyfwng ffoaduriaid Wcrain, gan sicrhau bod 1,000 o ffoaduriaid yn cael eu croesawu ac yn cael lle i aros, a bod gwasanaethau cyhoeddus ehangach y ddinas ar gael ac yn barod i'w cefnogi. Roedd nifer y bobl a gyrhaeddodd, a'r ffaith bod eu hanghenion yn aml o natur gymhleth, yn golygu bod pob rhan o'r system gwasanaethau cyhoeddus wedi profi pwysau'n gysylltiedig â'r galw. Cafodd tîm mewnol pwrpasol ei sefydlu'n gyflym i gefnogi'r ymateb i argyfwng Wcrain, gan gynnwys tîm symud ymlaen i drosglwyddo'r ffoaduriaid i dai hirdymor. Mae 120 o bobl o Wcrain wedi cael cymorth gan y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith i dderbyn hyfforddiant, 14 wedi cofrestru gyda Chaerdydd ar Waith a 26 y manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli. Mae gweithwyr cymorth tai wedi bod yn parhau i gefnogi teuluoedd o Wcrain, gyda chyfanswm o 32 o deuluoedd wedi'u symud i eiddo yn y sector rhentu preifat ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i gefnogi ffoaduriaid sy'n cyrraedd drwy gynllun adsefydlu Affganistan a thrwy lwybrau eraill. Mae'r galw wedi cynyddu'n gyflym yn y maes hwn dros 2022/23, a bu'n rhaid cydymdrechu fel partneriaeth, wrth i amryw o wasanaethau deimlo'r effeithiau, ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid a chymunedau i fynd i'r afael â bygythiad eithafiaeth, gyda'r Swyddfa Gartref yn cydnabod bod Rhaglen Prevent Cyngor Caerdydd yn rhagori ar ofynion Dyletswydd Prevent yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda chryfderau wedi'u nodi mewn gwaith partneriaeth, hyfforddiant ac ymgysylltu cymunedol.

Cymeradwywyd Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) rhanbarthol newydd ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg gan y Cabinet ym mis Mai 2023, ac rydym yn gwneud cynnydd sylweddol o ran lefelau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y staff. Mae 84% o'r staff bellach wedi cwblhau modiwl ar-lein Lefel 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, sy'n gynnydd o gymharu â 51% ar ddiwedd blwyddyn 2021/22. Mae canran yr atgyfeiriadau ynghylch dioddefwyr camdriniaeth risg uchel lle cafwyd ymgais gan y gwasanaethau arbenigol i gysylltu o fewn un diwrnod calendr ar ôl yr atgyfeiriad wedi cynyddu o 78% i 83% dros y flwyddyn ddiwethaf, ond yn dal i fod yn is na'r targed o 90%.

Ym mis Rhagfyr 2022, ymatebodd i Cabinet i adroddiad terfynol y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, gan dderbyn yr holl argymhellion a chael y newyddion diweddaraf am gynnydd ar draws y pum maes blaenoriaeth a nodwyd: Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol; Addysg a Phobl Ifanc; Llais Dinasyddion; Iechyd; a Chyfiawnder Troseddol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau monitro a goruchwylio cadarn, a fydd yn rhoi'r diweddaraf am gynnydd cyn diwedd 2023/24. Yn rhan o'r ymagwedd hon, bydd y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn cael gwahoddiad i ailymgynnull i ystyried ac adrodd yn ôl ar gynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid. Dyma'r meysydd lle mae angen cynnydd ar unwaith:

- Allgymorth ac ymgysylltu gwell â chymunedau lleiafrifol ethnig y ddinas gan dîm I Mewn I Waith Caerdydd, er mwyn gwella mynediad i Gaerdydd ar Waith (gweler Amcan Llesiant 3)
- Lansio rhaglen datblygu arweinwyr peilot ar gyfer rhwydweithiau cyflogeion y Cyngor, yn canolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth ein rheolwyr a'n huwch reolwyr yn y dyfodol (gweler Amcan Llesiant 7)
- Cynyddu amlygrwydd modelau rôl Du a Lleiafrifol Ethnig drwy noddi Darlith Flynyddol Cerflun Betty Campbell.

Bydd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu monitro'n unol â Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad y Cyngor, gyda'r Tasglu'n cael gwahoddiad i ailymgynnull i asesu cynnydd yn 2023/24.

## Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae gwaith yn parhau i wireddu'r weledigaeth o Gaerdydd fel prifddinas gwirioneddol ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg wedi'i hymwreiddio yn ffabrig bywyd bob dydd. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf. Dangosai Cyfrifiad 2021 fod nifer y bobl a allai siarad, darllen ac ysgrifennu'n Gymraeg wedi cynyddu bron i chwarter - 23.0% neu dros 6,500 o bobl - sef y cynnydd canrannol mwyaf a'r cynnydd mwyaf o ran niferoedd ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod y sefydliad yn weithle cynyddol ddwyieithog, ac yn parhau ar y trywydd iawn i sicrhau cynnydd o 20% yn nifer y staff â sgiliau Cymraeg erbyn 2026/27 - ar hyn o bryd mae 20.6% yn dweud bod ganddynt ryw sgiliau yn yr iaith. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o fewn un flwyddyn yn nifer y staff sy'n mynd ar gyrsiau Cymraeg, gyda thros 500 o staff yn derbyn hyfforddiant yn ystod 2022/23, er bod hyn fymryn yn is na'r cynnydd sydd ei angen i gyrraedd y targed pum mlynedd, sef cynnydd o 50%.

Mae addysg yn ffactor tyngedfennol er mwyn tyfu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas. Cyflwynwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 10 Mlynedd y Cyngor i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a gafwyd hyd yma, a fydd yn sicrhau y gall pob plentyn yn y ddinas dderbyn addysg Gymraeg; y bydd y nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg yn cynyddu; ac y bydd pob plentyn yn teimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg, drwy wneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg. Dechreuodd gwaith adeiladu hefyd ar Ysgol Gynradd Groes-wen ym mis Hydref 2022. Dyma'r ysgol ddwy ffrwd gyntaf yng Nghaerdydd; ysgol sy'n cynnig mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a mynediad hefyd i addysg ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd yr ysgol newydd yn derbyn ei disgyblion cyntaf ym mis Medi 2023.

Mae gwaith arall gyda phobl ifanc yn cynnwys partneriaeth newydd o'r enw CFTi i ymgysylltu â phobl ifanc a datblygu gwasanaethau Cymraeg gyda phobl ifanc. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor, Urdd Gobaith Cymru a Menter Caerdydd ac yn cefnogi swyddogion ieuenctid newydd i weithio ar draws pob un o'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas. Ym mis Mawrth 2023, cychwynnwyd clwb ieuenctid Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion blynyddoedd ysgol 7, 8 a 9, a chynhaliodd Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog newydd ar gyfer disgyblion 11–18 oed ei gyfarfod cyntaf yn yr Hen Lyfrgell.

## Cydweithio i gefnogi poblogaeth iachach a mwy egnïol

Cafodd y Strategaeth Gweithgareddau Corfforol a Chwaraeon 2022-27 newydd, Symud Mwy Caerdydd, ei lansio mewn digwyddiad ym mis Mehefin yn Stadiwm SWALEC, gyda thros 100 o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, BIP Caerdydd a'r Fro a Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'r gwaith yn cael ei arwain gan Chwaraeon Caerdydd. Nod y strategaeth fydd lleihau ymddygiad eisteddog a gwneud bod yn egnïol yn rhywbeth arferol. Gwnaed cynnydd da o ran cyrchu ffynonellau data sydd ar gael i feincnodi lefelau gweithgarwch corfforol cyfredol yn y ddinas, a bu'r tîm yn gweithio'n agos â Chyngor Trydydd Sector Caerdydd i ddatblygu'r dull mwyaf effeithiol o ymgysylltu â chymunedau. Cytunwyd ar ddechrau 2023 i barhau i ddatblygu'r model yn y ddwy ardal beilot (Tredelerch a Glan yr Afon) am 12 mis arall er mwyn mesur yr effaith yn effeithiol a thyfu'r model cynaliadwy gyda phartneriaid allweddol. Dyfarnwyd cyllid grant o £1.2m hefyd gan Chwaraeon Cymru yn ystod 2022/23 i ddarparu rhaglenni chwaraeon a gweithgareddau corfforol drwy ysgolion, clybiau a sefydliadau gwirfoddol yng Nghaerdydd, gyda gwaith penodol targededig wedi'i gynllunio ar gyfer merched a menywod, cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, a rhai o ardaloedd mwyaf amddifadus y ddinas. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio gydag eraill i sicrhau y bydd trefniadau ar gyfer y Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd datblygu a darpariaeth ar lawr gwlad.

Mae sicrhau mynediad rhwydd i fannau gwyrdd yn hanfodol er mwyn gwella llesiant pobl, o safbwynt corfforol a meddyliol. Roedd mwy o ymatebwyr i arolwg Holi Caerdydd 2022 yn fodlon â'r parciau a'r mannau agored yn eu cymdogaeth gan unrhyw gyfleuster arall yn eu cymdogaeth (74%) gyda 33.1% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon iawn. Dychwelodd nifer yr oriau yr oedd gwirfoddolwyr yn eu treulio yn gweithio ym mannau gwyrdd y ddinas i lefelau cyn Covid am y tro cyntaf yn ystod 2022/23. Cyflawnodd gwirfoddolwyr 19,385 o oriau o waith ym mharciau a mannau gwyrdd y ddinas yn y 12 mis diwethaf - 274 o oriau'n fwy nag a gyflawnwyd yn 2019/20 cyn y pandemig. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth ymgysylltiad o'r fath, ac o ganlyniad i hynny dyrannwyd cyllid refeniw twf polisi yn y maes hwn yn 2022.23 i ateb y galw cynyddol a'r diddordeb a gododd yn ystod pandemig Covid-19 ac ar ôl hynny.

Derbyniodd 16 o barciau a mannau gwyrdd y Cyngor yn y ddinas wobr anrhydeddus y Faner Werdd eleni, gan gyrraedd y targed a osodwyd, gan gynnwys Parc Llyn Hendre yn Trowbridge a enillodd y wobr am y tro cyntaf. Ym mis Tachwedd, enillodd tîm y Cyngor ym Mharc Bute wobr Tîm y Flwyddyn yng Ngwobrau 'Y Gorau o'r Goreuon' Baner Werdd y DU a reolir gan Cadwch Brydain yn Daclus. Enillodd prosiect 'Tyfu'n Dda' Tyfu Caerdydd hefyd wobr y Fenter Iechyd Orau am effaith gadarnhaol ei gynllun graddio cymunedol therapiwtig ar iechyd a llesiant unigolion lleol. Mae Parc Tredelerch wedi'i nodi fel y parc newydd i'w gyflwyno i ennill statws y Faner Werdd yn 2023, ochr yn ochr â´r holl barciau sydd eisoes wedi ennill y statws hwnnw. Mae gwaith gan Ddŵr Cymru hefyd bron wedi'i gwblhau ar safle Cronfa Ddŵr Llanisien; disgwylir i'r safle a'r ganolfan ymwelwyr newydd agor yn haf 2023.

Yn ystod 2022/23, cafodd dros 30,000 o goed eu plannu drwy raglen plannu coed Coed Caerdydd, gyda gwaith plannu yn digwydd ym mhob ward ar draws y ddinas. Bu cyfraniad y gweithlu o wirfoddolwyr yn sylweddol, gan gynrychioli cyfanswm o 1,300 o oriau gwaith. Yn ogystal â hynny, mae 88 o ddigwyddiadau cyhoeddus, 35 o ddigwyddiadau grŵp cymunedol a 29 o ddigwyddiadau ysgol wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Gan gydnabod ymrwymiad y Cyngor i reoli a datblygu coed, mae Caerdydd wedi'i dynodi'n 'Ddinas Coed y Byd' gan Sefydliad Arbor Day. Mae Caerdydd nawr yn ymuno ag 19 o ddinasoedd/ardaloedd

eraill yn y DU a 119 o ddinasoedd/ardaloedd eraill ledled y byd sy'n dal y statws hwn. Mae'r dynodiad yn cynnig cyfleoedd pellach i gydweithio a datblygu â dinasoedd/ardaloedd eraill yn y DU a thrwy'r byd.

Er mwyn cynnal ymgyrch Dinas Parc Cenedlaethol yng Nghaerdydd, cafodd pwyllgor rheoli ei ethol yn nhymor y gwanwyn 2022. Mae'r pwyllgor wedi gwneud cais ffurfiol i gofrestru DPC Caerdydd fel elusen, ac yn disgwyl canlyniad y cais hwnnw. Mae'r Sefydliad Dinas Parc Cenedlaethol yn cynnwys yr ymgyrch sy'n egino yng Nghaerdydd mewn cais Treftadaeth Genedlaethol wedi'i gyllido gan y Loteri, ynghyd â DPC Glasgow, er mwyn sicrhau adnoddau i wneud trefniadau ar gyfer hyn.

Mae nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden y Cyngor yn ystod y flwyddyn wedi parhau i wella. Er nad ydynt wedi cyrraedd lefelau cyn Covid eto, cynyddodd nifer yr ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth i 6,315 yn 2022/23, o gymharu â 5,008 yn 2021/22. Er gwaethaf pwysau sylweddol ar y gyllideb, mae'r Cyngor wedi parhau i fod wedi ymrwymo i gadw ei holl ganolfannau hamdden ar agor, ac i gadw a gwella lefel y gwasanaeth. Yn dilyn adolygiad o'r Contract Gwasanaethau Hamdden â GLL, y fenter gymdeithasol sydd â'r contract i weithredu wyth o ganolfannau hamdden y Cyngor, cytunodd y Cabinet ar nifer o amrywiadau i wella perfformiad ariannol y contract ym mis Hydref 2022. Roedd hyn yn cynnwys cytundeb mewn egwyddor i uwchraddio'r seilwaith ynni ym mhob canolfan hamdden i ddarparu ynni adnewyddadwy rhatach. Nododd Adolygiad Dilynol y Gwasanaethau Hamdden a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ym mis Hydref 2022 fod "gweledigaeth glir ar gyfer hamdden yn y ddinas, wedi'i chefnogi gan strategaeth pum mlynedd", a bod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i lywodraethu a goruchwylio contract GLL.



# Amcan Llesiant 5:
# Prifddinas sy’n gweithio dros Gymru

### Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 oedd:

- Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru
- Arwain rhaglen adfer ar gyfer Canol y Ddinas a’r Bae
- Cefnogi arloesi a datblygu busnes, gyda phecyn gwell o ymyriadau i helpu’r sectorau yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y pandemig
- Cefnogi adferiad y sector diwylliannol a’r rhaglen digwyddiadau mawr



## Asesiad Strategol

Gan adeiladu ar y bartneriaeth agos â'r sector preifat, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth gefnogi economi'r ddinas drwy ddarparu cymorth busnes, rhaglen ddiwylliannol a rhaglen ddigwyddiadau, a phortffolio o weithgarwch adfywio. Mae'r amodau economaidd yn heriol, yn effeithio ar hyder a buddsoddiad busnes, ac ar gyflawni prosiectau adfywio a datblygu'r Cyngor a'i bartneriaid.

Mae economi Caerdydd yn parhau i ysgogi twf cyflogaeth yng Nghymru ac mae ei pherfformiad yn gryf o gymharu â Dinasoedd Craidd eraill y DU. Mae diweithdra yn y ddinas, er ei fod yn uwch na chyfartaledd Cymru, yn gostwng, gydag ond dwy ddinas graidd, Caeredin a Bryste, yn perfformio'n well na Chaerdydd (yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf o 2022). Yn ogystal â hyn, mae'r Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) fesul pen o'r boblogaeth yn cynyddu, ac er ei fod yn cynrychioli'r ffigur uchaf yng Nghymru, mae'r gwerth hwnnw hefyd yn uwch na'r rhan fwyaf o ddinasoedd craidd, gydag ond Caeredin, Manceinion, Glasgow a Bryste o flaen Caerdydd (yn seiliedig ar ffigurau o 2021). Er mwyn cynyddu cynhyrchiant mae'r ffocws yn parhau ar ddarparu rhagor o swyddi, a swyddi gwell, gyda'r Cyngor yn gweithredu i greu a diogelu 1,375 o swyddi yn ystod y flwyddyn, sy'n llawer uwch na'r targed.

Mae gwaith yn parhau i symud ymlaen â phortffolio'r Cyngor o brosiectau graddfa fawr, gan gynnwys y Sgwâr Canolog, y Cei Canolog, Ardal y Gamlas, yr Arena Dan Do, Glanfa Iwerydd a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Fodd bynnag, mae rhaglen gyfalaf y Cyngor wedi'i rhoi mewn perygl yn sgil chwyddiant costau sylweddol, yn enwedig ym mhris deunyddiau adeiladu a llafur, a chyfnodau arweiniol hirach oherwydd diffyg argaeledd sy'n achosi oedi yn amserlenni cyflawni rhai prosiectau.

Mae economi canol y ddinas wedi adlamu; mae nifer yr ymwelwyr wedi gwella i ychydig yn llai na lefelau cyn y pandemig, gyda'r ffigurau bron â chyrraedd 43m ar gyfer y flwyddyn, ac mae digwyddiadau byw a diwylliannol, yn ogystal â'r sîn gerddorol, wedi dychwelyd. Mae'r ffocws ar ailadeiladu darpariaeth ddiwylliannol a digwyddiadau'r ddinas yn parhau, gan sicrhau cymaint o effaith yn sgil ei hasedau creadigol a diwylliannol, er bod adennill incwm yn lleoliadau'r Cyngor yn parhau i fod yn her. Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar fusnesau lleol, gyda chostau ynni, prinder staff a gostyngiad yn hyder prynwyr yn heriau mawr. Yn ôl yr arfer, bydd y Cyngor yn parhau i weithio ochr yn ochr â sefydliadau sector preifat y ddinas i ddatblygu ymateb cydgysylltiedig.

## Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru

Mae Caerdydd wedi gweithio ochr yn ochr â Phrifddinas Ranbarth Caerdydd i ddatblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, rhaglen gyllido newydd Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu rhanbarthol. Cadarnhawyd y dyraniad rhanbarthol ym mis Ionawr 2023, gyda Chaerdydd yn cael dyraniad o £42 miliwn dros ddwy flynedd a hanner o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, sy'n cyllido ystod o fentrau cymorth busnes, trafnidiaeth, sgiliau a diogelwch cymunedol lleol. Mae swm cychwynnol o £3.34m wedi'i hawlio ar gyfer 2022/23.

Yn ogystal â hyn, sicrhaodd Cyngor Caerdydd £50m o gyllid o Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU ar gyfer cyswllt Metro Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd rhwng canol y ddinas a Bae Caerdydd. Ceir £50m o arian cyfatebol ar gyfer y prosiect hwn drwy grant gan Lywodraeth Cymru, gan olygu bod cyfanswm o £100m wedi'i sicrhau i weithredu Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd.

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos drwy'r Brifddinas Ranbarth ar ystod o fentrau datblygu economaidd a buddsoddi, ac ar drafnidiaeth a chynllunio strategol. Mae Caerdydd wedi chwarae rhan weithredol yn natblygiad y Brifddinas Ranbarth ers iddi gael ei sefydlu, ac mae'r Cyngor wedi derbyn cymorth drwy Fargen y Ddinas a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys buddsoddiad uniongyrchol yn y diwydiannau gwyddorau bywyd, technoleg ariannol a chreadigol. Mae'r ddinas hefyd yn elwa ar gynlluniau cyllido sefydledig fel y Gronfa Buddsoddi Tai, Cynllun Graddedigion Prifddinas Ranbarth Caerdydd. a'r cynllun Metro a Mwy. Yn ogystal â hyn, mae'r prosiect hefyd yn cefnogi ailddatblygu'r Orsaf Ganolog yn rhan o'r cynllun Metro Canolog. Dros y flwyddyn nesaf, bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio' agos â Phrifddinas Ranbarth Caerdydd wrth iddo drosglwyddo i fodel Cydbwyllgor Corfforaethol.

## Arwain rhaglen adfer ar gyfer Canol y Ddinas a'r Bae

Mae gwaith i adfywio canol y ddinas fel lleoliad i fuddsoddi ac ar gyfer busnesau wedi parhau'n llwyddiannus. Bu cynnydd da yn nifer yr ymwelwyr â chanol dinas Caerdydd eleni, gyda'r ffigurau'n cyrraedd lefelau cyn y pandemig (42.95m yn 2022/23 o gymharu â 44.86m yn 2019).

Mae cynnydd datblygiad y Cei Canolog yn dal i fynd rhagddo'n dda. Yn ystod y flwyddyn, mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau ar gyfer Cam Preswyl 1, sy'n cynnwys 715 o gartrefi. Mae trafodaethau manwl wedi'u cynnal â Llywodraeth Cymru, Rightacres a Thrafnidiaeth Cymru er mwyn dod i gytundeb ynghylch darparu'r Maes Parcio Aml-lawr, gyda'r telerau'n cael eu negodi yn ystod Chwarter 4. Bydd cwblhau'r Maes Parcio Aml-lawr yn garreg filltir allweddol a fydd yn rhyddhau'r ardaloedd sy'n weddill ar y safle i'w datblygu.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgysylltu mewn modd adeiladol â datblygwyr i geisio cael unedau swyddfa o ansawdd uchel o fewn cynigion ailddatblygu, ac yn enwedig i drafod y cyfleoedd a gynigir ar y lloriau gwaelod. Mae arwynebedd y gofod swyddfa yr ymrwymwyd iddo dros y cyfnod treigl dwy flynedd y targed, sef ychydig o dan 250,000 troedfedd sgwâr, fymryn yn is na'r targed o 300,000 troedfedd sgwâr. Mae effaith chwyddiant costau adeiladu yn debygol o gael effaith yn y tymor byr yn nhermau lefelau datblygu, ond mae'r farchnad swyddfeydd yn dal i fod ar i fyny yng Nghaerdydd, gyda Data Meddiannu Swyddfeydd Caerdydd gan Savills yn nodi *"mai'r cyfanswm a feddiannwyd yn Chwarter 1 oedd 78,000 troedfedd sgwâr. Roedd y defnydd wedi'i wasgaru ar draws 26 o drafodion a gwblhawyd, sef y nifer fwyaf o drafodion a gwblhawyd yn Chwarter 1 ers 2019, a 24% yn uwch na chyfartaledd pum mlynedd y farchnad."*

Yn rhan o Gynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas, mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â busnesau ar faterion fel strategaethau dychwelyd i'r gwaith a'r argyfwng costau byw. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn rhannu arferion gorau ymhlith busnesau yng nghanol y ddinas, a hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu modelau manwerthu newydd - gan gynnwys elusennau a busnesau cymunedol - i godi lefelau'r ymwelwyr eto. Ar ben hynny, rydym yn gwneud cynnydd o ran sicrhau bod canol y ddinas yn lanach, yn saffach ac wedi'i gynnal a'i gadw'n well, gyda thîm rheoli canol y ddinas yn cydgysylltu gweithgarwch yn effeithiol â phartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gyda dyraniad o £0.5 miliwn i'w cefnogi drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae gwaith wedi mynd rhagddo gyda'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Rhaglen y Metro Canolog, gan gynnwys llofnodi'r Cytundeb Cydweithredu cyfreithiol rhwng Trafnidiaeth Cymru a Phrifddinas Ranbarth Caerdydd yn Chwarter 3. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r Achos Busnes Llawn yw Mai 2024. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â gwelliannau i orsafoedd yn mynd rhagddynt, gan gynnwys uwchgynllunio ochr ddeheuol gorsaf drenau Canol Caerdydd.

Roedd agor camlas gyflenwi'r Doc ar Ffordd Churchill yn garreg filltir bwysig tuag at greu ardal newydd y Gamlas, er bod problemau wrth ddylunio ac amseroedd yn disgwyl am gynnyrch wedi ymestyn y cyfnod adeiladu. Bellach, rhagwelir y bydd y cynllun yn agor i'r cyhoedd yn hwyr yn nhymor yr haf 2023.

Mae cynnydd yr Arena Dan Do amlbwrpas wedi parhau, gyda'r Cyngor yn anelu i ymrwymo i Gytundeb Cyllido Datblygiad eleni, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet. Oherwydd yr amgylchiadau economaidd, mae cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu wedi effeithio ar y prosiect, gan olygu bod angen adolygiad cynhwysfawr a dyluniadau diwygiedig, sydd wedi achosi oedi cyn ymrwymo i'r Cytundeb Cyllido Datblygiad.

Mae cynnydd da wedi'i wneud ar gam nesaf y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, gan gynnwys caffael tir a'r Arena Iâ gan Greenbank ym mis Rhagfyr 2022. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023 i gymeradwyo'r strategaeth waredu derfynol a'r buddsoddiad mewn seilwaith.

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diogelu ac adfywio diwylliant ac adeiladau hanesyddol y Bae, gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu'r Gyfnewidfa Lo yn y dyfodol a chodi cerflun i ddathlu bywydau Torwyr Cod Rygbi Bae Caerdydd.

Yn yr un modd â phob prosiect o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor, mae chwyddiant costau, yn enwedig o ran deunyddiau adeiladu a llafur, wedi achosi risg allweddol y mae angen ei rheoli mewn modd rhagweithiol dros y flwyddyn sydd i ddod. Yn ogystal â hynny, mae anwadalrwydd y farchnad adeiladu o ran argaeledd llafur a deunyddiau hefyd wedi creu bygythiad mawr. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod capasiti ac adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i brosiectau o'r fath i sicrhau cyn lleied o oedi ag sy'n bosibl.

**Cefnogi arloesi a datblygu busnes, gyda phecyn gwell o ymyriadau i helpu'r sectorau yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y pandemig**

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi datblygiad seilwaith busnesau bach, gan helpu Tramshed Tech yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn i ehangu ei gydweithfa yng nghanol y ddinas drwy'r cynllun Trawsnewid Trefi. Bydd

hyn yn creu gofod ychwanegol ar gyfer busnesau seiliedig ar wybodaeth yng Nghaerdydd, gan helpu i gynnig platfform er mwyn sicrhau llwyddiant rhai o fentrau newydd mwyaf arloesol y ddinas. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda chwmni cyfryngau digidol mawr i ailddefnyddio swyddfeydd eilaidd yn Sgwâr Callaghan, a fydd yn creu hyd at 500 o swyddi. Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda FinTech Cymru ar uned hybu a gofod i fusnesau newydd yng nghanol y ddinas sy'n gweithio ym maes Technoleg Ariannol, gyda chynlluniau ar gyfer gweithdai pellach yn nwyrain y ddinas yn cael eu datblygu.

At ei gilydd, mae'r perfformiad wedi bod yn galonogol o ran nifer y swyddi newydd a gafodd eu creu a'u diogelu lle cymerodd y Cyngor ran weithredol, gyda 1,375 o swyddi newydd neu wedi'u diogelu yn erbyn targed blynyddol o 1,000.

Mae gwaith yn parhau i gefnogi twf mentrau creadigol yn y ddinas, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer prosiect Strength in Places newydd Media.Cymru, cydweithrediad gwerth £50m i hyrwyddo ymchwil a datblygu yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda pherchnogion Campws y Parc Gwyddoniaeth yn Coryton i ddenu buddsoddiad i'r lleoliad ac i gefnogi eu cais cynllunio. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddenu buddsoddiad mewn meddyginiaeth fiodebyg i'r rhanbarth.

Mae'r cais cynllunio ar gyfer datblygiad Parcffordd Caerdydd hefyd wedi'i alw i mewn gan Lywodraeth Cymru, gan achosi oedi i'r amserlenni cyflawni a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cynnig drwy nodi tir sy'n eiddo i'r Cyngor a allai liniaru colli'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Cyflwynwyd Datganiad Achos, wedi'i baratoi gan swyddogion Cyngor mewn ymgynghoriad â chynghorwyr cyfreithiol, i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ym mis Ebrill 2023, gan bennu dyddiad ar gyfer ymchwiliad ym mis Gorffennaf 2023.

Ni chafwyd rhyw lawer o gynnydd gyda Map Ffordd Dinas Glyfar, ac roedd angen gwneud llawer o waith cwmpasu traws-adrannol ar gyfer hynny. Nod y Cyngor yw mabwysiadu'r Map Ffordd Dinas Glyfar erbyn mis Mawrth 2024. Bydd y map ffordd yn gweithredu fel catalydd i gydweithio, i feddwl yn arloesol ac i ddylunio gwasanaethau'n well, a bydd yn galluogi'r ddinas i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol.

### Cefnogi adferiad y sector diwylliannol a rhaglen digwyddiadau mawr

Effeithiodd y pandemig ar y sector diwylliannol yn arbennig, gyda lleoliadau'n gorfod cau eu drysau a rhaglen digwyddiadau mawr Caerdydd wedi'i gohirio. Mae'r ddinas wedi gweithio'n galed i ailadeiladu ei harlwy diwylliannol a'i digwyddiadau, gan fanteisio i'r eithaf ar ei hasedau creadigol a diwylliannol. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi cefnogi Bwrdd Cerddoriaeth y ddinas, ac yn ystod Chwarter 4 llwyddwyd i sicrhau cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi cyflawni strategaeth Cerddoriaeth Caerdydd.

Mae effaith barhaus Covid-19 ar y sector lletygarwch yn parhau i fod yn amlwg, ac mae hynny, ochr yn ochr â phrinder sgiliau, yn amharu ar nifer y staff sydd ar gael i gefnogi sioeau a phrosiectau. Nid yw nifer y cwsmeriaid na hyder busnes yn y sector hwn wedi dychwelyd eto i'r lefelau a gafwyd cyn y pandemig.

Yn ogystal â hynny, mae'r argyfwng costau byw wedi lleihau swm yr incwm gwario sydd gan lawer i'w wario ar ddigwyddiadau a diwylliant. Gwelir effaith hyn yn y niferoedd llai sy'n ymweld â lleoliadau'r Cyngor, sef 539,998 o ymwelwyr o gymharu â 587,757 yn ystod 2021/22 (nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â ffigurau'r blynyddoedd cynt gan fod rhai lleoliadau wedi'u trosglwyddo i drydydd parti). Ar ddiwedd y flwyddyn, adroddodd Diwylliant, Lleoliadau a Digwyddiadau ddiffyg terfynol o £1.232m i'r alldro. Mae hyn yn deillio'n bennaf o ddiffyg mewn incwm yng Nghastell Caerdydd, mewn Digwyddiadau yn Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir, Arlwyo a Neuadd Dewi Sant. Nid yw'r holl digwyddiadau y mae angen treulio mwy o amser yn eu paratoi wedi ailymddangos yn Neuadd y Ddinas. Yn ogystal â hynny, mae'r incwm a gadwyd o'r swyddfa docynnau yn Neuadd Dewi Sant yn is na'r disgwyl gan fod rhai sioeau wedi'u canslo'n hwyr. Yng Nghastell Caerdydd, roedd nifer yr ymwelwyr a dalodd am fynediad 36% yn is, o 277,000 i 278,000 o gymharu â 2019/20. Mae cynyddu ymwelwyr a chynyddu incwm ar draws y gwasanaeth yng Nghastell Caerdydd, yn Neuadd y Ddinas ac yng Nghanolfan Rafftio Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol wrth symud i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

Yn Chwarter 3, cytunodd y Cabinet mewn egwyddor i drosglwyddo Neuadd Dewi Sant i weithredwr preifat. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023 i benderfynu ar weithrediad y lleoliad yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd ar ganol llunio cais i fod yn ddinas groesawu Pencampwriaeth Pêl Droed UEFA Ewrop, a gaiff ei gyflwyno i UEFA yn 2023/24. Dyma gyfle arwyddocaol i osod Caerdydd ar lwyfan chwaraeon y byd.

Ar ôl lansio Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru dros yr haf, bydd y Cyngor yn dechrau datblygu ei Strategaeth Digwyddiadau ei hun, wedi'i llywio gan ymagwedd Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau cysondeb â'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cenedlaethol, mae'r cam hwn yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn nesaf. Ochr yn ochr â hyn, mae achos busnes amlinellol strategol am ŵyl gerddoriaeth ryngwladol flynyddol yn y ddinas wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a byddwn yn bwrw ymlaen i weithio gyda phartneriaid. Gobeithir y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ystod 2023, gyda golwg ar ddod yn ddigwyddiad rheolaidd ar galendr digwyddiadau'r ddinas.



# Amcan Llesiant 6:
# Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn

## Ein blaenoriaethau yn 2022/23 oedd:

- Cyflawni Caerdydd Un Blaned i ddatgarboneiddio’r ddinas ac arwain adferiad gwyrdd
- Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd
- Rhoi lle creiddiol i gynaliadwyedd a llesiant yn nhwf y ddinas
- Gwella amddiffynfeydd llifogydd Caerdydd
- Gwneud ein rhwydwaith priffyrdd yn fwy gwydn
- Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu sy’n arwain y byd
- Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân



## Asesiad Strategol

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni'r Strategaeth Caerdydd Un Blaned, ac yn rhaglen ehangach y Cyngor i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gyda gostyngiad amlwg yn ôl troed carbon y Cyngor. Serch hynny, mae cyrraedd y nod o fod yn Gyngor a dinas Carbon Niwtral erbyn 2030 yn parhau i fod yn her.

Ar lefel dinas, Caerdydd sydd â'r allyriadau CO2 uchaf ond un fesul pen o blith Dinasoedd Craidd y DU, a'r allyriadau o drafnidiaeth a chartrefi sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o ôl troed y ddinas. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â chyfres o brosiectau trafnidiaeth, ynni adnewyddadwy, ôl-osod mewn tai a lliniaru llifogydd â phartneriaid, sydd wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn. Yn debyg i bob prosiect cyfalaf, mae amrywiaeth o bwysau arnynt, gan gynnwys oedi oherwydd prinder deunyddiau a phwysau chwyddiant costau. Effeithiwyd yn arbennig ar brosiectau amddiffyn yr arfordir, gyda chynnydd o fwy na 75% mewn costau o gymharu â'r amcangyfrifon gwreiddiol.

Serch hynny, ar lefel y Cyngor, gwelwyd 13% o ostyngiad mewn allyriadau CO2 gweithredol uniongyrchol rhwng 2019/20 a 2021/22, a hynny'n bennaf oherwydd gostyngiad yn y defnydd o drydan. Yn ogystal â hynny, gwelwyd gwelliannau yn ansawdd yr aer ar draws y ddinas, gyda'r data a gasglwyd yn 2021 o orsafoedd monitro ar draws Caerdydd yn dangos cydymffurfiaeth â'r holl 'werthoedd uchafswm' ar gyfer llygryddion a gwaith monitro ar Stryd y Castell yn dangos cydymffurfiaeth barhaus â therfynau ansawdd aer cyfreithiol.

Er bod perfformiad ailgylchu yn dangos taflwybr cadarnhaol ar i fyny, mae'r ffigur blynyddol o 61.57% (heb ei ddilysu) ar gyfer 2022/23 yn dal yn is na'r targed o 64%, ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn i'r Cyngor gyrraedd y targed o 70% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25. Cymeradwywyd Strategaeth Ailgylchu 2022/25 newydd gan y Cabinet ym mis Medi 2022, sy'n amlinellu rhaglen o newidiadau a gyflawnir gan y Cyngor o hyn allan er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu statudol.

[3] Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael. Effeithiwyd ar y canlyniadau gan gyfyngiadau Covid-19, a oedd mewn grym ar ddechrau 2021.

## Cyflawni Caerdydd Un Blaned

Cyhoeddodd y Cyngor ei ymateb strategol i’r argyfwng hinsawdd – Strategaeth a Chynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned – ym mis Hydref 2021. Ers hynny, mae’r Cyngor a’i bartneriaid wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran nodi blaenoriaethau allweddol ac uchel eu heffaith i’w gweithredu, gan ddatblygu rhaglen gadarn ar gyfer newid, a dechrau cyflwyno gwelliannau pendant i leihau carbon.

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Cyngor y Dadansoddiad Carbon Gweithredol blynyddol cyntaf. Ac eithrio allyriadau ‘anuniongyrchol’ (sy’n gysylltiedig â chaffael), datgelodd y dadansoddiad ostyngiad yn allyriadau gweithredol uniongyrchol y Cyngor o 26,118 tunnell i 22,695 tunnell rhwng 2019/20 a 2021/22 . Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 13 % , gyda’r mwyafrif wedi’i sicrhau drwy ddefnyddio llai o drydan. Serch hynny, er bod y Cyngor wedi lleihau ei allyriadau gweithredol uniongyrchol, allyriadau carbon a gysylltir â chaffael yw’r ffynhonnell fwyaf o allyriadau o hyd, a’r ffynhonnell fwyaf heriol hefyd. Gwnaed cynnydd hefyd wrth sefydlu methodolegau mwy cadarn i fodelu effeithiau gweithgarwch i leihau carbon. Fodd bynnag, mae angen datblygu ymhellach y fethodoleg a ddefnyddir i asesu carbon, ac mae hyn yn broblem a gydnabyddir yn genedlaethol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae prosiectau datgarboneiddio allweddol wedi parhau i gael eu datblygu. Mae gwaith i ddarparu Rhwydwaith Gwres Caerdydd, a fydd yn darparu gwres carbon isel ar gyfer amrywiaeth o adeiladau ym Mae Caerdydd, bellach ar y gweill ac mae gwaith wedi dechrau y tu mewn i adeiladau cwsmeriaid. Mae oedi yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd problemau’n gysylltiedig â’r gadwyn gyflenwi, wedi golygu ychwanegu chwe mis arall at y dyddiad cwblhau. Serch hynny, mae modd ymdrin â’r problemau hyn, heb unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cost. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn codi ynghylch union ddyluniad u Rhwydwaith, yn enwedig y modd y mae’n rhyngwynebu â phrosiectau cysylltiedig Caerdydd, fel yr Arena Dan Do. Mae gwaith cynllunio senarios wedi’i gyflawni i asesu’r effeithiau posibl ar Gynllun Busnes cymeradwy’r prosiect.

Yn ogystal â hynny, mae prinder adnoddau staff ac anawsterau wrth recriwtio wedi effeithio ar raglen y Cyngor i Ôl-osod Mesurau Effeithlonrwydd Ynni mewn Tai. Mae hyn wedi golygu y bu’n rhaid blaenoriaethu prosiectau a thargedu gallu’r gweithlu ac ystyried y prinder staff ar hyn o bryd.

Mae dadansoddiad opsiynau cyflawni wedi’i gwblhau ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy mawr eraill ar dir y Cyngor, ac mae rhaglen weithredu fanwl wedi’i datblygu ar gyfer dau gynllun posibl a allai gynhyrchu bron i 25MW o ynni glân, adnewyddadwy ar gyfer y ddinas.

At hynny, gan fod cyfuniad o heriau cyllidebol ac adnoddau, yn ogystal â phroblemau’n gysylltiedig â’r gadwyn gyflenwi ar draws y sector yn amharu ar y gallu i gaffael Cerbydau Trydan, ni chyrhaeddodd y Cyngor ei darged blynyddol o 100 cerbyd trydan yn 2022/23; llwyddwyd i sicrhau 60 o gerbydau erbyn diwedd y flwyddyn.

At ei gilydd, mae’r newid hinsawdd yn dal i fod yn destun pryder dwys ymhlith y cyhoedd, gydag 81.4 % o ymatebwyr i arolwg Holi Caerdydd yn 2022 yn mynegi pryder ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd. Mae llawer o’r opsiynau cychwynnol i sicrhau ‘enillion cyflym’ wrth leihau Carbon eisoes wedi’u cyflawni, a

[4] Sylwer: Mae hyn yn seiliedig ar y fethodoleg wreiddiol ar gyfer adroddiadau carbon, a ddefnyddiwyd yn strategaeth gyhoeddedig Un Blaned Caerdydd. Ers cyhoeddi’r ddogfen honno, mae fframwaith adroddiadau carbon Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddiwygio, gan symud y ffocws tuag at adroddiadau sy’n seiliedig ar ‘weithgarwch’. Mae’r fethodoleg newydd y golygu ei bod hi’n anodd cymharu’n uniongyrchol rhwng y flwyddyn adrodd gyfredol a llinell sylfaen gyhoeddedig y Cyngor. Gweler yma am ddadansoddiad yn seiliedig ar y fethodoleg newydd.

chydnabyddir bod angen cau bwlch carbon er mwyn i'r Cyngor gyrraedd sero net erbyn 2030. Mae heriau mawr wrth symud ymlaen yn cynnwys gwaith ôl-osod ac inswleiddio graddfa fawr ar draws yr ystâd, cael gwared â thanwydd ffosil o systemau gwresogi, a'r angen i gynyddu cyflenwadau trydan adnewyddadwy yn unol â galw cynyddol am wres trydan. Mae'r holl ymyraethau'n debygol o gynrychioli prosiectau lle mae angen symiau mawr o gyfalaf, ar adeg pan fo rhagolygon cyllidebol y Cyngor ar gyfer y tymor canolig yn dal i fod yn heriol.

**Ansawdd yr aer**

Mae gwella ansawdd yr aer yn flaenoriaeth allweddol i'r ddinas, gyda'r Cyngor wedi ymrwymo i dargedau ansawdd yr aer yn ei strategaethau 10 mlynedd ar gyfer trafnidiaeth a Chaerdydd Un Blaned. Yn 2018, derbyniodd y Cyngor gyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod lefelau llygredd yr aer yng Nghaerdydd – Nitrogen Deuocsid yn benodol – yn is na gwerth terfyn yr UE . Mewn ymateb i hyn, cynhaliodd y Cyngor ddadansoddiad manwl o lefelau llygredd yr aer ar draws y ddinas, lle nodwyd mai Stryd y Castell, un o'r strydoedd pwysicaf a mwyaf canolog yng nghanol y ddinas, fel yr unig stryd nad oedd yn cydymffurfio.

Yn dilyn asesiad manwl, gan gynnwys Astudiaeth Hyfywedd Aer Glân, cytunwyd ar becyn o fesurau i wella ansawdd yr aer yng nghanol y ddinas - ac ar Stryd y Castell yn benodol - a'u cyhoeddi mewn Cynllun Aer Glân i Gaerdydd. Roedd y mesurau a nodwyd yn cynnwys ystod o gynlluniau gwella trafnidiaeth a fyddai, o'u gweithredu, yn gwella ansawdd yr aer ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau cyfreithiol o fewn y cyfnod byrraf posibl.

Cyflymwyd y broses o weithredu yn sgil pandemig Covid-19 i bob pwrpas - gyda chyfres o fesurau trafnidiaeth interim wedi'u gweithredu yng nghanol y ddinas, i sicrhau mynediad diogel i'r cyhoedd a chefnogi adferiad yn y pen draw, gan ailadrodd cynlluniau arfaethedig yn y Cynllun Aer Glân. Yn ôl y disgwyl - ac ystyried y cyfnodau clo cenedlaethol a arweiniodd at ostyngiadau ym maint y traffig - dangosai data a gasglwyd yn 2020 gydymffurfiaeth â therfynau cyfreithiol ar draws yr holl orsafoedd monitro. Mae cydymffurfiaeth wedi parhau bob blwyddyn ers hynny, gyda gwelliannau sylweddol, yn enwedig ar Stryd y Castell. Cofnodwyd cyfartaledd blynyddol o 33.8µg/m3 ar y stryd yn 2022, tra bo data a gasglwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2023 yn dangos cydymffurfiaeth barhaus, gyda chyfartaledd blynyddol rhagamcanol o 33µg/m3 ar gyfer 2023.

Er mwyn i'r Cyngor nodi cynllun trafnidiaeth parhaol i sicrhau y cynhelir cydymffurfiaeth hirdymor ar Stryd y Castell, mae gwaith modelu manwl pellach wedi'i gyflawni ar drafnidiaeth ac ansawdd yr aer - drwy ddefnyddio data ar ôl Covid - ar gyfer yr ardal a'r rhwydwaith oddi amgylch. Mae'r canlyniadau wedi arwain yn y pen draw at y penderfyniad i gadw'r ffordd ar agor ar gyfer traffig cyffredinol yn rhan o'r dull cyffredinol o wella ansawdd yr aer a chaniatáu llif traffig i mewn ac allan o ganol y ddinas.

Er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn parhau drwy'r holl ddinas, mae dyfeisiau monitro ansawdd yr aer wedi cael eu gosod ar draws y ddinas, er mwyn cael darlun gwell o'r tueddiadau o ran llygredd, a phennu ymyraethau pellach i leihau llygredd. Gan gydnabod mai trafnidiaeth yw'r prif ffynhonnell llygredd ar draws y ddinas o hyd, ac nad oes unrhyw lefelau diogel o lygredd aer, mae datblygu system trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol fel dewis arall posibl yn lle teithio mewn car yn flaenoriaeth bwysig. Er mwyn cyflymu'r newid i ddulliau teithio cynaliadwy a darparu'r system trafnidiaeth gyhoeddus dorfol sy'n gymesur â phrifddinas flaenllaw Ewropeaidd, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi y bydd yn ystyried ystod o gynlluniau talu defnyddwyr ffordd. Gall hyn gynnwys taliadau defnyddwyr ffordd: parthau tagfeydd; parthau aer glân; a thaliadau parcio

[5] Mae terfyn cyfreithiol Nitrogen Deuocsid wedi'i osod ar gyfartaledd blynyddol o 40µg/m3.

yn y gwaith. Caiff y cynlluniau hyn eu hasesu yn ôl eu gallu i sicrhau gwelliannau hirdymor i lefelau ansawdd yr aer ar draws y ddinas. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, i sicrhau bod unrhyw fath o daliad posibl yn deg a chyfartal, gydag ymrwymiad i leihau effeithiau'r taliadau ar breswylwyr, y rhai dan yr anfantais economaidd fwyaf, a rhai sy'n gwneud defnydd rheolaidd o'r ddinas a'r rhanbarth.

## Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd

Allyriadau traffig ffyrdd yw un o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at y newid hinsawdd, yn ogystal â llygredd aer. Mewn ymateb i hyn, mae gweledigaeth trafnidiaeth y Cyngor yn pennu rhaglen drawsnewidiol o fuddsoddiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol. Mae cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys sicrhau £50 miliwn o Gyllid Codi'r Gwastad gan Lywodraeth y DU ar gyfer rhan Cam 1 o Gledrau Croesi Caerdydd, o Ganol Caerdydd i Fae Caerdydd, y darparodd Llywodraeth Cymru arian cyfatebol ar ei gyfer. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â gwella gorsafoedd yn datblygu, gan gynnwys uwchgynllunio ochr ddeheuol gorsaf reilffordd Canol Caerdydd, a chanlyniad Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi golygu y bu modd gwrw ymlaen â gwaith astudio Coridor y Dwyrain. Yn ogystal â hynny, mae'r cynllun trafnidiaeth yn y Sgwâr Canolog bellach wedi'i gwblhau, yn ogystal ag astudiaeth 1 WelTAG ar gyfer Coridor Bysiau'r Gogledd. Mae nifer o lwybrau beicio wedi'u darparu hefyd, gan gynnwys lonydd beicio dros dro ar draws Canol y Ddinas a'r Bae a llwybr beicio 1 i Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae gwelliannau hefyd wedi'u cwblhau ar y llwybr beicio ar Stryd Tudor, ac mae gan oddeutu 120 o ysgolion bellach fflydoedd o feiciau.

Mae sawl cynllun eisoes wedi cael ei oedi, gyda'r amserlenni i'w cwblhau wedi'u diwygio. Mae hyn yn cynnwys y Cledrau Croesi, Cam 1 Dwyrain Canol y Ddinas a Stryd y Castell, yn ogystal â darparu gorsafoedd newydd. Felly sefydlwyd trefn lywodraethol gadarn ar gyfer rhaglenni i sicrhau cynnydd parhaus, gan gynnwys y gwaith parhaus o baratoi gwaith astudio, achosion busnes a chynigion cyllid gyda phartneriaid allweddol. Effeithiwyd yn arbennig ar ddau brosiect 'Strydoedd Iach' y Cyngor gan broblemau capasiti a gallu. O ganlyniad i hynny, mae'r cynlluniau wedi cael eu hailbroffilio a byddant yn cael eu datblygu ar ffurf addasedig.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod â chyllid y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau i ben yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2023 wedi dod i'r amlwg fel risg sylweddol a fydd, oni chaiff ei liniaru, yn creu bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth bysiau ar draws y ddinas, lle nad yw gweithredwyr yn disgwyl i lwybrau fod yn fasnachol hyfyw. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i hwyluso trosglwyddiad i rwydwaith bysiau newydd ac yn cynnal rhaglen waith ehangach er mwyn helpu i sicrhau bod cwmnïau bws trefol yn gynaliadwy o hyn allan.

Yn sgil oedi wrth gyhoeddi'r ymgynghoriad ar Strategaeth y System Drafnidiaeth Ddeallus, a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2023, mae'r amserlen ar gyfer paratoi'r Strategaeth derfynol yn destun adolygiad. Mae gwelliannau drwy fentrau'r System Drafnidiaeth Ddeallus yn dal i gael eu datblygu; fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar gyllid.

Mae cyflawniad prosiectau trafnidiaeth strategol yn aml yn ddibynnol ar waith partneriaeth llwyddiannus â Llywodraethau Cymru a'r DU, yn ogystal â'r llwyddiant i sicrhau cyllid allanol. Nid yw lefelau'r cyllid trafnidiaeth strwythurol a ddarperir yn flynyddol ar hyn o bryd ond yn cynrychioli 10-15% o'r lefelau sydd eu hangen i gynrychioli newid sylweddol sydd ei angen i ansawdd y rhwydwaith trenau, tramiau, bysiau a beiciau er mwyn cyflawni'r amgylchedd trafnidiaeth carbon isel ac iach a ddarluniwyd drwy'r ddinas. Heb lefelau sylweddol o seilwaith cefnogol - y tu hwnt i'r hyn a ddarparwyd eisoes - bydd y Cyngor yn ei chael hi'n heriol cyrraedd ei dargedau i newid dulliau teithio.

Er mwyn bwrw ymlaen â’r rhaglen o brosiectau a gwelliannau i drafnidiaeth strategol ar y cyflymder a’r raddfa a ddymunir, mae angen newid sylweddol na ellir ond ei sicrhau drwy ddatblygu ffynhonnell newydd o gyllid hirdymor ar gyfer seilwaith. Er mwyn sicrhau’r lefel sylweddol o gyllid sydd ei hangen, fel yr amlygwyd, mae’r Cyngor wedi penderfynu ystyried ystod o gynlluniau taliadau defnyddwyr ffordd o hyn allan.

### Rhoi lle creiddiol i gynaliadwyedd a llesiant yn nhwf y ddinas

Un o ddyheadau allweddol y ddinas yw darparu cymunedau newydd o ansawdd uchel sydd wedi’u cynllunio’n dda ac sydd â chysylltiadau da. Ers mabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 2016, mae dros 6,000 o gartrefi newydd – gan gynnwys 1,500 o gartrefi fforddiadwy newydd – wedi cael eu darparu, ac 8,000 o swyddi newydd wedi’u creu. Ar ben hynny, mae’r CDLl wedi hwyluso trafnidiaeth gynaliadwy a theithiau llesol ar draws y ddinas, a gwarchod y Lletem Las rhag datblygiadau amhriodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae darpariaeth safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi parhau drwy gwblhau ceisiadau cynllunio ac adeiladu cartrefi newydd, cyfleusterau a seilwaith hanfodol, yn unol ag egwyddorion uwchgynllunio a chreu lleoedd da. I gyd-fynd â hyn, mae adolygiad llawn o’r CDLl yn parhau i gael ei ddatblygu wrth i’r Cyngor weithio i greu CDLl newydd, a fydd o gymorth i siapio datblygiad yng Nghaerdydd hyd at 2036. Er bod llawer o waith wedi’i gyflawni, mae’r broses o baratoi’r Strategaeth a Ffafrir, a’r ymgynghoriad dilynol ar y Strategaeth honno, wedi cael eu gohirio o fis Ionawr hyd fis Mehefin 2023. Gwnaed hyn fel bo modd rhoi ystyriaeth lawn i’r dystiolaeth ddiweddaraf yn gysylltiedig ag anghenion tai, yn seiliedig ar y ffigurau poblogaeth diwygiedig ar ôl rhyddhau Cyfrifiad 2021 a diweddariad yr Asesiad Marchnad Dai Leol. Gan edrych i’r dyfodol, mae amserlen ddiwygiedig ar gyfer adolygu’r CDLl wedi’i chytuno a’i chyhoeddi, gyda’r nod o’i mabwysiadu ym mis Tachwedd 2025. Bydd yr amserlen ddiwygiedig yn galluogi’r Cyngor i roi ystyriaeth lawn i’r modd y gall y Cynllun gyflawni blaenoriaethau corfforaethol yn effeithiol, ac ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur a ddatganwyd gan y Cyngor.

Bu gostyngiad yng nghanran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn cyfnodau cytunedig o amser; y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn oedd 77.69% yn erbyn targed o 85%. Mae nifer o ffactorau’n cyfrannu at y gostyngiad mewn perfformiad, sy’n cynnwys swyddi gwag ymhlith y staff a gofynion llwyth gwaith digynsail. Mae technoleg newydd yn cael ei defnyddio a fydd yn helpu Swyddogion i gwblhau ceisiadau mewn modd amserol.

Mae’r adolygiad o Flaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, y mae’n ofynnol i’r Cyngor ei gynhyrchu o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, wedi cael ei ohirio hyd 2023 oherwydd anawsterau wrth ganfod ecolegydd â chymwysterau addas. Mae Prif Ecolegydd bellach yn ei swydd a bydd yn gweithio gyda’r Grŵp Swyddogion Seilwaith Gwyrdd a Thîm Caerdydd Un Blaned i ddatblygu Blaengynllun BRED, y disgwylir iddo gael ei ddiweddaru erbyn mis Medi 2023 a’i gyflwyno i’r Cabinet ym mis Tachwedd 2023. Mae diogelu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i’r Cyngor a’i bartneriaid, a’r strategaeth a ffafrir wrth symud ymlaen fydd canolbwyntio ar sicrhau bod pob datblygiad yn creu enillion net o ran bioamrywiaeth, ac y bydd yn cael cyn lleied o effaith ag sy’n bosibl ar asedau amgylcheddol Caerdydd. Er enghraifft, bydd y gefnen strategol bwysig i’r gogledd o’r M4 yn cael ei gwarchod ac yn parhau i greu cefndir gwyrdd hynod bwysig i’r ddinas, ynghyd ag ardaloedd eraill o gefn gwlad o amgylch y ddinas. Yn bwysig, mae mannau agored a dyffrynnoedd afonydd yn yr ardal drefol wedi’u hamddiffyn. Fel cyfanswm, caiff llawer mwy na 5,500 o hectarau o gefn gwlad a dyffrynnoedd afon strategol sy’n torri drwy’r ardal drefol eu gwarchod rhag datblygiad.

## Llifogydd ac erydu arfordirol

Dywedodd y panel rhynglywodraethol ar y Newid Hinsawdd (IPCC), yn ei chweched adroddiad asesu (2023), y disgwylir i'r risg yn gysylltiedig â chynnydd yn lefel y môr gynyddu erbyn diwedd y ganrif os na cheir unrhyw ymdrechion i amddiffyn neu addasu ar raddfa fawr. Yn ôl cynllun rheoli traethlin Cyngor Caerdydd yn sefydlu bod angen senario 'cynnal y llinell', a bydd amddiffynfeydd môr newydd y ddinas yn sicrhau lefel uwch o amddiffyniad i fwy na mil o gartrefi. Mae'r Cyngor hefyd wedi amlinellu rhaglen gynhwysfawr i amddiffyn rhag llifogydd sydd wedi cynnwys mentrau fel Grangetown Gwyrddach ac ystod o gynlluniau Draeniau Trefol Cynaliadwy eraill. Yn ogystal â lliniaru ac ymaddasu i ddigwyddiadau tywydd eithafol, mae hyn yn helpu i leihau'r galw a fyddai fel arall yn cael ei greu ar y system garthffosiaeth, ac yn cynnig cyfleoedd i wella bioamrywiaeth yn ardaloedd trefol Caerdydd.

O ran gwelliannau i amddiffyn yr arfordir yn Nwyrain Caerdydd, er gwaethaf y penderfyniad i beidio bwrw ymlaen ag ochr ddwyreiniol y cynllun, cynigwyd cynllun llai ar dendr yn Chwarter 3 o 2022/23, ac arweiniodd proses asesu lwyddiannus at ddewis contractwr. Yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Achos Busnes Llawn, disgwylir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 2023/24. Mae amrywiaeth o ffactorau wedi rhoi pwysau ar ddatblygiad y prosiect hwn, sy'n golygu ei bod hi'n annhebygol y bydd yr ymrwymiad i gwblhau'r gwelliannau amddiffyn yr arfordir erbyn 2024 yn cael ei gyflawni. Mae hyn oherwydd ffactorau sy'n cynnwys oedi'n gysylltiedig â Covid-19, cynnydd mewn costau o fwy na 75% yn erbyn amcangyfrifon gwreiddiol, a heriau o ran capasiti o fewn y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae pwysau hefyd wedi achosi oedi wrth ddatblygu'r Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Cynaliadwy ar gyfer Caerdydd, fel sy'n ofynnol yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009). Mae prinder adnoddau staff yn Nhîm Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor - a waethygwyd gan broblemau recriwtio yn sgil prinder arbenigedd yn y farchnad lafur gyfredol - yn golygu bod y raddfa amser ar gyfer cwblhau'r strategaeth wedi cael ei hymestyn hyd fis Mawrth 2024. Mae cam cyntaf yr ymgynghoriad ar y strategaeth wedi'i gwblhau, a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi yn Chwarter 1 2023/24.
Ar ben hyn, mae gwaith ar y gweill i fwrw ymlaen â'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol ar gyfer y rhanbarth. Yn wreiddiol, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r holl awdurdodau lleol gwblhau eu hasesiadau erbyn mis Tachwedd 2022; fodd bynnag, cytunwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y rhanbarth y dylid oedi'r asesiad i sicrhau ei fod yn seiliedig ar ganllawiau Perygl Llifogydd newydd sydd i gael eu cyhoeddi'n fuan gan Lywodraeth Cymru.

## Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu sy'n arwain y byd

Mae'r Cyngor wedi gweithredu rhaglen ddiwygio graddfa fawr ar ei wasanaethau gwastraff a chasgliadau er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon a chydnerth. Yn rhan o hyn, trosglwyddwyd i fodel casgliadau 4 diwrnod, sydd wedi lleihau swm y gwastraff ar y strydoedd a chael gwared â'r aflonyddwch a achoswyd yn wreiddiol gan y gwyliau banc. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd y Cyngor Strategaeth Ailgylchu 2022-25 newydd yn amlinellu rhaglen o ddiwygiadau er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu statudol. Roedd hyn yn cynnwys ehangu cynllun ailgylchu newydd didoli ar ochr y stryd, i wella ansawdd y deunyddiau a gesglir i'w hailgylchu o gartrefi preswylwyr.

Mae perfformiad ailgylchu yn amrywio drwy gydol y flwyddyn gan fod y tunelli o wastraff a gesglir yn

amrywio bob mis. Er hynny, mae perfformiad ailgylchu yn gwella o'r naill flwyddyn i'r nesaf ar y cyfan, gan ddangos bod y rhaglen o ddiwygiadau'n dechrau dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, mae'r ffigur blynyddol ar gyfer 2022/23 o 61.57% (heb ei ddilysu) yn dal i fod yn is na'r targed, ac mae angen gwneud gwaith pellach i gyrraedd y targed o 70% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25. Gall peidio cyrraedd targedau statudol arwain at gosbau ariannol gan Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, mae'r gwelliant ym mherfformiad ailgylchu yn golygu bod y gosb ariannol wedi'i gostwng o £2m i £750k. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal trafodaeth reolaidd â Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau wrth iddi weithio tuag at gyrraedd y targed ailgylchu o 70% yn 2024/25, ac mae'r Strategaeth Ailgylchu newydd yn cynrychioli cam sylweddol tuag at lasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu yng Nghymru. Ar ben hynny, mae cyfathrebu ynghylch y rhaglen o ddiwygiadau yn parhau i fod yn agwedd hanfodol ar y gwaith hwn - dim ond un o bob tri (35.85% ) sydd ar hyn o bryd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud digon i hysbysu'r preswylwyr ynghylch sut i ailgylchu a beth i'w ailgylchu, felly mae angen gweithio i wella hyn.

Adroddodd Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth orwariant net o £2.213 miliwn yn alldro 2022/23; priodolwyd hyn i gynnydd mewn costau'n gysylltiedig â staffio a cherbydau, gyda'r sefyllfa ond wedi'i lliniaru'n rhannol drwy gadw cyfran o'r gwarged a gynhyrchwyd yn y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol.

Wrth symud ymlaen, rhoddir ffocws ar gyflawni'r rhaglen o welliannau ailgylchu ac ailddefnyddio y manylir arnynt yn y Strategaeth Ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys ehangu trefniadau ailgylchu deunyddiau wedi'u gwahanu i aelwydydd - ac eithrio fflatiau a thai amlbreswyl - gan ddefnyddio sachau a chadis ailddefnyddadwy i leihau'r angen am sachau plastig un defnydd, adolygu ehangu gwasanaethau casglu ochr ffordd i gynnwys eitemau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu casglu ar ochr y ffordd, yn ogystal ag adolygu dulliau o leihau gwastraff gweddilliol. Bydd ymgyrch gyfathrebu a gwybodaeth yn cael ei chynnal i gefnogi'r gwaith hwn, wedi'i dylunio i helpu preswylwyr i ddeall pa newidiadau sydd eu hangen, a'r rhesymau amdanynt.

## Glanweithdra Strydoedd

Mae gwaith yn mynd rhagddo, mewn partneriaeth, i wneud strydoedd Caerdydd yn lanach, gyda chynnydd mewn glanweithdra cyffredinol wedi'i gofnodi dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn unol â rhaglen i ddiwygio gwasanaethau a gwella glanweithdra strydoedd yng Nghaerdydd, mae timau 'Blitz' Carwch Eich Cartref wedi cael eu rhoi ar waith ar draws y ddinas, gan dargedu ardaloedd problemus yn arbennig - gan gynnwys Cathays, Plasnewydd, y Sblot a'r Bwa Deheuol - gan godi safonau glanweithdra.

Dengys canlyniadau diwedd blwyddyn fod glanweithdra 92.98% o dir priffyrdd a arolygwyd gan yr Awdurdod Lleol o safon uchel neu dderbyniol y 2022/23. Serch hynny, adroddodd dwy ran o bump (39.8%) o ymatebwyr i arolwg Holi Caerdydd fod glanweithdra eu hardal leol wedi dirywio dros y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu ag ond 3.4% a deimlai ei fod wedi gwella . Yn ogystal â hynny, roedd y Cyngor yn is na'r targed yn 2022/23 yn nhermau nifer y wardiau yng Nghaerdydd lle'r oedd 90% o'r tir priffyrdd a arolygwyd o safon uchel neu dderbyniol. Ar ddiwedd y flwyddyn, pasiodd 21 o 29 o wardiau'r trothwy 90%, er mai'r targed ar gyfer pob ward oedd canran uwch na 90%. Roedd nifer y Camau Gorfodi Cyfreithiol ar gyfer Gwasanaethau Stryd Amgylcheddol hefyd yn is na'r targed ar ddiwedd y flwyddyn, gyda 10,118 o gamau gweithredu yn erbyn targed o 12,500.

---

[6] Ffynhonnell: Holi Caerdydd 2022

[7] Ffynhonnell: Holi Caerdydd 2022

# Amcan Llesiant 7:
# Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

## Ein blaenoriaethau yn 2022/23 oedd:

- Datblygu rhaglen gynhwysfawr i adfer ac adnewyddu'r sefydliad
- Adeiladu ar ein hagenda ddigidol, ymgorffori technoleg mewn darpariaeth gwasanaeth a manteisio ar ddata i ysgogi perfformiad.
- Darparu adeiladau Cyngor llai gwastraffus a gwyrddach
- Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda Llesiant y staff yn greiddiol iddo
- Defnyddio grym y pwrs cyhoeddus i gefnogi adferiad y ddinas
- Sicrhau bod y Cyngor yn siarad yn well â'r y ddinas y mae'n ei gwasanaethu, ac yn gwrando arni'n well



## Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor o'r farn bod y gwasanaethau a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o foderneiddio ac integreiddio gwasanaethau'r Cyngor yn gadarn, a bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â gwasanaethau digidol a'r defnydd o dechnoleg, gan gefnogi llesiant y staff a chynnal yr ymagwedd at waith hybrid.  Serch hynny, mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau trawsbynciol, yn enwedig o ran cydnerthedd ariannol a'r gweithlu, a bydd angen ffocws corfforaethol ar hyn dros y flwyddyn nesaf.

Er bod y setliad ariannol ar gyfer 2023/24 yn fwy cadarnhaol na'r disgwyl, mae'r Cyngor yn wynebu cryn her o ran y gyllideb ar hyn o bryd, ac yn y tymor canolig. Mae hyn oherwydd bod maint y galw am wasanaethau wedi cynyddu a'r galw hwnnw o natur fwy cymhleth, oherwydd prisiau ynni, pwysau cyflogau, effaith yr argyfwng costau byw, a'r pwysau parhaus yn dilyn y pandemig wrth geisio adennill incwm. Er mwyn parhau i sicrhau cydnerthedd ariannol y Cyngor i'r dyfodol, byddwn yn parhau i arfer dull rhagweithiol o ganfod a gweithredu arbedion.  Mae hyn yn cynnwys adolygu a herio cyllidebau'r hol gyfarwyddiaethau a'i gwneud hi'n ofynnol i bob gwasanaeth sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylfaenol. Ac ystyried yr amgylchedd economaidd ehangach, gan gynnwys chwyddiant uchel, cyfraddau llog sy'n codi, a heriau'n gysylltiedig â llafur a'r gadwyn gyflenwi, bydd angen canolbwyntio'n fanwl ar sefyllfa gyfalaf y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn wynebu sawl her o ran y gweithlu. Mae'r anhawster wrth recriwtio a chadw staff - gan sicrhau capasiti a sgiliau priodol digonol - yn arbennig o ddifrifol o fewn y Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol Oedolion, ond mae hyn hefyd yn cael effaith ar draws yr holl gyfarwyddiaethau ac yn amharu ar gyflawniad yr holl Amcanion Llesiant. Mae mentrau ar wahân ar waith i ymateb ar lefel gwasanaeth a thrwy Strategaeth Gweithlu 2023-2027 newydd y Cyngor a gymeradwywyd yn nhymor y gwanwyn 2023. Bydd hyn yn parhau i fod yn risg strategol i'r Cyngor yn ystod 2023/24.

## Adolygu'r fframwaith cynllunio a chyflawni

Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol cytunodd y Cyngor ar ddatganiad polisi newydd ym mis Gorffennaf 2022- Cryfach, Tecach, Gwyrddach - a nodai flaenoriaethau'r Weinyddiaeth dros y pum mlynedd nesaf. Cafodd y blaenoriaethau polisi hyn eu trosi'n amcanion sefydliadol cyflawnadwy yn rhan o'r broses Cynllunio Corfforaethol ar gyfer 2023-26. Sicrhaodd hyn fod blaenoriaethau'r Weinyddiaeth wedi'u gwreiddio yn fframwaith cynllunio a chyflawni'r Cyngor mewn ymagwedd a oedd yn gyson â'r holl ofynion perfformiad a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Bu Archwilio Cymru yn arsylwi'r broses hon, gan gasglu bod y "Cyngor wedi defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn sail i osod ei Amcanion Llesiant, gan gynnwys defnydd da o'i ddata ac ymagwedd gydweithredol gref". Daeth Archwilio Cymru hefyd i'r casgliad yn ystod y flwyddyn fod y Cyngor "wedi gwneud cynnydd da wrth roi trefniadau ar waith i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)".

Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid o'r gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu'r Cynllun Lles Lleol, strategaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sy'n nodi blaenoriaethau lle mae'n hanfodol i wasanaethau cyhoeddus gydweithio. Mae hyn wedi cynnwys cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu a darparu partneriaethau, i sicrhau bod y trefniadau partneriaeth statudol cymhleth sydd ar waith yn gyson â chyflawniad y Cynllun Llesiant, a bod y partneriaethau hynny'n adrodd wrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bu Archwilio Cymru yn arsylwi proses y Cyngor i osod Amcanion Llesiant ar gyfer 2023/24, gan asesu'r graddau yr oedd Cyngor Caerdydd yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth osod ei Amcanion Llesiant. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad canlynol: "mae'r Cyngor wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn sail i osod ei Amcanion Llesiant, gan gynnwys defnydd da o'i ddata ac ymagwedd gydweithredol gref. Mewn perthynas ag adrodd ar berfformiad daeth yr archwiliad i'r casgliad 'bod gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro ei Gynllun Corfforaethol a'i amcanion llesiant drwy gydol y flwyddyn.' Ar ben hynny, rhoddodd archwiliad mewnol ar raddfa gorfforaethol o Drefniadau Rheoli Perfformiad sicrwydd ynghylch y fframwaith corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad, gan farnu bod y fframwaith hwnnw'n gadarn.

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n ystyried y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i reoli'r Cyngor, ac yn nodi unrhyw gamau gwella a ystyrir yn briodol. Bydd y Datganiad Llywodraethu diweddaraf yn cynnwys dyfarniad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd wedi cytuno yn 2021/22 fod gan y Cyngor reolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith, ac roedd yr agweddau a oedd yn destun pryder wedi'u cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor. Caiff Cynllun Gweithredu sy'n ymateb i unrhyw faterion llywodraethu sylweddol a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei oruchwylio gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, a'i adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol bob dwy flynedd. Nodwyd tri cham gweithredu fel meysydd ffocws ar gyfer gwella llywodraethu yn ystod 2022/23, a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- Ehangu a dyfnhau'r agweddau a oedd yn destun ymchwiliad gan yr UDRh mewn perthynas â chydymffurfiaeth, risg a chanlyniadau.
- Ehangu'r sicrwydd ynghylch ansawdd adolygiadau perfformiad drwy gasglu tystiolaeth ar lefel cyfarwyddiaeth
- Ehangu'r sicrwydd ynghylch ansawdd adolygiadau perfformiad drwy gasglu tystiolaeth ar lefel cyfarwyddiaeth

Mae arfer corfforaethol wedi'i gryfhau'n gysylltiedig â phob un o'r meysydd gweithredu hyn, i'r graddau y gellid pennu bod y camau hyn wedi'u cwblhau. Wrth edrych ymlaen tuag at Gynllun Gweithredu 2023/24, rhagwelir y bydd trefniadau ychwanegol yn cael eu gwneud i alluogi swyddogion sy'n gyfrifol am systemau a phrosesau corfforaethol i ymgysylltu'n uniongyrchol â thimau rheoli cyfarwyddiaethau ar feysydd ymarfer penodol lle gellid bod angen gwella neu ymestyn trefniadau llywodraethu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun amgylchedd cyflawni sy'n esblygu o hyd ac sy'n fwyfwy cymhleth, fel yr amlinellwyd drwyddo draw yn yr Adroddiad Llesiant hwn.

## Cydnerthedd ariannol

Mae trefniadau'r Cyngor i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ar y cyfan ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau, a fydd yn parhau i brofi ei gydnerthedd ariannol.

Nodwyd bwlch yn y gyllideb o £23 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori helaeth â'r cyhoedd, lle cafwyd dros 6,000 o ymatebion, llwyddwyd i nodi a chytuno ar lefelau sylweddol o arbedion - drwy gynyddu effeithlonrwydd y swyddfa gefn, yn ogystal â newidiadau i wasanaethau rheng flaen - er mwyn cau'r bwlch.

Er bod y setliad ariannol ar gyfer 2023/24 yn well na'r disgwyl, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran y gyllideb yn y presennol a'r tymor canolig. Roedd Adroddiad Diweddaru'r Gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023 yn diweddaru'r sefyllfa, gan nodi bwlch dangosol i'r gyllideb o £36.8 miliwn ar gyfer 2024/25 a £119.2 miliwn hyd ddiwedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae'r cynnydd yn y galw am wasanaethau, a natur fwyfwy cymhleth y galw hwnnw, yn enwedig yn y Gwasanaethau Plant, mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Digartrefedd yn creu pwysau ar y gyllideb. Mae'r pwysau mwyaf o fewn y Gwasanaethau Plant, a gellir eu priodoli i gostau lleoli'r garfan o blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod. Yn sgil pwysau parhaus o ran y galw a chynnydd mewn prisiau mae'r costau'n uwch na'r gyllideb, gan adlewyrchu natur gymhleth yr angen ar prinder lleoedd sydd ar gael yn y farchnad breswyl. Yn fwy cyffredinol mae pwysau chwyddiant yn gwthio dyfarniadau cyflog, costau nwyddau a chyfleustodau a brynir gan y Cyngor (fel ynni, bwyd a thanwydd) yn uwch, yn ogystal â chost adeiladu, deunyddiau a gwasanaethau a gomisiynir. Mae pwysau parhaus wrth geisio adennill incwm mewn rhai gwasanaethau yn dilyn y pandemig yn dal i fod yn broblem hefyd. Er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol y Cyngor i'r dyfodol, byddwn yn parhau i arfer dull rhagweithiol o ganfod a gweithredu arbedion. Mae hyn yn cynnwys adolygu a herio cyllidebau'r hol gyfarwyddiaethau a'i gwneud hi'n ofynnol i bob gwasanaeth sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylfaenol.

Bydd angen ffocws clir ar sefyllfa'r gyfalaf, lle ceir hefyd bwysau sylweddol o ran costau yn sgil cynnydd yng nghostau'r gadwyn gyflenwi, y galw am fuddsoddiad i gynnal cyflwr asedau, a rhagdybiaethau ynghylch derbyniadau cyfalaf. Mae'r Rhaglen Gyfalaf a gynigiwyd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar ymrwymiadau hysbys, yn ogystal ag ymrwymiadau newydd a amlinellwyd yn rhaglen y polisi Cryfach, Tecach, Gwyrddach. Bydd angen gwella'r trefniadau llywodraethu wrth weithredu cynlluniau cyfalaf, er mwyn sicrhau bod cyflawniad ac achosion busnes cadarn yn parhau i fod yn hanfodol.

## Llunio agenda ddigidol y Cyngor

Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio a chymhwyso'r cyfleoedd a gynigiwyd drwy dechnoleg i ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy effeithlon, i reoli gwahanol bwysau a lleihau costau. Mae'r Cyngor wedi parhau i ehangu cyfleoedd i ddinasyddion gyrchu gwasanaethau'r Cyngor drwy blatfformau ar-lein. Ymhlith datblygiadau eleni y mae'r gallu i ddinasyddion adrodd am graffiti a gwirio trwyddedau parcio digidol drwy wefan y Cyngor, Chatbot ac ap CardiffGov. Mae niferoedd cynyddol o ddinasyddion yn symud tuag at gyfleusterau digidol yn sgil hyn, gyda thros 74,000 o bobl wedi cofrestru ar Ap CardiffGov, sy'n uwch na'r targed o 69,700.

Er bod nifer y cysylltiadau gan gwsmeriaid â'r Cyngor y defnyddio sianelau digidol yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r nesaf, roedd perfformiad fymryn yn is na'r targed yn 2022/23. Mae hyn oherwydd newidiadau i wasanaethau sy'n defnyddio sianeli digidol, yn ogystal â'r ffaith bod y galw wedi sefydlogi yn dilyn uchafbwynt yn 2020 yn sgil y pandemig.

Gan edrych i'r dyfodol, wrth i'r Cyngor fanteisio'n gynyddol ar ddatrysiadau technolegol a digidol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth, byddwn yn canolbwyntio ar Awtomeiddio Prosesau Robotig - defnyddio technolegau awtomeiddio i gyflawni tasgau swyddfa gefn ailadroddus. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael ar blatfformau ar-lein i newid y galw i sianelau cost is. I gefnogi hyn, canolbwyntir ar alluogi preswylwyr i newid i gyfleusterau digidol ac adolygu gwasanaethau cwsmeriaid i sicrhau bod trefniadau cymorth cwsmeriaid yn gweithredu'n effeithiol, wrth i'r Cyngor barhau â'r broses o newid i fodel gweithio hybrid.

Wrth ymdrechu i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir drwy dechnolegau newydd ac egin-dechnolegau, mae'r Cyngor yn parhau fod yn ymwybodol o'r risgiau cysylltiedig o ran seiberddiogelwch. Mae'r Cyngor yn defnyddio fframwaith y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i asesu lefel aeddfedrwydd y seiberddiogelwch yn barhaus, ac mae'n cysylltu ag asiantaethau seiberddiogelwch, i roi mesurau rhagweithiol ar waith i atal ymosodiadau, a mesurau adweithiol i leihau effaith digwyddiadau posibl a rheoli'r canlyniadau. Ym mis Medi 2022, enillodd y Cyngor sicrwydd Lefel Aur drwy Achrediad IASME Seiberddiogelwch.

## Darparu adeiladau Cyngor gwyrddach a llai gwastraffus

Mae gan Gyngor Caerdydd ystâd sylweddol, gan gynnwys adeiladau gweithredol ac ar brydles. Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn berchen ar 750 eiddo, a chanddynt werth cyfredol o £1.6 biliwn. Ac ystyried maint ystâd y Cyngor, mae ei rheoli, ei gweithredu a'i chynnal yn gryn her, yn enwedig gan fod ansawdd cyffredinol yr ystâd yn golygu bod angen atgyweirio sawl eiddo. Gan gydnabod yr heriau hyn, ac er mwyn rheoli'r ystâd mewn modd mwy effeithlon, ym mis Gorffennaf 2018 cychwynnodd y Cyngor weithredu Rhaglen Landlord Corfforaethol.

Mae'r model Landlord Corfforaethol, sy'n canoli'r holl gyfrifoldeb yn gysylltiedig â'r ystâd - gan gynnwys cyllidebau, penderfyniadau a gweithgareddau - o fewn tîm canolog, yn parhau i fynd rhagddo'n dda. Mae'r model yn sicrhau bod asedau eiddo yn cael eu cynnal a'u rheoli'n unol â blaenoriaethau a safonau strategol corfforaethol. Wrth symud mlaen, byddwn yn bwrw ymlaen â datblygiadau pellach o dan swyddogaeth y Landlord Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth rheoli eiddo ychwanegol i feysydd gwasanaeth er mwyn symud ymlaen i reoli'r ystâd a pharhau â rhaglenni cynnal a chadw ataliol cynlluniedig. Yn ogystal â hyn, bydd System Rheoli Swyddi yn cael ei gweithredu ar gyfer y Gwasanaethau Adeiladu, i wella'r trefniadau i reoli a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor.

Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf i leihau maint yr ystâd er mwyn rheoli'r cynnydd mewn costau gweithredu, a hefyd i liniaru'r gwaith cynnal a chadw cynyddol sydd wedi ôl-gronni. Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu ymhellach drwy fabwysiadu model gweithio hybrid yn dilyn y pandemig, sydd wedi newid natur y gofynion a'r cynlluniau o ran gofod i'r dyfodol, gan olygu na fydd angen cymaint o ofod swyddfa o hyn allan. Mae gweithfannau achlysurol wedi cael eu creu, gan gynnwys mannau gwaith hyblyg, ystafelloedd cyfarfod gyda chyfleusterau hybrid a systemau archebu desg ar-lein yn Neuadd y Sir. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith wedi'i gyflawni i gynyddu effeithlonrwydd a gwella darpariaeth gwasanaeth yn yr ystâd, gyda 100% o waith Blaenoriaeth 1 ar asedau a raglennwyd, gan gynnwys yr hyn a ddiffiniwyd fel gwaith sydd angen sylw brys (gan gynnwys gwaith adfer sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau statudol), wedi'i gomisiynu yn 2022/23.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr amgylchedd adeiledig yn cynnwys cyfran sylweddol o'i ôl troed carbon, ac mae targed wedi'i osod i sicrhau amgylchedd adeiledig sero net erbyn 2030. Mae'n debygol y bydd targedau lleihau carbon yn dod yn rhwymedigaeth gyfreithiol cyn hir gan y bydd y Rheoliadau Adeiladu newydd (2025) yn gorfodi gofyniad yn gysylltiedig â charbon, gan olygu y bydd yn ofynnol i adeiladau ddangos eu bod yn cydymffurfio. O ganlyniad i hynny, bydd angen i unrhyw waith a gyflawnir gan y Cyngor yn gysylltiedig â'i ystâd swyddfeydd creiddiol o hyn allan fodloni neu ragori ar y gofynion hynny. Mae cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys sefydlu Bwrdd Gostwng Carbon Amgylcheddol i gryfhau'r trefniadau i oruchwylio'r broses. Mae Cynllun Lleihau Carbon yn yr Amgylchedd Adeiledig yn cael ei ddatblygu a fydd yn manylu ar y camau nesaf a'r gofynion o ran adnoddau.

Mae sicrhau derbyniadau cyfalaf hefyd yn amcan hollbwysig yn Strategaeth Eiddo y Cyngor, a gosododd Cynllun Eiddo Blynyddol 2022/23, a gymeradwywyd ym mis Medi 2022, darged o £5.5 miliwn. Ni chyrhaeddwyd y targed oherwydd oedi wrth gwblhau dau drafodyn mawr i ddosbarthu'n fewnol. Mae'r rhain wedi'u symud ymlaen i flwyddyn ariannol 2023/24.

Yn 2023/24, bydd Strategaeth Swyddfeydd Craidd yn cael ei hystyried a fydd yn disgrifio'r gofynion o ran yr ystâd hirdymor, gan ymateb i anghenion newidiol gwasanaethau, yr angen i leihau costau, darparu llety sy'n bodloni anghenion arferion gwaith modern a lleihau ôl-troed carbon y Cyngor.

Yn Chwarter 4 cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad cyfun o'r gweithlu ac asedau, gan ganolbwyntio ar gynlluniau strategol y Cyngor i ddefnyddio'i asedau a'i weithlu, sut mae'n monitro'r defnydd ohonynt, a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau. O ran Rheoli Asedau, ei ganfyddiadau cryno, a gyhoeddwyd yn ei adroddiad Llamu Ymlaen, oedd "Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei strategaeth eiddo ac mae ganddo'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol a ategir gan ddata perfformiad gwell, ond nid oes gan ei ddull ffocws ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac anghenion tymor hwy."

## Cefnogi gweithlu hynod fedrus a chynhyrchiol gan roi sylw creiddiol i Lesiant staff

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau o ran y gweithlu, gan gynnwys sicrhau capasiti digonol a sgiliau priodol, ac o ran recriwtio a chadw staff, yn enwedig o ystyried lefel y gystadleuaeth ar gyfer rhai proffesiynau. Mae'r her hon yn arbennig o ddifrifol yn y Gwasanaethau Plant ac mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, gwelir effaith hyn hefyd ar draws yr holl gyfarwyddiaethau a'r Amcanion Llesiant.

Er mwyn cefnogi gweithwyr yn fwy effeithiol a mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Gweithlu 2023-27 newydd. Mae'r strategaeth yn sefydlu dull cryfach o gefnogi perfformiad uchel, gan alluogi gweithlu hyblyg, medrus, ymroddedig ac amrywiol, yn ogystal â bodloni anghenion gweithlu'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y Cyngor brosesau ar waith i recriwtio a chadw unigolion dawnus mewn marchnad gystadleuol, yn ogystal â helpu cyfarwyddiaethau i greu llwybrau i'r rolau sydd ganddynt sy'n fwy anodd i'w llenwi.

Her arall o flaen y Cyngor o ran y gweithlu yw rheoli absenoldeb salwch; dengys canlyniadau diwedd blwyddyn fod 12.0 o ddiwrnodiau gwaith/sifftiau - fesul cyflogai Awdurdod Lleol cyfwerth ag amser llawn (CALl) - wedi'u colli yn sgil absenoldeb salwch yn 2022/23. Mae hyn yn erbyn targed o 9.5. Mae Covid-19 wedi parhau i gyfrannu at gynnydd mewn absenoldeb salwch, gyda'r canlyniad yn gostwng i 10.57 o ddileu salwch oherwydd Covid. Nid yw absenoldeb salwch yn unffurf ar draws y Cyngor, fodd bynnag, gyda chyfraddau'n arbennig o uchel yn y Gwasanaethau Stryd a'r Gwasanaethau Oedolion. Mae ymagwedd dargededig yn cael ei defnyddio i wella perfformiad, yn enwedig drwy gynorthwyo rheolwyr i ymdrin ag achosion absenoldeb hirdymor cymhleth.

Er mwyn cefnogi llesiant y staff, mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod gan bob gyflogai, lle bynnag y bo'n gweithio, fynediad at wasanaethau cymorth ac y gallu gymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys sesiynau ar wella llesiant a iechyd meddwl, ac ymwybyddiaeth o straen. Yn Chwarter 3 o 2022/23, canmolwyd gwaith y Cyngor yn gysylltiedig â iechyd a llesiant staff mewn asesiad a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu'n sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac yn ymateb i'r amrywiaeth honno.  Wrth ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i greu gweithlu mwy cynrychioliadol mae'r Cyngor wedi lansio cwrs peilot i ddatblygu arweinyddiaeth ymhlith staff o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn rolau arweinyddol.  Mae rhaglen fentora hefyd yn cael ei datblygu, gyda'r bwriad o roi'r rhaglen honno ar waith yn fuan yn 2023/24.

Ym mis Chwefror 2023, cyrhaeddodd y Cyngor y safle uchaf o blith holl awdurdodau lleol yng Nghymru a'r DU ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith Stonewall, ac roedd hynny'n cynnwys canmoliaeth am Rwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion LHDT+ yr awdurdod lleol. Dyfarnwyd tair anrhydedd o ganlyniad i hyn: Gwobr Aur Stonewall i Gyflogwyr; 100 Cyflogwr Gorau Stonewall; a Chanmoliaeth Uchel gan Stonewall.

## Defnyddio grym y pwrs cyhoeddus i gefnogi adferiad y ddinas

Mae'r Cyngor yn gwario dros £600 miliwn y flwyddyn yn caffael ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan fwy nag 8,000 o gyflenwyr a chontractwyr. Yn ogystal â sicrhau gwerth da am arian cyhoeddus a gaiff ei wario ar y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddo systemau caffael cadarn ar waith.  Mae Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor yn parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch gwariant a chydymffurfiaeth wrth gaffael, gan gynnwys problemau fel gwariant oddi ar gontract.  Mae'r Cyngor hefyd wedi cryfhau ei drefniadau i adrodd ar berfformiad rheoli contractau yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i Ddeddf Caffael y DU dderbyn cydsyniad brenhinol yn hwyr yn nhymor yr haf 2023, a bydd hyn yn cyflwyno gofynion pellach yn gysylltiedig â thryloywder ar draws y cylch caffael ac wrth adrodd ar wariant caffael.

Mae maint a graddfa gwariant y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i fanteisio ar enillion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, gyda ffocws arbennig ar ddatgarboneiddio, gwaith teg, sicrhau buddion cymunedol a sicrhau cymaint o gyfleoedd ag sy'n bosibl i fusnesau a chymunedau lleol drwy gontractau'r Cyngor. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Cyngor Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2022-2027 newydd, gan amlinellu blaenoriaethau caffael allweddol a'r newidiadau a gyflwynir i wella'r rheolaeth ar wariant allanol.

Mae a wnelo un flaenoriaeth allweddol â sicrhau bod rhaglen gaffael y Cyngor yn cefnogi'n llawn y nod o fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030, gan fod mwy nag 80% o ôl troed carbon y Cyngor yn ei gadwyn gyflenwi. Mae adolygiad wedi'i gwblhau o Gynlluniau Lleihau Carbon cyflenwyr allweddol, a pheilot yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, sy'n anelu i herio'r rhai sy'n llunio manylebau i leihau carbon dros gyfnod contractau. Fodd bynnag, ceir cyfyngiad sylweddol o hyd o ran y fethodoleg a ddefnyddir i asesu'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chaffael. Mae hyn yn broblem genedlaethol, felly mae'r Cyngor y cydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r fframwaith dadansoddi. Cydnabyddir hefyd na fydd holl gyflenwyr y Cyngor - yn enwedig cyflenwyr llai, annibynnol a lleol - yn gallu symud i atebion carbon isel yn gyflym, a bod angen ystyried sut y gall gweithgareddau pwrcasu'r Cyngor gefnogi'r trawsnewid sydd ei angen wrth symud ymlaen.

Un o amcanion allweddol eraill y strategaeth yw gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector. Mae canlyniadau diwedd blwyddyn yn dangos perfformiad boddhaol, gyda'r Cyngor yn gwario 51.62% o'i holl wariant ar sefydliadau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd yn erbyn targed o 52%, ac yn gwario 65.61% o'i holl wariant ar sefydliadau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn erbyn targed o 66%. Cynhaliwyd dadansoddiad manwl o wariant er mwyn canfod cyfleoedd i gynyddu gwariant lleol ymhellach, gyda chynllun prosiect manwl i ysgogi hyn. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i ganfod cyfleoedd i gynyddu gwariant lleol o hyn allan.

Ceir cynnydd da hefyd yn gysylltiedig â chynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol gan gyflenwyr, yn enwedig wrth ehangu buddion cymunedol i gontractau eraill, nid contractau adeiladu yn unig. Mae'r Cyngor ymhlith Cynghorau mwyaf blaenllaw Cymru o ran sicrhau buddion cymunedol drwy ei gontractau. Mae'r Cyngor yn defnyddio system Porthol Gwerth Cymdeithasol i gasglu ymrwymiadau'r contractwr a monitro/rheoli cyflawniad yr ymrwymiadau hynny dros gyfnod y contract. O ganlyniad i hyn, mae sefyllfa Chwarter 4 yn amlygu bod 33 o gontractau 'byw' ar hyn o bryd sy'n cynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, ac a fydd yn creu dros £7.6 miliwn o werth cymdeithasol. Serch hynny, er gwaethaf y cynnydd, mae canlyniadau diwedd blwyddyn yn dangos bod canran y contractau newydd (dros £250,000) sy'n cynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol y tu ôl i'r targed (13.6% yn erbyn targed o 20%). Mae Grŵp Cyflawni Gwerth Cymdeithasol felly wedi'i sefydlu i ddatblygu dull y Cyngor o gynyddu ymrwymiadau gwerth cymdeithasol hyd yr eithaf, a sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny'n cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull cyson o sicrhau a rheoli cyflawniad buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol, a ddeellir gan y Cyngor a'i gontractwyr.

## Sicrhau bod y Cyngor yn siarad yn well â'r y ddinas y mae'n ei gwasanaethu, ac yn gwrando arni'n well

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi cyfraniad pobl leol o ran blaenoriaethu, llunio a gwerthuso'r gwasanaethau y maent hwy a'u teuluoedd yn dibynnu arnynt. Rydym yn parhau i weld cyfradd ymateb uchel i arolygon

rheolaidd y Cyngor a gynhelir drwy'r ddinas: cafwyd bron i 4,000 o ymatebion i Arolwg Holi Caerdydd 2022, bron i 6,000 o ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Gyllideb 2023/24, a 7,600 o ymatebion i'r Arolwg Dinas Cyfeillgar i Blant yn 2022. O ran yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb, cafodd Caerdydd fwy o ymatebion na holl awdurdodau lleol eraill Cymru, yn ogystal â'r ymateb uchaf ymhlith Dinasoedd Craidd y DU. I gefnogi'r gwaith hwn a chryfhau llais y dinesydd, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi llunio Adroddiad Trosolwg o'r Ymgynghoriad, a bydd yn parhau i'w lunio bob blwyddyn, Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn amlygu'r materion penodol a godwyd gan grwpiau demograffig allweddol.

Serch hynny, er bod y Cyngor yn derbyn cyfradd ymateb uchel i'w arolygon craidd, llai nag un o bob pedwar (22.6% ) sy'n cytuno eu bod yn gallu dweud eu dweud ynghylch materion lleol neu ynghylch y modd y mae'r Cyngor yn cynnal gwasanaethau yn eu cymuned.   Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ar ganol datblygu Strategaeth Cyfranogiad newydd, a fydd yn pennu'r camau i ysgogi gwelliant ym mhob un o'r meysydd a nodwyd, ac yn rhoi anogaeth bellach i bobl leol gymryd rhan yn y broses benderfynu. Er mwn llywio datblygiad y Strategaeth Cyfranogiad, nodwyd amryw o agweddau mewn ymarfer cynhwysfawr a gynhaliwyd i nodi meysydd i'w gwella, gan gynnwys yr angen i sicrhau: bod arfer da - wrth ymgynghori ac ymgysylltu - yn cael ei weithredu'n gadarn ar draws meysydd gwasanaeth; bod 'llais y dinesydd' yn cael ei gynnwys yn fwy cyson ar draws fframwaith perfformiad y Cyngor; a bod adborth o ymgyngoriadau'n cael ei roi'n gyson i ymatebwyr arolygon. Yn rhan o'r ymarfer, cafodd proffil demograffig hefyd ei greu o ymatebwyr i arolygon craidd y Cyngor. Yn rhan o'r gwaith hwn, nodwyd cyfradd ymateb isel ymhlith y grwpiau canlynol: wardiau economaidd-gymdeithasol is, yn enwedig Bwa Deheuol Caerdydd; pobl hŷn (75+ oed); plant a phobl ifanc; cymunedau lleiafrifol ethnig; a phobl sy'n nodi eu bod yn anabl.

Canolbwyntir yn arbennig felly ar gynnwys ac ymgysylltu â grwpiau wedi'u tangynrychioli. Mae gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gwblhau - gan gynnwys ymgysylltu uniongyrchol ag unigolion a sefydliadau a all roi mewnwelediad ac arweiniad ynghylch sut i gryfhau arferion ymgynghori â grwpiau tangynrychioledig - a drafft wedi'i ddatblygu o'r camau.  Cyhoeddir drafft o'r Strategaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2023.

Fel yr amlygwyd yn arolwg Holi Caerdydd 2022, roedd bodlonrwydd dinasyddion â gwasanaethau Cyngor yn is na'r targed yn 2022 (sef 47.8% o gymharu â tharged o 70%). Roedd canlyniad 2022 fymryn yn uwch na chanlyniad 2021 (sef 47.3%) ond tua 20% yn is na ffigur 2020. Mae'r canlyniad hwn yn gyson â'r gostyngiad mewn bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd (a ostyngodd o 72.7% yn 2020 i 52.1% yn 2022). Dengys dadansoddiad o fodlonrwydd â gwasanaethau unigol fod bodlonrwydd ar ei uchaf ar gyfer parciau a mannau agored (74%), goleuadau stryd (66.2%) a Llyfrgelloedd/Hybiau (64.4%), ac anfodlonrwydd ar ei uchaf ar gyfer cynnal a chadw palmentydd (59.8%), cynnal a chadw ffyrdd (43.2%) a mynychder fandaliaeth a graffiti (53.3%).

Yn 2021/22, cafodd cyfanswm o 3.633 o gwynion eu cofnodi, a oedd yn gynnydd o 43.2% o gymharu â'r flwyddyn gynt, pan gofnodwyd 2,537 o gwynion. Casgliadau gwastraff a dderbyniodd y nifer fwyaf o gwynion (2,089). Gwelwyd y duedd gynyddol hon mewn cwynion cyffredinol mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi'r datganiad canlynol, "Mae'n debygol bod cwynion i'm swyddfa, ac i wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, wedi'u dal

[8] Source: Ask Cardiff 2022

yn ôl yn ystod y pandemig, a'n bod bellach, yn ôl y disgwyl, yn dechrau gweld y ffigurau'n adlamu."

Mae data ar gwynion ar gyfer 2022/23 yn dangos bod y sefyllfa'n gwella. Dangosydd allweddol ar gyfer bodlonrwydd achwynwyr â safon ymchwiliadau, yn ogystal â thegwch y canlyniadau, yw'r nifer sy'n uwchgyfeirio'u cwyn i sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bu gostyngiad yn nifer y cwynion a gafwyd yn 2022/23, gydag ond 142 yn dod i law. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 182 yn 2021/22. Mae'r Ombwdsmon wedi datgan, ac ystyried maint poblogaeth Caerdydd, fod 0.39 o gwynion yn dod i law fesul 1,000 o breswylwyr. O gymharu â dau awdurdod lleol mawr arall Cymru, mae Abertawe yn derbyn 0.39 o gwynion fesul 1,000 o breswylwyr a Rhondda Cynon Taf yn derbyn 0.23 o gwynion fesul 1,000 o breswylwyr.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbynnir gan yr Ombwdsman o fewn y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau Plant, Addysg, yr Amgylchedd, Cyllid, Cynllunio a Rhentu Doeth Cymru (o gymharu â 2021/22). Yr unig gynnydd a gafwyd oedd yn yr Adran Fudd-daliadau a'r Adran Briffyrdd. Dim ond cynnydd bach oedd hwnnw - o 1-2% - nad yw'n llawer o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Ar ben hyn, o blith y 142 o gwynion a gafodd yr Ombwdsman, caewyd 50% ohonynt yn dilyn ystyriaeth gychwynnol; ystyriwyd bod 21% yn gynamserol ac fe'u cyfeiriwyd yn ôl i'r Cyngor; ac roedd yn rhaid ymyrryd mewn 16% o achosion - er y llwyddwyd i sicrhau datrysiad buan ym mhob un o'r achosion hynny. Ni fu unrhyw ymchwiliadau yn 2022/23. Mae'r Cyngor hefyd yn cadw cofnod o'r ganmoliaeth a dderbynnir, sy'n ddefnyddiol o ran deall arfer da a rhannu'r hyn a ddysgir ar draws y Cyngor. Yn 2021/22, cofnodwyd cyfanswm o 1,487 o ganmoliaethau, sy'n ostyngiad o 22.2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Hawlfraint delwedd y prif glawr blaen Croeso Cymru

CARDIFF
CAERDYDD